

CEFNNOGI CYMRU



Mae gan gefnogwyr tim pêl-droed Llanrug faner newydd i'w chwifio tra'n cefnogi'r tim cenedlaethol. Fe'i defnyddiwyd gyntaf yn y gêm holl-bwysig yn Baku pan enillodd Cymru o ddwy gôl i ddim yn erbyn Azerbaijan, ac yna yn Nghaerdydd pan sicrhodd Cymru eu lle ym mhencampwriaeth Ewrop 2020 drwy ennill yn erbyn Hwngari o ddwy gôl arall.

Ond beth yn union ydi'r cysylltiad efo Llanrug? Ganwyd Kieffer Roberto Francisco Moore yn Torbay, Swydd Dyfnaint ym mis Awst 1992. Ar gofrestr ei enedigaeth rhoddir enw morwynol ei fam yn 'Moore', a dyna felly oedd cyfenw ei daid. Ei daid Cymreig sy'n rhoi'r hawl iddo chwarae i Gymru. Mewn cyfweiliad ar y rhaglen 'Sgorio', dywedodd Kieffer ei fod yn cofio dod i Lanrug yn blentyn ar wyliau at ei daid a'i nain. Symudodd ei daid a'i nain yn ddiweddarach i fyw i

Torquay. Felly, pwy oedd Mr Moore oedd yn arfer byw yn Llanrug?

Tenau iawn ydi'r cysylltiad, ond 'dyw hynny'n malio dim ar gefnogwyr Llanrug. Yn yr un gêm yn Baku roedd cefnogwyr Llanberis yn chwifio baner 'Y Darans'. Mae hwythau hefyd, ers dros ganrif, yn 'hawlio' chwaraewr rhyng-wladol fel Dr Mills-Roberts, gôl-geidwad Preston North End. Ond Kieffer Moore -'Hogyn Llanrug' - fydd yn cael sylw'r cefnogwyr lleol ym mhencampwriaeth Ewrop 2020.

ISSN 2516-7235



9 772516 723001 >

ECO'r Wyddfa

CYMRAG

RHIF 482
Rhagfyr 2019
 Argraffwyd gan
 Wasg Dwyfor
 Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Tony Elliott, Bwlch Cae Mawr,
 Deiniolen LL55 3LU 07798552238
 tonyelliott17@yahoo.com

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
 (01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC

Marged Rhys
 marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Hafan,
 Llanrug (672221)
 glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Rhian Elin George, Sw'n yr Egan,
 Brynrefail (01286) 872306
 ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
 Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
 Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
 Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU

Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
 01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,
 Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
 Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Lowri Ceiriog,
 4 Erw Wen.
 lowriceiriog@hotmail.co.uk

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
 Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO:

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
 Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
 56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
 neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN: Katie Williams, Ty'n
 Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622
 ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
 Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2019

Rhifyn	Copi i law	Bwndelu	Ble
Nadolig/Ionawr	8fed Rhagfyr	20fed Rhagfyr	Llanrug
Chwefror	19eg Ionawr	31ain Ionawr	Llanrug
Mawrth	16eg Chwefror	28ain Chwefror	Llanrug

LLYTHYRAU

Annwyl Ddarllenwyr

Cysylltu ydw i o dîm cynhyrchu rhaglenni Heno a Pnawn Da yn y Gogledd. Rydyn ni bob amser yn chwilio am straeon ar hyd a lled y wlad, ac yn awyddus i wneud cyswllt efo pobl yn eu cymunedau. Byddem yn ddiolchgar iawn petaech yn cofio amdanom ni os oes stori dda yn eich ardal.

Gallwch gysylltu efo ni ar e-bost, neu mae croeso i chi ffonio'r swyddfa ar 01286 685 246.

Gobeithio bod hyn yn bosib, ac y cawn straeon difyr o'ch ardal chi ar Heno a Pnawn Da yn y dyfodol agos!

Cofion,

Catrin a Menna

Tîm Cynhyrchu 'Heno'

Teledu Tinopolis, Galeri, Caernarfon LL55 1SQ

01286 685 246 / 07854337830

www.tinopolis.com



CYSTADLEUAETH STORI FER CARA

Annwyl ddarllenwyr,

Oes gennych chi stori yn llechu yn eich meddwl ac ydych chi'n ysu am ei sgwennu ar bapur? Wel, dyma'ch cyfle chi!

Mae cylchgrawn Cara yn cynnal cystadleuaeth stori fer, ar y testun Adra / Adre / Cartref.

Mae cyfle i chi ennill £100 i'w wario ar wefan www.adrahome.com a chael eich stori wedi ei chyhoeddi yn y cylchgrawn. Y beirniad yw'r awdur poblogaidd Manon Steffan Ros, a'r dyddiad cau yw Diwrnod Santes Dwynwen, 25 Ionawr 2020.

Mae'r manylion llawn, ynghyd â'r ffurflen gais, yn rhifyn gaeaf Cara, sydd ar gael yn y siopau nawr, ac ar ein gwefan www.cara.cymru. Croeso i unrhyw un roi cynnig arni!

Neu beth am brynu tanysgrifiad 1, 2, 3 neu 4 blynedd i ffrind neu aelod o'r teulu fel anrheg Nadolig gwahanol eleni? Fe gewch chi gerdyn Nadolig unigryw Cara a chopi o'r cylchgrawn drwy'r post.

Diolch o galon am eich cefnogaeth yn 2019. Mae Cara yn edrych ymlaen at ddegawd newydd, gyffrous!

Meinir ac Efa, Tîm Cara

ETHOLIAD CYFFREDINOL 12 RHAGFYR 2019 : GALW AM DAFLENNI

Mae'r Archifau a Chasgliadau Arbennig ym Mhrifysgol Bangor yn anelu i gasglu deunydd ymgyrchu ar gyfer yr holl ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr etholiad cyffredinol yng ngogledd Cymru, er mwyn eu hychwanegu at ein casgliad o Effemera Etholiadol.

Rhowch gymorth i ni gadw'r casgliad yma'n gyfredol drwy anfon, taflenni, poster i a chylchlythyrau atom. Ein cyfeiriad yw : Archifau a Chasgliadau Arbennig, Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau, Prifysgol Bangor LL57 2DG

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£25.00 : Er cof am Dafydd Morris, Cae'r Waun, Penisarwaun gan Alice a'r teulu.

£20.00 : Heulwen Jones, Cyncoed, Stryd Warden, Llanberis; Er cof annwyl am Eirwen Closs Evans, Porthcawl , gynt o Gwmyglo gan ei dwy gyfnither Ceinwen Jones a Margaret Roberts; John Maldwyn a Mair Jones, 13 Tan-y-Buarth, Bethel; Er cof am ben-blwydd Emma Bernard, gan Mam, Dad a Louise.

£10.00 : Teulu Bron Eilian, Dinorwig; Er cof am Leslie, Bro Dawel, Waunfawr; Nia Griffith, Glandwr, Bethel er cof am ei chwaer Ceri; Bet Evans, 7 Y Ddol, Bethel; Megan Williams, Bron Eryri, Llanrug; Sylvia Jones, 4 Rhes Marian, Deiniolen; Margaret Roberts, Crud yr Awel, Porth Gogledd, Deiniolen; Mrs Nansi Morris, 93 Pentre Helen, Deiniolen; Mrs Jane Thorman Jones, Deiniolen; Rachel Thomas, Min y Rhos, Llanrug.

£5.00 : Beryl Ellis, 7 York Terrace, Llanberis.

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

London House
LLANRUG

PEN
CIGYDDION
Y FRO

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
 SELSIG CARTRE
 CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
 ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!

(01286) 673574

Trip Dulyn



Y gŵyn a glywir amlaf y dyddiau hyn yw ei bod yn anodd denu cantorion ifanc i gorau meibion yng Nghymru. Ond nid felly yn Llanberis. Mae Côr Meibion Dyffryn Peris, yn ddiweddar, wedi ennyn tua ugain o leisiau newydd ifanc ac mae'r côr yn mynd o nerth i nerth gyda dros ddeugain o aelodau erbyn hyn.

Yng nghwmni y Côr gyda'u harweinydd Dafydd Roberts, eu cyfeilydd Bethan Holding a'r soprano ifanc Elen Lloyd Roberts (merch Dafydd) fe dreuliais bump diwrnod hynod bleserus yn Iwerddon. Cynhaliwyd tri cyngerdd mewn eglwysi hardd yn Nulyn a'r ardal o gwmpas.

Roedd y cyngherddau yn llwyddiant mawr ac roedd y sain a safon y canu yn hynod bleserus. Mwynheais unawdau Elen yn fawr, yn arbennig felly 'Mai' gan Meirion Williams a'r ddeuawd a ganodd gyda'i thad. Mawr oedd cymeradwyaeth y Gwyddelod.

Wrth gwrs, nid y canu'n unig oedd y mwynhad. Cafwyd hwyl a chwerthin cyson ar hyd y daith, gyda llawer sylw chwim a doniol i'w glywed o bryd i'w gilydd. Roedd pawb wedi paratoi ar gyfer y cyngherddau a'r 'uniform' a'r sgidiau duon yn eu bagiau. Ond nid

felly Arwel. Gorfu iddo ef ruthro i Marks and Spencers, Dulyn i brynu trowsus du newydd a drud. Roedd o wedi pacio trowsus Carys mewn camgymeriad!

Yn yr eglwys, fel arwydd o werthfawrogiad, derbyniodd Dafydd botel o ddiod mewn bocs crand. Ond o! y sioc a'r siom ar ei wyneb pan agorodd Dafydd y bocs. Potel o ddiod 'energy' oedd ynddo! Wyddai o ddim, amser hynny, fod rhai o'r hogia wedi cyfnewid y poteli yn slei bach. Sôn am chwerthin pan ddaeth y wisgi drudfawr i'r golwg pan oeddem yn barod i groesi'n ôl am adref.

A chwerthin wnaeth Dafydd hefyd – yr arweinydd clên a rhadlon braf. Do fe gafwyd llawer o sbort a sbri. Ond rhaid dweud fod yr hogia wedi bod yn llys-genhadon clodwiw i Gorau Meibion yng Nghymru gan obeithio y bydd taith gyffelyb arall cyn bo hir.

O diolch i chwi Feibion Dyffryn Peris

Am swynol gan a'r hwyl drwy'r oriau maith.

Erys atgofion lu ar gof a chadw

Am byth, gan bawb ymunodd ar y daith

Gair gan y Golygydd

Ymddiheuriad: Drwg gennym fod y rhifyn diwethaf o'r "Eco" wedi eich cyrraedd wythnos yn hwyr. Problemau gydag un o beiriannau'r Wasg oedd yn gyfrifol am yr oedi. Ond rwy'n siwr fod digon o ddeunydd darllen ynddo i'ch cadw tan y rhifyn hwn!

Diolch : Erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd bydd y Cyfarfod Cyhoeddus i drafod dyfodol yr "Eco" eisoes wedi ei gynnal. Gyda diolch ymlaen llaw i'r rhai ohonoch a ddaeth i gefnogi ac i gynnig cymorth (gobeithio!!). Bydd adroddiad yn ymddangos yn rhifyn y Nadolig.

Yn ystod y mis aeth heibio

- Aeth 35 mlynedd heibio ers i frodorion yr Anangu gael hawliau tir ar fangre oedd yn sanctaidd iddynt yng nghanolbarth Awstralia. O fewn y tiroedd rheini mae Ulura, (a alwyd yn Ayer's Rock gan fewnfudwyr) y graig anferth lle cafodd y byd ei greu yn ôl yr Anangu. Ac ar ddiwedd Hydref eleni gwaharddwyd pobl rhag dringo'r graig sy'n 1,142 troedfedd o uchder. Ers canol y 1950'au mae 35 o bobl wedi eu lladd ar y llethrau llithrig, a thunnelli o sbwriel wedi ei adael ar y mynydd sanctaidd. Ac y mae nifer go dda yn teimlo y dylai'r un math o waharddiad fod yn bosib ar yr Wyddfa hefyd.

- Datgelwyd fod Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr wedi talu bron i £2,000 y diwrnod i ymgynghorydd oedd yn byw yn Sbaen i ddangos iddynt sut i arbed arian! Sgersli bilif, chwedl Ifans y Tryc gynt.

- Rhyddhawyd gwybodaeth am yr ardaloedd mwyaf bioamrywiaethol yng ngwledydd Prydain. Ucheldiroedd yr Alban oedd ar frig y rhestr gyda 16,273 o rywogaethau. Gwynedd oedd yn ail gyda 14,221 rhywogaeth, ac yr oedd Powys, Penfro ac Abertawe hefyd yn y chwech uchaf.

- Yn dilyn y llifogydd echrydus yn swydd Efrog ac yn nwyrain Canolbarth Lloegr mae posibilrwydd y bydd prinder tatws yn ystod y misoedd nesaf. Doedd ffermwyr yr ardal ddim wedi gorffen cynhaeafu tatws cyn i'r llifogydd gyrraedd, a chredir fod dros hanner cnwd eleni yn pydru'n y ddaear.

- ac erbyn i chi dderbyn y copi hwn bydd yr etholiad ar ein trothwy. Ac wedyn ... Fydd Boris (do or die/ dry) yn ysu am gynnig llwnc destun iddo fo'i hun? Fydd Corbyn wedi symud i Rif 10 ac yn cynllunio i dyfu llysiau yn yr ardd gefn? Fydd yr SNP wedi hawlio pob sedd yn yr Alban? Fydd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi atal Brexit? Fydd Plaid Brexit wedi darfod a Farage a Widdicombe yn Arglwydd ac Arglwyddes? Fydd Plaid Cymru wedi cadw Arfon ac ennill Môn? Fydd yna unrhyw drefn ar bethau cyn y Nadolig? Tybed.



Ysgol Dolbadarn

Rhieni a Chyfeillion yr ysgol.

Diolch i bawb am gefnogi'r Bingo yn ddiweddar- a diolch i Gyfeillion Yr Ysgol am drefnu unwaith eto. Casglwyd oddeutu £200 ar gyfer yr ysgol.

Cafwyd hefyd Noson Sinema ganddynt cyn hanner tymor a chasglwyd swm dda o arian ar gyfer Cronfa yr ysgol- diolch i bawb am helpu.

Mae trefniadau ar gyfer Ffair Nadolig yn Y Ganolfan Rhagfyr 10fed/11eg (i'w gadarnhau).



Coed Doctor-Blwyddyn 3

Bu disgyblion Blwyddyn 3 yn chwilio am arwyddion yr Hydref yng Nghoed Doctor yn ddiweddar. Cawsant gyfle i gasglu mwyar duon ar gyfer gwledd Duduraidd. Defnyddiwyd y dail a gasglwyd ar gyfer efelychu gwaith yr artist amgylcheddol Tim Pugh.

Castell Dolbadarn a Cefyn Burgess Mae disgyblion Bl 5+6 yn rhan o gynllun Dathlu 800 mlynedd ers adeiladu Castell Dolbadarn yng nghwmni yr artist Cefyn Burgess- bydd y gwaith i'w arddangos yn y ganolfan yn fuan.

Mae'r disgyblion wedi cael cyflwyniad difyr gan Into Film ar Newid Hinsawdd yn ddiweddar- cawsant gyfle i weld ffilm fer yn y Galeri a oedd yn cael ei ddarlledu ar hyd a lled Cymru yn ogystal â'r Senedd yng Nghaerdydd.

Plas Mawr Conwy Bu disgyblion Bl 3+4 i Gonwy yn ddiweddar er mwyn olrhain hanes y Tuduriaid yng Nghymru. Cawsant gyfle hefyd i weld yr Afon Conwy ac i drafod pwysigrwydd afonydd yn amser y Tuduriaid. Diwrnod bendigedig a phawb wedi mwynhau.

Carol Yr Wyl 2019 Mae Ms Rhiannon Williams wedi llwyddo i gyfansoddi chwip o garol eto eleni. Bydd y cor yn perfformio yn fuan cyn y Nadolig fel rhan o raglen S4C. Dim ond 10 ysgol a fydd yn cael eu recordio eto eleni- tipyn o gamp! Gwyliwch allan ar Heno ar S4C yn ystod yr wythnosau nesaf.

Dathlu 50mlynedd Stiwdio Sain Bu disgyblion yr ysgol yng Nghwmni y Welsh Whisperer yn ddiweddar yn dathlu 50 mlynedd Cwmni Sain. Cawsant gyfle i recordio caneuon a chreu clawr ar gyfer CD- diolch i gwmni Sain am gynnig y profiad i'r plant.



Llinellau Melyn- diogelwch y ffordd Braf oedd gweld y llinellau melyn y tu allan i'r ysgol wedi eu peintio unwaith eto a rhieni yn parchu hynny wrth beidio parcio yn anghyfreithlon. Bydd swyddogion diogelwch y ffordd yn cadw llygaid ar y sefyllfa ac yn adrodd os oes problemau yn codi. Mae rhieni yn cael eu hannog i gerdded y plant i'r ysgol neu barcio ym maes parcio Gwesty'r Heights yn y bore er mwyn lleihau peryglon traffig i'r plant

Pêl-droed

Da iawn i dim pêl-droed yr ysgol am eu hymdrechion yn nhwrnament Yr Urdd yn Nantporth yn ddiweddar a diolch i Mr Hughes am eu hyfforddi.



Athletau- llwyddodd y tim atletau ysgol yn dda mewn cystadleuaeth yn ddiweddar – da iawn am ddod yn 3ydd drwy'r Sir. Mae disgyblion heini iawn yn yr ysgol.

Gala Nofio'r Urdd- llongyfarchiadau mawr i dim nofio yr ysgol am eu llwyddiant yn y Gala ym Mhwl Nofio Bangor yn ddiweddar- mae dyfodol disglair iawn o flaen ambell un!

Archifdy

Diolch i Mrs Williams o'r archifdy am ei chyflwyniad ar y Tuduriaid yn ddiweddar. Yr oedd disgyblion bl 3+4 wrth eu boddau yn clywed yr hanesion a chael gwisgo mewn hen ddillad. Gyrrwyd neges ebost iddi gan y plant yn diolch iddi am ei chwmni a chafwyd ebost fel ymateb ganddi hefyd- pawb wedi gwirioni cael neges electroneg.



Rheilffordd Y Llyn

Diolch o galon i gwmni Rheilffordd Y Llyn am gynnig taith am ddim i ddisgyblion yr ysgol yn ddiweddar. Cawsom bnawn hyfryd yn yr haul yn gwerthfawrogi ein pentref o ochr arall y llyn.



Ymgyrch di-blastig Efallai eich bod wedi gweld llun plant yr ysgol yn ddiweddar ym mhapur Newyddion Gwynedd. Mae sawl un ohonynt wedi ymgyrchu i leihau y defnydd o blasting yn yr ysgol. Cafwyd cyfle i drafod hyn gydag aelodau o'r Cyngor ac o'r herwydd mae llefrith yn cael ei gynnig mewn cwpanau yn hytrach na photeli plastig erbyn hyn! Da iawn wir!

Parhad LLANBERIS



Merched y Wawr.

Cynhaliwyd cyfrafod ar nos Fercher 6ed Tachwedd, gyda Mrs.Pat Jones,Cae Coch yn dangos i'r aelodau sut i wneud addurniadau ar gyfer y Nadolig. Croesawyd Pat gan Mrs Marian Jones. Cafodd pawb hwyl fawr yn creu eu haddurniadau. Diolchwyd i Pat gan Mrs Heather Jones.



Cyngerdd Nadolig Côr Meibion Dyffryn Peris

Oherwydd nad yw'r Oriel ar gael y Nadolig yma, bydd y Cyngerdd Nadolig Blyneddol, gyda Band Deiniolen a Chôr Dyffryn Peris, yn cael ei gynnal yn Eglwys Sant Padarn am 2 o'r gloch, brynhawn Sul, Rhagfyr 15fed. Ceir manylion llawn yn yr hysbyseb sydd yn yr Eco yma.

Cyfarchion Nadolig Dymuna Beryl Ellis, 7 York Terrace, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion. Ni fydd yn gyrru cardiau Nadolig eleni. Mae hi'n gobeithio ymgartrefu yn Llanrug.

Cyfarchion Nadolig. Hoffai Heulwen Jones, Cyncoed, Stryd Warden, ddymuno Nadolig Llawen i'w theulu, cymdogion a ffrindiau.

Eglwys Sant Padarn

Mae nifer o weithgareddau wedi eu trefnu yn yr Eglwys yn ystod mis Rhagfyr.

Rhagfyr 7 Gŵyl y Goeden yn dechrau. Mae croeso i unrhyw unigolyn neu fudiad ddod â choeden wedi'i haddurno, bydd yr Eglwys ar agor o 10 o'r gloch ymlaen i dderbyn y coed ac yna bydd ar agor yn ddyddiol trwy'r mis.

Hefyd, ar Rhagfyr 7, bydd te Nadoligaidd rhwng 2 a 4 o'r gloch yn cynnwys rôl twrci, stwffin a llugaeron neu caws brie a llugaeron, tatws rhost, mins pei a bara brith. Derbynnir rhoddion tuag at achos Sialens Iechyd Cambodia. Mae Angharad Dobson yn cymeryd rhan yn Sialens Iechyd Cambodia yn ystod yr haf nesaf. Bydd yn gweithio yno gyda ysgolion,

gan wneud sesiynau ar iechyd, gwaith creadigol a chwaraeon yn ogystal â helpu gyda gwersi Saesneg.

Rhagfyr 8 Cyngerdd gyda Hogia'r Ddwylan, Elin Mai Williams, ag Efan Rees Jones, arweinydd Iwan Wyn Williams, yn dechrau am 7:30. Ticedi yn £8 ar gael wrth y drws neu drwy ffonio 01286 871423

Rhagfyr 10 Cyngerdd ysgol Dolbadarn

Rhagfyr 14 Ffair Nadolig y pentref o 6 tan 8 gyda stondinau, lluniaeth a Siôn Corn

Rhagfyr 15 Cyngerdd Nadolig Band Deiniolen a Chôr Meibion Dyffryn Peris, am 2 o'r gloch.

Cymdeithas Undebol Capel Coch

Cafwyd cyfarfod arbennig o ddifyr yn y Gymdeithas Undebol yn Capel Coch nos Fawrth, Tachwedd y 12fed,

ynghwmni'r cerddor Robat Arwyn, Rhuthun. Cafwyd peth o'i hanes fel cyfansoddwr wrth iddo ganu rhai o'i ganeuon ar ôl dweud rhywfaint am eu cefndir ac am achlysur eu cyfansoddi. 'Roedd mwy nag un o'r caneuon a gysylltw'n ar unwaith ag ef yn eu plith, ynghyd ag un neu ddwy o ganeuon llai cyfarwydd.

Bydd y Cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas am 7 o'r gloch nos Fawrth, Rhagfyr y 10fed, gyda sgwrs gan Elwyn Thomas ar 'Cerddi Hanner Canrif'.

Diolch Hoffai teulu Iwan Lloyd Williams (Jiws) ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu caredigrwydd a'u cefnogaeth ac am yr holl roddion hael er cof am Jiws. Rhoddwyd cyfraniadau tuag at Ysgol y Gogarth, Clwb Pêl-droed Llanberis a Bryn Seiont Newydd.

North Wales SIGNS
Gogledd Cymru

Uned Unit | **A9** | Cibyn Ind Estate | northwalessigns.com
grid76.co.uk | 07766956673

Gwasanaethau Capel Coch


8fed am 10yb a 5yh: Y Gweinidog

15fed am 10yb: Parch Eifion Wyn Williams

Gwasanaethau Jerusalem (2 y prynhawn)

Rhagfyr 1af: Parch Huw Tegid Roberts

8fed, 15fed, a 22ain: Dim Gwasanaeth



E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE

LLANBERIS

FFON- (01286) 870202



SUL Y COFIO

Ar fore rhylllyd daeth torf niferus i libart yr Ysgol i gynnal y Gwasanaeth Coffa blynyddol. Arweinwyd y defosiwn gan y Parch. Marcus Robinson. Cyfeirwyd yn unigol at golledigion ardal Bethel yn y Ddau Ryfel Byd. Cyfeiriodd Marcus hefyd at y milwyr cyfoes sy'n dychwelyd o ryfeloedd heddiw a'r cynnydd sylweddol yn y 'clwyfau' seicolegol a meddyliol sydd yn eu llethu. Unwaith eto eleni cymerwyd y brif ran gan ddisgyblion yr Ysgol,

dan arweiniad Dylan Parry a'r Prifathro. Canwyd y corn gan Llŷr Elwyn. Yr oedd urddas i ddatganiadau'r plant. Wedi'r dau funud o ddistawrwydd, caed cyfle i unigolion, clybiau a chymdeithasau y fro i osod torchau ger y gofeb. Gosodwyd y dorch ar ran y pentref gan Myfanwy Harper. Cyflwynwyd torchau hefyd ar ran y Clwb Bro, Clwb Snwcer, Clwb Pel-droed Ieuenctid, Pwyllgory Neuadd Goffa, a Merched y Wawr. Gosodwyd torch deuluol er cof am Rowland John Hughes a Hughie Thomas.

CLWB BRO Cafwyd awran ddifyr yng nghwmni y Monwysyn, William Williams. Brodor o Drawsfnedd ond yn ifanc iawn symudodd i ardal Llanddeusant, Môn. Yn fab i siopwyr, wedi ei gyfnod yn Ysgol Uwchradd Amlwch penderfynodd geisio gyrfa yn y Gwasanaeth Sifil. Wedi'r llu arholiadau crwydrodd o wahanol agweddau o'r gwaith i'r llall cyn darganfod agoriad yn yr adran o'r gwasanaeth yn ymwneud ag iechyd. Lleolwyd y gwaith draw yn Llundain ac yno bu am sawl blwyddyn. Dringodd yr ysgol gan gyrraedd swydd aruchel yn yr Adran Iechyd yn ymwneud ag agweddau o gynnal, adeiladu a staffio ysbytai ledled Prydain. Agwedd bwysig arall oedd y swyddogaeth o baratoi y Gweinidog Iechyd cyn i hwnnw wynebu cwestiynau neu ddadl yn Nhŷ'r Cyffredin. Hefyd bod yn gyfrifol am drefniadau ar gyfer ymweliadau y Gweinidog – gartref a thramor – yn rhinwedd ei swydd. Cawsom ddigion o straeon o'r maes gan gyfeirio at ambell i Weinidog fel David Owen a Ken Clarke. Ken Clarke a'i 'hush puppies' ar gyfer pob achlysur. Cyfarfod y teulu brenhinol a Diana yn arbennig. Daeth yn amlwg nad oedd sawl un o'r Gweinidogion yn hyddysg ym maes iechyd. Apwyntiad politicaidd ydoedd gyda'r pwysau o gynnal y gwahanol bolisiau yn disgyn ar y gweision sifil. Pnawn difyr iawn gydag un a dawn dweud naturiol.

Bydd dau gyfarfod o'r Clwb ym mis Rhagfyr. Ar Ragfyr 10 byddwn yn ymlwybro ym mys Derfel draw i Westy'r Bulkely ym Miwmares ar gyfer ein cinio Nadolig. Ar bnawn Mawrth Rhagfyr 17 byddwn yn cynnal Dathliad Nadolig o gerdd a chan dan drefniadaeth Rita Williams. Cynhelir y dathliad yn Ffestri'r Cysegr am 1.30pm a bydd croeso i unrhyw un ymuno â ni.

CINIO MISH MASH Bydd criw Mish Mash yn paratoi cinio Nadolig yn y Neuadd Goffa ar Ragfyr 18. Mae'r croeso yn agored i drigolion 60+ y fro.

G W A S A N A E T H CAROLAU

Estynnir croeso i bawb i un o uchafbwyntiau cymunedol Nadoligaidd Bethel. Fe'n harweinir eto eleni gan Marcus Robinson a Jonathan Davies. Yn cyfeilio bydd band Hefin wedi ei ffurfio o dalentau offerynol y pentref. Dewch yn llw i'r Neuadd Goffa ar nos Lun, Rhagfyr 16 erbyn 6pm..

BYSIAU Derbyniais ambell gŵyn parthed y gwasanaeth bws o Fethel i Gaernarfon. Yn ddiweddar bu gorlenwi ar ambell fws – yn enwedig bws 10.10am . Ar rhai achlysuron nid yw'r bws wedi aros ger y gysgodfan bysiau ym Methel. gan fod y bws eisioes yn llawn. 'Yn llawn' gyfystyr a bod rhai pobl eisioes yn sefyll. Nid yw'r sefyllfa yn synnu rhywun gan fod y bws yn gwasanaethu pentrefi Dinorwig, Deiniolen, Penisarwaun, Llanrug a Bethel. Adroddwyd

enghreiffiau i mi ble roedd rhaid i ambell berson dalu £10 am dacs i gadw apwyntiad meddyg gan nad oedd lle ar y bws. Adroddais y gŵyn yn y Cyngor Cymuned ac mae'r Clerc wedi danfon llythtyr at y Cyngor Sir yn gofyn iddynt drafod gyda'r ymgymerwr bysiau i weld os oes modd datrys y broblem

Gyda llaw, mae un bws ar gael i drigolion Bethel rhwng 9.30am a rhyw 3pm y pnawn. Mae'r bws yno yn ddisymud, ddi-yrwr o ddydd Llun tan ddydd Gwener a'i thrwyn wedi ei phwyntio at Gaernarfon. Yn amlwg, bws gwasanaeth ysgol yw hi yn cael ei gadael. Gorchuddio yr arhosfan bws gwaelod y pentref. Dim meddwl am y bysiau arferol sy'n tynnu mewn a'r sawl sy'n disgwyl y bws. Draws y ffordd i'r gysgodfan mae dwy ardal parcio benodol. Arwydd arall o hunanoldeb parciwyr sy'n britho'r pentref ar hyn o bryd. Oni ddylsem fod wedi cyhoeddi rhify bws?

Yng nghyfarfod y Cyngor nodwyd fod y fainc yn y Cae Chwarae wedi ei thrwsio. Gobeithio y caiff barch o hyn allan.

CWIS MERCHED Y WAWR Cynhaliwyd y Cwis Cenedlaethol yn ddiweddar ar yr un adeg mewn canolfannau rhanbarthol ledled Cymru. Cafwyd cynyrchiolaeth gref o ranbarth Arfon a gyfarfu yn Pant Du, Penygroes. Roedd dau dim o gangen Bethel. Yn un tîm roedd Jen, Mair, Meira a Cecile

ac yn y tîm arall Gwenan, Nan, a Mary Wyn. Ar ddiwedd y marcio roedd gan y ddau dim yr un nifer o farciau. Dim cythraul cwis felly! Yr oedd y marciau'n ddigon niferus i'w gosod yn gydradd drydydd yn y tabl cenedlaethol terfynol. Da iawn ferched.

AIL DREFNU Bu raid ail-drefnu Gwasanaeth Nadolig y Plant yng Nghapel Cysegr. Fe gynhelir y gwasanaeth eleni ar nos Wener, Rhagfyr 13 am 6pm. Estynnir croeso cynnes i bawb ymuno a ni i ddweud yr hen hen hanes drwy lygaid ifanc, cyfoes.

C Y D Y M D E I M L O Danfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Nia Griffith, Glandŵr, o golli ei chwaer Ceri ar y fam ynys ddechrau'r mis. Yr un modd I Rhian Hughes, Erddig ar golli ei brawd Idris o ardal Pwllheli.

Dymuna Nia, Glandŵr ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd o golli chwaer fawr arbennig ac annwyl. Diolch o waelod calon.

LLONGYFARCHIADAU Pob dymuniad da i Gwyndaf a Ceris Williams, 1 Tan -y-Cae ar ddatlu eu penblwydd Priodas Deiamwnt (60 mlynedd) ganol y mis.

CYFARCHION YR ŴYL "Hoffai Mair a John Maldwyn, 13 Tan-y-Buarth, Bethel ddymuno Nadolig dedwydd a Blwyddyn Newydd dda i bawb gan na fyddent yn danfon cardiau Nadolig eleni.. Yn eu lle rydym yn cyfrannu £20 tuag at goffrau'r Eco, fel diolch am y llafur tu ôl i'r cynhyrchiad misol. "



MERCHED Y WAWR

Mae'r Nadolig yn prysur nesau a cafwyd arwydd o hynny yng nghyfarfod Tachwedd. Un o'n haelodau Cecile Roberts arweiniodd y noson gyda'i dawn i greu addurniadau blodau tymhorol. Roedd pawb wedi dod a'u blodau dewisiedig a sisyrnau addas ar gyfer y dasg. Erbyn y diwedd roedd Festri'r Cysegr yn fôr o liw, a sawl un balch yn mynd â'u creadigaeth gartref.

Yn y cyhoeddiadau cyfeiriodd Mair Read at golled diweddar Rhian Hughes, a dymuno'n dda i Morlais, gŵr Delyth, sydd yn yr ysbyty. Llongyfarchiadau i Eleri Warrington ar gyrraedd pen-blwydd arbennig. Ennillwyd y raffl gan Mair Price. Diolchwyd i dair o'r aelodau, Gwyneth Jones, Mair Price ac Ann Elis am gadw trefn a marcio yn y noson gwis genedlaethol.

Llongyfarchiadau hefyd i bawb fu'n cystadlu yn Eisteddfod Bethel, ac i'r aelodau oedd ar y pwyllgor neu a fu'n rhan o'r trefnu ar y noson i lwyfannu Eisteddfod lwyddiannus arall eleni.

Atgoffa am ginio Mish Mash / Bingo yn y Neuadd i'r bytholwyrdd 60+ ar bnawn Rhagfyr 18. Hefyd bydd y bws ar gyfer y Cinio Nadolig y gangen yn gadael Tan-y-Buarth am 7pm.



DIFROD

Brawychwyd yr ardal yn ddiweddar o sylwi ar y difrod drwy dân yn y stablau yng nghae Tre Gôf. Yn ffodus ni anafwyd unrhyw un o'r ceffylau â gedwir ar y tir. Mae'r heddlu a'r Gwasanaeth Tân yn ymchwilio ac ymddengys efallai fod arwyddion fod y tân wedi ei gychwyn yn fwriadol. Os hyn mae yn codi mater brawychus i ni fel pentrefwyr. Mae rhywun yn ymwybodol fod ambell i ddigwyddiad o fandaliaeth wedi digwydd yn y pentref. Dyma batrwm nad ydym yn sicr eisiau ei weld yn datblygu. Y mae dyletswydd arnom fel pentrefwyr i gyd-warchod ein gilydd a rhannu unrhyw wybodaeth gyda'r awdurdodau penodol.

OEDFAON RHAGFYR

SARON (2pm): 1/12 Eifion Williams 8/12 Dewi Morris
15/12 Gwynfor Williams 22/12 Nadolig y Plant 29/12
Richard Gillion (S)

CYSEGR (10am) : 1/12 Alun Williams 8/12 Gweinidog
15/12 Gwasanaeth 22/12 Gweinidog
25/12 Oedfa Gymun Undebol

BETHEL (10am) : 1/12 Parch. Ioan Gruffydd 8/12
Gwynfor Williams am 11am 15/12 DG
22/12 Donald Pritchard

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Oedfaon y deufis nesaf

Rhagfyr 2019

1: am 5 Parch Marcus Wyn Robinson, Gweinidog

8: am 5 Parch Hugh Pritchard, Llangefni

15: am 2 Gwasanaeth i ddathlu'r Nadolig dan nawdd yr Aelodau a chymdeithasu yn dilyn gyda lluniaeth ym Mwyty Caban

22 a 29: Dim Oedfaon

Ionawr 2020 am 5 yr hwyr

5: Parch Marcus Robinson – Gweinidog

12: Cyfarfod Gweddi Dechrau Blwyddyn

19: Parch Gerallt Lloyd Evans, Llangristiolus

26: Mr Dafydd Iwan, Caeathro

Cyngor Cymuned Llanrug Tendr torri gwair

Mae Cyngor Cymuned Llanrug yn gwahodd personau neu gwmnïau cymwys i ddatgan diddordeb a / neu dendro am dorri gwair 5 maes chwarae, mynwent a chynnal a chadw llwybrau cyhoeddus.

Am ragor o wybodaeth ynghyd â ffurflen dendro, ewch i wefan y cyngor www.llanrug.cymru neu cysylltwch â Chlerc y Cyngor, Mr Meirion Jones ar 07769 112875 neu drwy e-bost at clerc@llanrug.cymru. Dylai pob tendr fod i fewn erbyn 17:00 17 Ionawr 2020.

Cynnig
GOFAL PLANT CYMRU
The **CHILDCARE** Offer for WALES

Addysg gynnar a gofal • Early education and care

30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y Llywodraeth i rieni cyn i'w ys sy'n gweithio ac sydd a phlant tair a phedair oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

30 hours a week of Government funded early education and childcare for eligible working parents of three and four year olds for up to 48 weeks of the year.

Ar gael yn • Available in
Gwynedd a Môn
01248 352436
gofalplant30awr@gwynedd.llyw.cymru

OGL: 6 Medi 2019 / 6 June 2019 / 6 Medi 2019 / 6 June 2019

CWMY GLO

Dymuna Hilda, Judith, Nigel a Cynthia, a theulu'r diweddar Les Orritt, Moranedd, Cwm-y-Glo, ddiolch yn ddiffuant i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau, am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu galar o golli gŵr, tad a thaid annwyl iawn iddynt.

Yn ôl dymuniad Les, cynhaliwyd y gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor gyda Glyn E. Roberts, ei fab yng nghyfraith, yn canu'r organ. Rhoddwyd y deyrnged annwyl iawn ar ran y teulu gan Judith.

Diolch yn fawr i'r Canon, Robert Townsend am ei gymorth a'i wasanaeth yn yr Amlosgfa, ac i'r Ymgwymerwyr, E.W. Pritchard, Llanberis, am eu trefniadau trylwyr a gofalus. Diolch hefyd i Westy Victoria, Llanberis am y lluniaeth.

Mae'r rhoddion er cof am Les wedi'u trosglwyddo i Ward Cemlyn, Gofal Dementia, Ysbyty Cefni, Llangefni, yn benodol ar gyfer prynu cyfarpar ar gyfer defnydd y cleifion. Diolchwn i holl staff y ward am eu gofal tyner ohono drwy gydol ei arhosiad yno.

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau yn Eglwys St Mair bnawn Mawrth, Hydref 15.

Dechreuwyd y cyfarfod gyda gweddi Undeb y Mamau. Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth rhai o'r aelodau. Darllenwyd gweddi gan Sylvia a chafwyd adnod mis Medi gan Auriel. Cydymdeimlwyd gyda Hilda yn ei phrofedigaeth. Cafwyd amser i brynu oddi ar y bwrdd gwerthu a gwneud elw o £40.

Yn gofalu am y lluniaeth oedd Lesley a Gwen a diolchwyd iddynt gan Marjorie. Enillwyd y raffl gan Pat. Cinio Nadolig ar 17 Rhagfyr. Terfynwyd trwy adrodd y Gras yn Gymraeg a Saesneg.

Dymuna Hilda, Moranedd, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion. Ni fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni.

Marwolaeth Mewn Cartref Preswyl ym Mhorthcawl, yn 93 mlwydd oed, bu farw Eurwen Closs Evans (Parry gynt). Roedd yn aelod ffyddlon o'r capel ac yn gyfrannwr i'r papur bro. Bydd gweld ei cholli yn fawr yn ei chymuned. Cofion gorau a chydymdeimlad at ei mab, Dafydd, ac i Meira Williams, Goleufryn, a fu yn garedig a ffyddlon iddi am flynyddoedd.

Teyrnged i Eirwen Closs Evans


Yn ddiweddar, ym Mro Morgannwg, bu farw Eirwen Closs Evans (Parry gynt) yn 91 oed. Roedd yn wreiddiol o Gwm y Glo o lle'r hanai teulu ei mam, Annie Morris. Un o deulu'r Clossiaid oedd ei thad John Morris Parry a galwodd Eirwen ei chartref ym Mhorthcawl yn Fach-wen i gofio am yr hen deulu. Ar ôl gadael Ysgol Ramadeg Brynrefail aeth i weithio fel ysgrifennyddes i Red Garages Caernarfon. Yn Eisteddfod Genedlaethol Ystradgynlais cyfarfyddodd â'i darpar ŵr, Oswyn Evans oedd yn filfeddyg yng Nghaernarfon. Ar ôl priodi buont yn byw yn y Bontnewydd lle ganwyd eu mab, Dafydd Wyn. Yn fuan wedyn symudodd y teulu i Borthcawl. Bu'r ddau yn eisteddfodwyr brwd ar hyd eu hoes, ac Oswyn yn aelod ffyddlon o Orsedd y Beirdd. Bu Eirwen yn aelod o gôr adrodd adnabyddus Megan Cadfan fu'n llwyddiannus mewn amryw o eisteddfodau a pharhaodd i gymryd rhan yn gyhoeddus yn amryfal gymdeithasau ei bro, gan gynnwys Merched y Wawr, Y Gymdeithas Gymraeg ac oedfaon y capel. Bu'n weithgar ar dîm golygyddol papur bro yr ardal sef Yr Hogwr ac edrychai ymlaen am dderbyn Eco'r Wyddfa drwy'r post tan yn ddiweddar, ac yna cafodd y papur ar dapiau'r deillion.

Roedd Eirwen yn falch iawn o'i mab Dafydd aeth o Ysgol Rhydfelen i Brifysgol Caergrawnt lle cafodd yrfa ddisglair yn astudio seryddiaeth, ac sydd ar hyn o bryd yn arwain tîm ymchwil am y lloeren GAIA. Rhoddodd Dafydd, fu'n ffyddlon iawn i'w rieni, deyrnged arbennig i'w fam yn y gwasanaeth angladdol yng nghapel Tabernacl Porthcawl gan sôn am ei magwraeth ym mro'r chwareli llechi. Meddai Dafydd, "Mae gennyf gof cynnar o Mam yn actio mewn sawl drama leol. Roedd hi wastad yn gwirfoddoli a bu yn drysorydd, llywydd ac ysgrifennydd sawl cymdeithas ac roedd ar bwyllgor gwaith Eisteddfod Genedlaethol Bro Ogwr. Hyd yn oed yn ei hwythdegau roedd yn gweithio yn siop Tenovus yn wythnosol. Arferai mam a dad gael gwyliau gydag Yncl Bob ac Anti Beryl, ffrind ysgol mam, yn Llanrug yn flynyddol a chael cyfle i weld y teulu yn y Gogledd. Rwy'n falch fod eu mab Rheon Thomas yma i ddarllen un o hoff gerddi Mam."

Ar ôl colli ei ffrindiau a'i phriod, parhaodd Eirwen i ymweld â Chwm y Glo, gan aros gyda'i pherthynas Meira yn agos i'w hen gartref. Edrychai ymlaen am ymweliadau cyson Meira â hi ym Mhorthcawl yn y blynyddoedd olaf. Byddwn fel teulu yn y Gogledd yn colli ei sgysiau diddan ar y ffôn. Cydymdeimlir yn fawr â Dafydd a'i gymar Nicola yn eu profedigaeth. Dyma englyn ysgrifennodd ffrind -Tom Price i Eirwen Closs Evans.

Un aeddfed, ddiwylliedig – un ydoedd
drwsiadus, fonheddig,
un smala, un dda, di-ddig,
un rodiodd yn garedig.

Ceinwen a Margaret



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr

www.fframia.com



Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia
Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk

BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG



Y Storfa Spar Llanrug

Sgwâr Llanrug
01286 673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun - Sadwrn 6:30am - 9 pm, Sul 8am - 9pm

Llinos Arfon

Cafodd Llinos Arfon gryn sylw ymysg enwogion cerddorol Cymru ei chyfnod. Blynnyddoedd pan oedd Eos Gwynedd (Mis Evans, Cwmyglo), Edith Wynne (Eos Cymru 1842-1897), Treffynnon; Eos Morlais (Robert Rees 1841-1892), Abertawe; Clegir (Evan J. Williams, Slatington, Pennsylvania, yn ddiweddarach), a hithau hefyd, yn enwau teuluiaidd. Anrhydeddwyd Llinos Arfon yng Nghymru, fel cantores ifanc a galluog; yr oedd ei llais mwyn melodaidd wedi toddi ei ffordd i galon ei gwlad a'i chenedl, ac enillodd lawer o wobrau. Tua 17 mlwydd oed cafodd y ffugenw Llinos Arfon yn un o eisteddfodau Conwy. Enillodd yn un o eisteddfodau Caernarfon tua 1864, yr adeg yr oedd Hwfa Môn ac Eben Fardd yn cystadlu â'i gilydd. Cyd-ganodd Llinos droeon gyda Eos Gwynedd. Yn y cyfnod hwnnw y cododd Miss Megan Watts Hughes (1842-1907) i enwogrwydd, gan dynnu sylw pawb i entrych byd y gân. Aeth heibio, ond parhaodd Llinos Arfon i oleuo a chanu am flynyddoedd maith. Ceir cyfeiriad am ŵr oedd yn gwrando arni yn canu mewn ychydig o wythnosau ar ôl claddu ei mam a hynny mewn cyngerdd yng ngogledd Cymru.

'Yr oedd dwysder ei gwedd,' meddai'r gŵr hwnnw, 'a duwch ei gwisg galar a'i phrofiad personol ar y pryd hwnnw yn peri i'r unawd, 'Yr Eneth Amddifad' a ganwyd ganddi y tro hwnnw, i godi y gynulleidf megis ar eu traed, a llygaid pawb yn foddffa o ddagrau.'

Ganwyd Ellen Williams (Llinos Arfon) yn Llanbeblig, Caernarfon ar Mai 15, 1843. Ei rhieni oedd Morris Williams Foulk (1812-1871), un o Foulkiaid Llanddeiniolen, a Janet Williams (1812-1862), o Lanrug, gynt o Drefriw. Symudodd ei rheini i Fethel, Llanddeiniolen, pan oedd Ellen yn wyth oed. Ymgartrefodd yn Saron, yn yr un plwyf, yn ddeunaw oed, lle bu'n dilyn ei galwedigaeth fel gwneuthurwr bonetiau. Yr oedd pob un o'r teulu yn gerddorion, ond hi oedd yn disgleirio yn bennaf ohonynt.

Ar Fai 15, 1864, yn un ar hugain oed, priododd â John R. Williams (1842-1921) a buont yn byw yn Nhŷ Capel Cysegr (MC), Bethel, am tua wyth mlynedd. Yn 1873 ymfudodd Ellen a John gyda phump o blant, dau fab a thair o ferched, y plentyn ieuengaf Jabez (1872-1955) ond yn flwydd oed, i Bangor, Pennsylvania. Gwnaethant eu cartref ar North Main Street a cafodd John R. waith fel towr ym Mangor. Sefydlwyd bwrdeistref Bangor tua 1760 a'i gorffori yn 1875. Y sylfaenydd oedd Robert M. Jones a anwyd ym Methesda, Arfon, yn 1822, mab i'r Parchedig Morris Jones. Ef oedd y prif gymeriad yn hanes cychwyniad y diwydiant llechi yn yr ardal. Byddai yn wir dweud, pe bai rhywun yn ymweld â Bangor, Pa., heddiw fod yr etifeddiaeth Gymraeg yno i'w gweld yn amlwg o hyd. Pan ymfudodd Ellen a John R. Williams yno yn 1873 yr oedd y boblogaeth ym Mangor ychydig dros fil, mae dros bum mil heddiw. Ganwyd pedwar plentyn arall i Ellen a John rhwng 1879 ac 1889, dau fab a dwy ferch. Ymsefydlodd dwy o chwiorydd Ellen hefyd ym Mangor, Pa, sef Mrs David J. Evans a Mrs William O. Pritchard, tra bod un brawd iddi yn byw yn Wilkesbarre, Pa, 55 milltir i ffwrdd.

Nos Sadwrn, Tachwedd 29 1884, ym Mangor, Pa, ymwelodd y cantorion Jabez M. Williams, Wilkesbarre a'i gyfaill, Harri o Wynedd (m.1919), Ashley, Pa, â'r dref. Mab i Owen Jones a'i briod, Rhos Du, Cwmyglo, oedd Harri. Adnabyddid ei dad wrth yr enw Owen Rhos, tra yr adnabyddid Harri ar hyd ei oes wrth yr enw Harri Craig y Don. Yn ŵr ifanc bu'n g weithio yn y chwareli yn Llanberis, ac yna yn Penbedw yn dysgu gwaith saer coed, gyda'i frawd-yng-nghyfraith, William Parry, yr arweinydd corawl enwog. Yn ddwy ar bymtheg oed, deallwyd fod gan Harri lais tenor rhagorol. Priododd â Laura, merch Adwyrddeugar, Llanrug. Yn un o eisteddfodau Cymru cafodd gynnig mynd i'r Academi Frenhinol yn Llundain ond yr oedd wedi dechrau magu teulu, fel na allai weld ei ffordd yn glir. Bu am rai blynnyddoedd ym Mhenmaenmawr ac oddi yno, yn 27 oed, ymfudodd i Ashley, Pa,. Ar ôl ychydig flynyddoedd yno symudodd i Sugar Notch, dim ond rhyw ddwy filltir i ffwrdd o Ashley. Bu yno am dymor hir fel meistr tân. Cafodd brofedigaeth lem iawn yno pan gollodd ei fab, Owen Henry, mewn canlyniad i ddamwain yn y gwaith glo. Bu yn Poultney, Vermont, ar ôl hynny, lle yr agorodd chwarel ond dychwelyd yn ei ôl i Ashley fu ei hanes. Pan fu ef farw yr oedd ei briod, tair merch a dau fab yn fyw, a mab arall, Hastings, wedi ei glwyfo yn Ffrainc.

Y Sadwrn hwnnw yn Nhachwedd 1884, cynhaliwyd cyngerdd llwyddiannus gan y cantorion a enwyd yn y Tŷ Opera, o dan arweiniad Robert M. Jones, Ysw, gynt o Fethesda, Arfon, yn cael eu cynorthwyo gan Llinos Arfon; W.O. Jones (Pencerdd Gwerin) arweinydd y Bangor Choral Union; Griffith Pritchard (Caniedydd) Eos Tur; Proffeswr John Davies o Pen Argyll, Pa, (tref enedigol Jayne Mansfield, yr actores Hollywood); a Prydorydd. Fel hyn y canodd Dewi Glan Dulas (Parchedig David O. Morris 1853-1895), West Pawlet, Vermont i'r achlysur:

O bwys i feirdd, Jabez i fod - heno	A'r annwyl 'Harri o Wynedd' - arwr
Yn cynnal cyfarfod;	Tenorion o fawredd;
Mae'n ganwr mwyn ac hynod.,	Ac yn ei lais cawn ni hedd
Ydyw y dyn wedi dod?	A'i fiwsig ar ei fysedd.

Dau gerddor o nod, ac harddach -
dynion
Nis adwaenom mwyach;
Heblaw eu bod, bobl bach,
Yn leiswyr heb eu tlysach.

Ar y 18fed o Ebrill 1891, talodd rhai o aelodau y capel Methodistiaid Calфинаidd Cymraeg, a chartref Ellen a John R. i ddathlu ei ben-blwydd yn hanner cant oed, a chynnal cyfarfod adloniant. Llywyddwyd ac anerchwyd gan Edward Foulkes, Bangor, Pa, gynt o Ffestiniog, i'r achlysur. Anrhegwyd John R. Williams â chadair hardd, lamp a Beibl ac amryw anrhegion eraill. Derbyniodd ei briod, Llinos Arfon, set o lestri tsieni hardd. Yn dilyn y cyfarfod mwynhawyd danteithion blasus wedi eu darparu gan y teulu, yn cael eu cynorthwyo gan ferched y capel.

Daeth tristwch i hanes y teulu yn 1901 pan fu farw Esther (g.1881)) un o'u merched, yn eneth ifanc 21 oed. Effeithiodd yr amgylchiad yn fawr ar y rhieni hyd ddiwedd eu hoes.

Ym mis Mai 1914, dathlodd John R. ac Ellen Williams eu priodas euraidd (hanner can mlynedd) a'r ddau erbyn hyn yn 73 a 71 oed ac yn byw ym Mangor, Pa, ers 41 o flynyddoedd. Ar wahân iddynt godi teulu lluosog, yr oedd iddynt 13 o wyrion a thri o or-wyrion yn 1914. Yr oedd pedair cenhedlaeth yn bresennol yn nathliad eu priodas brynhawn Sadwrn, Mai 16eg. Oherwydd cyflwr bregus iechyd Ellen Williams, cyfyngwyd ar y gweithrediadau. Yr oedd y tŷ wedi ei addurno yn dlws â rhedyn a blodau, a thua hanner cant o berthnasau a gwahoddedigion yn cyfranogi o'r wledd. Ymhlith yr anrhegion yr oedd ffon hynod ac yn ei phen beiriant i daflu fflachiadau o oleuni trydanol i oleuo llwybr bywyd y dyfodol. Aelodau y capel M.C. oedd y tu ôl i'r anrheg honno, a hefyd cadair hardd i Ellen Williams. Yr oedd yno gadwynau a sbectol aur bathedig ayyb

Priodas Euraidd

Mr a Mrs John R. ac Ellen Williams (Llinos Arfon) Bangor, Pa.

Troell amser sydd yn hynod,
Ar ei hynt mae'n mynd o hyd;
Gan ein gadael mewn rhyfeddod,
Cefna gan weddnewid byd;
Gedy argraffiadau weithiau
Dry yn siomiant ar bob llaw;
Arall dro ceir digwyddiadau
Mal bendithion cynnar wlaw!

Hanner cant o flwyddi meithion
O drysorau profiad llawn;
Gofal Duw fel blodau meillion;
Hedd, llawenydd, gras, a dawn;
Os caed ambell gwpan chwerw,
Cymysgedig ar y daith,
Mwy o ddoniau gawd yn elw,
Mwy bendithion lawer gwaith.

Yn ôl yn y blynnyddoedd
Gwelwyd deuddyn ieuanc hardd,
Yn cyd-rodio y dyffrynnoedd;
Megis blodau teg mewn gardd;
Ymarllwysai melys swynion
Mewn carwriaeth tan eu bron;
Hudol nodau Llinos Arfon
Wefrai eigion calon John.

Boed dedwyddwch oll yn hawddgar,
Yw'n dymuniad mewn llais clir;
Canodd Llinos ar y ddaear,
Cana, fwy cyn byddo hir;
Flwyddi eto bydded i chwi
Bob rhyw bleser i fwynhau;
Amser braf heb ddim i'ch tryblu,
Bywyd dedwydd yn parhau.

Ymunasant mewn priodas
Hanner can o flwyddi 'nôl,
Aeth eu cariad yn fflam eirias
Ddygodd fendith yn ei gol;
Gwenodd ffafr mewn rhagluniaeth,
Cafwyd llonaid tŷ o blant;
Caed gwasanaeth ffydd a gobaith;
Euraidd flwyddi, hanner cant.

Heddiw yn ailgychwyn bywyd
Priodol euraidd, gwar;
Blwyddi maith yn llawn o hawddfyd,
Gaffo Llinos a John R.;
A phan ddelo terfyn einioes,
Boed eich profiad yn ddi-len;
Lle sy'n barod i chwi eisoes
Yng ngogoniant nefoedd wen.
Alfardd Fychan, Bangor, Pa.

(Parchedig Alfred Harries (g.1829 yn Bwlchmawr, Penfro)

Cafodd Llinos Arfon ei chaethiwo yn ei chartref gan ei hafiechyd fel na allai fynd ond ychydig allan o'r tŷ. Gorffennaf 28, 1914, bu farw ar ei haelwyd yn Washington, Sir Northampton, Pa, rhyw 300 milltir i ffwrdd o Fangor, yn 71 oed. Claddwyd hi ym Mangor a gwasanaethwyd yn ei hangladd gan y Parchedigion John Williams (1814-1897), Slatington, a anwyd yn Braich Gwair, Llandegai, Arfon, brawd i William (ei efaill) oedd yn cadw siop ac yn bregethwr gyda'r Wesleaid ac yn byw yn Ebeneser, Deiniolen; Ifor Thomas (A), Bangor, Pa; a John Owen Jones, Bala, Cymru (oedd ar daith bregethu y flwyddyn honno)

Gorffennaf 18, 1919, bu farw John R. Williams, Ieuengaf, un o feibion John R. ac Ellen Williams, ychydig dros ei ddeugain oed. Ganwyd ef ym Mangor, Pa, ac yno y treuliodd ei oes fer. Yr oedd yn briod ac yn dad i dri o blant, dau ohonynt wedi cael addysg dda, ac mewn lleoedd anrhydeddus; y ferch Margarete, mewn banc ym Mangor a Rusial yn Efrog Newydd mewn swydd gyffelyb.

Mehefin 25, 1921, yn 80 oed, bu farw John R. Williams, oedd yn ddiagon ym Mangor, sef gŵr Llinos Arfon. Ganwyd ef yn Ty'n y Lliidiart, Llanfairisgaer, Arfon, yn 1842, yn fab i Robert Williams (1802-1888) ac Ann Morris (1797-1866). Ganwyd ei dad yn Ty'n y Mynydd, Pistyll, Llŷn, a'i fam yn Botandreg, Llanfairisgaer.

W. Arvon Roberts



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Cysylltiad Llanrug hefo ysgolfeistr David Lloyd George

Hugh Evans of the Parish
of *Landwrog* Bachelor
and *Hannah William* of *Capel* in of this Parish
Spinster
were married in this *Church* by *Banns* with Consent of
Parents this *fourth* Day of
June in the Year One thousand eight hundred and *twenty four*
By me *P. B. Williams; Rector*
This Marriage was solemnized between us { *Hugh Evans*
Hannah Williams
In the Prefence of { *Humphrey Jones*
John Williams
Benjamin Williams
No. 93.

Gan Robert Williams, Waunfawr y cafwyd y wybodaeth am y cysylltiad, ac yntau’n un o ddisgynyddion teulu cyntaf Tŷ Capel, Llanrug. Dyma’r wybodaeth:

William a Margaret Williams oedd y rhai cyntaf i fyw yn Nhŷ Capel Llanrug - wedi symud yno o Twll y Clawdd yn 1798. Bu iddynt nifer o blant ac fe fu un ferch, Hannah, briodi hefo Hugh Evans o Landwrog.

Un o blant Hugh a Hannah oedd David (1831-1882). Fo oedd ysgolfeistr Llanystumdwy pan oedd David Lloyd George yn ddisgybl yno, ac yr oedd canmoliaeth uchel iddo fel addysgwr.


Yn y llyfr “The Young Lloyd George” gan John Grigg, mae’n disgrifio David Evans fel “a teacher of superlative quality. He was a good Latin and Greek scholar, as well as a sound mathematician, and he had a special interest in astronomy. But his outstanding

gift was for holding the attention of the young and for arousing their attention.”

Pan fu farw’n gymharol ifanc yn Awst 1882, yn ddim ond 51 mlwydd oed, talwyd teyrnged iddo yn y Cambrian News: “Mr Evans succeeded in greatly improving the district educationally.”

Dair blynedd cyn ei farwolaeth cyflwynwyd tysteb iddo gan nifer o’i gyn-ddisgyblion mewn cydnabyddiaeth o’i wasanaeth i addysg plwyf Llanystumdwy am 25 mlynedd.

Anfonwyd copi o dystysgrif priodas Hannah Williams a Hugh Evans (rhieni’r ysgolfeistr), ac o sylwi’n fanwl arni, gwelir na allai Hannah lofnodi ei henw, dim ond cadarnhau ei henw gyda chroes. Ond gallai Hugh Evans lofnodi ei enw. Tybed felly ble cafodd y mab, David, ei addysg, o gysidro ei fod yn deall Lladin a Groeg, yn fathemategwr ac yn ymddiddori mewn seryddiaeth?



GWAITH
COFFAOL
LLANRUG

Ffôn Gwaith
(01286) 672898

Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch ar 1286 871833 (SYMUDOL - 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Siopau Llanrug ddoe



Gwen Roberts, Penisarwaun a anfonodd restr o siopau'r pentref; y rhai a gofiai hi pan yn blentyn yn ystod y 1940'au a'r 1950'au. Faint sy'n aros yn y cof, ac a oes eraill heb eu rhestru?
Post: Mr a Mrs D.M. Pritchard. Busnesau, Swyddfa, Garej Heirio Ceir, Bwsiau, Gwasanaethau Cynhebrwng. 8 pwmp petrol.
Garejis: Drws nesaf - Crosville. 3 bws.
Lladd-dy: Mr William Ore. Ble mae Hafan Elan rŵan.
Siop: Mr Percy Williams. Giât Ysgol Brynrefail. Open all hours a dydd Sul, peth hollol ddiarth yn y 40 a'r 50au.
Post: Stesion Pontrhythallt.
Siop Bren Becws: Siop Chips Tegfan heddiw.
London House: D. Griffiths. Sgidiau (dynion a phlant) a defnyddiau cownter arall.
Church Hall: Tros Lôn. Cynnal pob math o weithgareddau. Y Band, Home Guard, Dramâu, Cyngherddau, Sale of work ayb.
Co-op: Gwerthu popeth, bwyd a drapery, glo.
Idan House: Roberts Jones (Bob Barbar).
Gwylfa: W. Ore, wedyn Emrys Roberts. Cigydd.
Cynnyrch Gardd: Mr a Mrs Harley. Gwerthu cynnyrch gardd yng nghanol cae lle mae Nant y Glyn heddiw. Mynd rownd gyda merlen a throl.
Gwynllys: Mr Evans. Clocsiwr.
Ty'n Gorlan: Mr Wm. Evans. Papur newydd, cardiau blotting paper ac inc.
Siop Newydd: Mr Hudson Roberts. Groser a pharaffin.
Birmingham House: Gwag rwyf yn ei gofio, wedi ei addasu yn dŷ.
Penrhos: Gwilym a Mr Jordan. Nwyddau tŷ, gratiau, teils.
Institiwt: Mr Tomi Williams. sigarets, crisps a pop. Hefyd clinig plant i fyny'r grisiau.
Foelas House: Mr Griffiths. Saer yn y gweithdy. Wedyn Mr Hughes a Wavell, cigydd.
Cwt Sinc: Mr Iorwerth Williams, Cigydd. Graianfryn: Yn yr ardd, lle mae bwthyn heddiw.
Becws: Bryn Awel, Disgwylfa Terrace.
Siop Sinc: Miss Annie Hughes. Gwerthu Groseri. Wedyn Mr Cepass, trwsio setiau teledu.
Siop Bont: Mr a Mrs Crossley. Groser. Wedyn Mr a Mrs Owen, groser a papurau newydd (delifro hefyd).
Rochdale House: Annie Crossley. Siop Chips.

Stesion Pontrhythallt: Dod â nwyddau o'r dref, cario glo a dosbarthu i siopau.
Tafarn Penbont
Groeslon Marc: J. Parry Jones. Groser, papurau newydd, garej betrol.
Tafarn Groeslon Marc: Gyntwrog - 'Ring'.
Becws Bryngwyn: Mam Gwynedd, cadw groseris hefyd.
Tan y Coed: Swyddfa bost a siop hefyd.
Siop Tancoed: Mrs Roberts. 2 bwmp petrol.
Swyddfa Bost Ceunant: Mam Joan Humphreys heddiw.
Lôn Bost: Cwt crydd bach Waun, Hafod Garej, garej (John Trefor).
Siop Storer: Sgwâr (Storfa heddiw) Groser, da-da, paraffin, popeth.
Regent House: Groser, Bara, Hufen Iâ, Corona.
Siop Harri Ore: Cigydd. Lôn Glanmoelyn, Cwt Gwilym Plymar. Gwerthu dipyn o bopeth, wedyn siop chips dros dro ac yna gweithdy Gwilym Plymar.
Lawr Hermon: Siop Tŷ Mamet.
Caeathro: Mr Rawson Thomas. Cynnyrch o'i siop o amgylch Llanrug.
Tan y Coed: Cwt trwsio beics. Taid Gareth, Rhes Dŵr. Peintiwr, addurno, wedyn bws Eric Morris Iard).
Busnes Bwsiau: Mr Eric Morris. Diwedd y 50au a llefrith.
Dan Crydd: Lle mae'r monumental (Cerrig beddi?) heddiw.
Cwt sinc: Ar gornel y sgwâr, Swyddfa bost Llanrug.
Cynnyrch gardd: Plas Plastirion, Haslams, Harley's. Lle mae Stad Nant y Glyn.
Cigyddion Rownd Tai
Mr Williams, Cefn Llwyd
Mr Wm Ore
Mr Hughes, Foelas
Mr Iorwerth Williams, Graianfryn
Llefrith
Ddôl Bach. Cania llefrith, Gwilym a'i dad, Guto
Eric Morris yn Tan y Coed
Cefn Llwyd. Tyddyn Mawr. Trol a cheffyl
Ac yna yn ddiweddarach Caernarfon Dairies - Mr Tomi Jones, Waunfawr.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)
e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com



Llongyfarchiadau

Elain Williams Nant y Glyn. Mae hi'n un o'r 25 person ifanc yng Nghymru i gael eu dewis i ymweld â Phatagonia gyda'r Urdd yn ystod yr Hydref 2020. I geisio am y cyfle yma bu rhaid iddi gwblhau ffurflen gais chael cyfweiliad ym Mangor. Mae hi'n edrych ymlaen yn arw at y profiad, ac mae ganddi dasg enfawr o'i blaen, sef casglu £2600 i'w galluogi i fynd ar y daith. Pob dymuniad da i ti, Elaine, pan ddaw yr amser.

Os dymunwch gyfrannu tuag at y gronfa mae croeso i chwi gysylltu trwy ebost mwms@live.co.uk neu gellir ffonio Ysgol Brynrefail ar 01286 672381.

Llongyfarchiadau i Dr Huw Gwilym a Dr Esyllt Llwyd, Meddygfa Waunfawr. Cyrhaeddodd y ddau y rhestr fer o 10 Meddyg Teulu yng ngwobr GP y flwyddyn Cymru, Coleg Brenhinol Meddygon Teulu. Rydym mewn dwylo diogel!

Plaid Cymru: Enillwyr Clwb Cant Tachwedd

1.. Rolant Wynne 2..Berwyn Parry Jones

Cyfarchion Nadolig Mae Mrs. Megan Williams, Bron Eryri, am ddymuno Nadolig Llawen iawn a Blwyddyn Newydd Dda yn 2020 i'w chymdogion a ffrindiau. Carai ddiolch o galon i bawb am bob cymorth a chymwynas a dderbyniodd ganddynt eleni.

Diolch. Dymunaf ddiolch o waelod calon i fy ffrindiau a theulu am eu cymwynasau parod a'u gofal caredig ar ôl

dychwelyd adref wedi triniaeth yn Ysbyty Wrecsam. Diolch hefyd am y dymuniadau da, y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniais. Diolch didwyll, Rachel Thomas, Min y Rhos.

Cyfarchion Nadolig Dymuna Megan Jones, 12 Ffordd Glanffynnon ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, cymdogion a ffrindiau gan na fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni.

Damwain Cofiw'n at Rhiannon Hughes, Clawdd Newydd, sydd wedi bod yn yr ysbyty yn dilyn damwain yn ei chartref. Brysiwch wella.

Profedigaethau

Yn dawel ar 27ain o Hydref bu farw Catherine Griffiths, Tan y Fron. Bu'n wael am gyfnod hir ond bob amser â gwên. Bydd ei cholled yn fawr i'r plant, John, Ken a Carol, ei merch yng nghyfraith a'r plantos, Aron a Sion, ynghyd â'i ffrindiau triw a llawer iawn o drigolion Llanrug. Anfonwn ein cofion diffuant atoch i gyd.

Yn dawel ar 3ydd o Dachwedd, yn 97 mlwydd oed, bu farw Miss Malan Roberts wedi salwch hir. Roedd yn chwaer ffyddlon i Eluned Ellis Owen, Owen Roberts a Sydney Roberts, i gyd wedi ein gadael ers tro.

Roedd yn fodryb ffyddlon i Richard a Sharon ac i Ieuan a Megan ac i'w gor-nith a neiaint Angharad Rhodri, Llyr a Gwion. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu.

Yn drist iawn, yn 55 oed, bu farw Bridget Robinson, Tan y Coed, Ceunant. Gwraig gariadus Richard, mam amhrisiadwy Sophie, Josh, Ryan a Zack a'r diweddar Jade, a nain annwyl Ethan, Amelia a Olly.

Cofiw'n atoch a

chydymdeimlwn yn ddiffuant â chi fel teulu bach ac i'w thad, tad yng nghyfraith, chwaer a'r teulu i gyd.

Yn dawel yn ei chartref, Castell Bryn Bras, bu farw Marita Gray-Parry. Gwraig ffyddlon ac annwyl Neville, mam amhrisiadwy Iorwerth a chwaer annwyl Dilwyn Gray-Williams a'i deulu yntau.

Bu Marita yn gweithio yn galed i gadw y Castell yn ei ysblander unigryw a daeth llaweroedd yno i'w weld ac i aros. Cafwyd yno sawl diwrnod a digwyddiad codi arian at achosion da yng Nghwm y Glo a Llanrug ac fe werthfawrogwyd eu caredigrwydd.

Cydymdeimlwn â chi yn eich profedigaeth lem.

Cofion Gorau Mae sawl person yn y pentref yn wael gartref ac yn yr ysbyty. Hoffem anfon ein cofion gorau atoch i gyd am wellhad buan a llwyr.

Eglwys St Mihangel yn y Sefydliad Coffa

Rhagfyr 1 am 10 y bore: Caffi'r Llan 'Antur i'r Nadolig' creffttau a lluniaeth ysgafn. Croeso i bawb.

Rhagfyr 15ed am 10: Cymun Sanctaidd

Rhagfyr 24ain am 2 o'r gloch y prynhawn: Gwasanaeth y Preseb gyda Charolau. Croeso i bawb.

Rhagfyr 24ain am 9 o'r gloch yr hwyr: Cymun y Nadolig.

Clychau'r Grug Bnawn Iau, Tachwedd 14, treuliwyd orig ddifyr yn y Celt yn hel atgofion ac yn anfon ein cofion at Glenys a Siencyn gan ddymuno Nadolig Dedwydd iddynt. Nos Wener, Rhagfyr 13, byddwn yn dathlu'r Nadolig yng Nwesty'r Celt am 6.30 yr hwyr.

Eisteddfod Bentref. Bydd y canlyniadau a lluniau'r buddugwyr yn ymddangos yn rhifyn y Nadolig



GERAINT OWEN
CARPEDI

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfa'i Mill, Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR
O BATRYMAU

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLLEN • LL55 3H5

Ysgol Llanrug



Disgo Calan Gaeaf Cafwyd disgo llwyddiannus gyda'r plant i gyd wedi gwneud ymdrech i wisgo fyny.



Athletau

Cafodd y plant fwynhau yng Nghystadlaeth Athletau Sportshall Arfon ym Mangor. Digon o redeg, neidio a thaflu! Diolch i @CAOGWYNEDD am drefnu.



Logo newydd

Llongyfarchiadau i Beca sydd wedi ennill am greu logo newydd i'r Cyngor Ysgol.



Gala Nofio

Dyma'r plant a fu yn cynrychioli yr Ysgol yng ngala nofio yr Urdd yn ddiweddar. Da iawn i dimau rasys cyfnewid BL3 a 4 fydd yn mynd ymlaen i'r genedlaethol ac i Alaw Edwards am ddod yn gyntaf yn y dull rhydd a'r cefn!



Y Goeden Ioga cafwyd diwrnod hwyliog yng nghwmni Leusa Mererid. Pawb wedi mwynhau sesiwn ioga a phawb bellach wedi ymlacio....



Plant mewn Angen

Daeth criw o'r ysgol at ei gilydd i gefnogi Sialens Rickshaw ar eu taith o Gaergybi i Lundain. Daeth y plant i'r ysgol yn eu pyjamas gyda eu ceiniogasaur gyfer Plant mewn Angen.

Gweithdy dwr

Bu dosbarth Cefn Du yn mwynhau gweithdy dŵr! Diolch i Arfona am ddod i'r ysgol.



Oes Fictoria

Cafodd BL3 a 4 ddau ddiwrnod penigamp yn Amgueddfa Lloyd George. Roedd cael mynd yn ôl mewn amser i Oes Fictoria yn hwyl!

Gwasanaeth NSPCC

Gwasanaeth arbennig gan yr NSPCC. Diolch yn fawr i Rhian am roi o'i hamser i ymweld â ni. Cofiwch y neges 'Cofia ddweud. Cadw'n ddiogel.'

Parhad LLANRUG

Merched y Wawr Estynnwyd croeso cynnar i bawb gan Nan, ein Llywydd, a chychwynnwyd drwy ganu Cân y Mudiad gyda Susan yn cyfeilio. Derbyniwyd rhai ymddiheuriadau. Anfonir ein cofion at Megan, Eirianwen a Rachel. Dymuna Rachel ddiolch am y dymuniadau da ac mae'n falch o ddweud ei bod yn gwella'n dda ac yn anelu at ymuno â ni yn y cinio Nadolig. Anfonir ein cofion gorau hefyd at Phyllis, Llywydd Anrhydeddus y gangen wedi dyddiau o driniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Diolchir i'r aelodau a aeth i gystadlu yn y Cwis Hwyl Cenedlaethol a llongyferchir Cangen Caernarfon ar ennill yn anrhydeddus gyda changen Rhiwlas yn gydradd ail. Cynhaliwyd Ysgol Undydd y Dysgwyr ar Sadwrn, Tachwedd 16eg, yn y Ganolfa Gymraeg i Oedolion yn Stryd y Deon, Bangor, a dymunir diolch i rai aeth i sgwrsio hefo'r dysgwyr. Derbyniwyd llythyr gan Elain Williams, disgybl 6ed dosbarth yn Ysgol Brynrefail yn gofyn yn garedig a fuasem yn ystyried cyfrannu'n ariannol tuag at gost Taith yr Urdd i Batagonia sy'n costio £2,600. Cytunwyd i'w chefnogi a dymuno'n dda iddi.

Atgoffir chwi o'r gystadleuaeth Cynllunio Cerdyn Nadolig 2020 unrhyw gyfrwng, cynllun gwreiddiol ac yn addas ar gyfer ei gynhyrchu. Mae cystadleuaeth cyfansoddi cerdd neu farddoniaeth gwreiddiol i'w roi o fewn y cerdyn hefyd. Rhaid i'r cardiau a'r enwau gyrraedd y Ganolfan Genedlaethol erbyn Rhagfyr 10fed 2019. Bydd y buddugwyr yn derbyn 2 becyn o gardiau Nadolig a £20.

Cynhelir Cyngerdd Adfent nos Sul, Rhagfyr 1af, am 6.30 yr hwyr yng Nghapel y Rhos gyda doniau lleol a pharti Cangen Merched y Wawr yn cymryd rhan. Tocyn £5, Plant £1. Yr elw er budd Banc Bwyd Caernarfon. Tocynnau ar gael gan Mair Huws.

Siaradwr gwadd y noson oedd Susan Land Peters o Gaernarfon. Gwerthwr blodau Blodz, sef blodau ar gyfer pob achlysur. Yn ei ffordd a'i iaith ddihafal a hwyliog cawsom wledd i'r llygaid a mwynhad o weld yr arddangosfa wych o flaen ein llygaid. Bu wrthi'n ddyfal yn creu arddangosfeydd chwaethus Nadoligaidd a hynny yn hynod o ddoniol yn iaith unigryw y Cofi. Carnasiwns coch mawr a bach a charnasiwn gwyn a ddefnyddiai i addurno'r dorch ynghyd â moch coed a dail bythwyrdd. Rhyfeddai pawb at ei gallu i greu sioe hyfryd a syml mewn podyn Nadoligaidd ynghyd â'r tusw swmpus o liwiau Nadoligaidd mewn bag dwrglos Nadoligaidd. Cawsom nifer o gynghorion hefyd ar sut i edrych ar ôl y blodau.

Dymunir diolch i Susan am orig hynod ddifyr a hwyliog. Ein diolch iddi hefyd am gyflwyno'r addurniadau i Raffl y noson a'r enillwyr lwcus oedd Margaret, Myfanwy, Haf a Bethanne. Cyflwynir y tusw anhygoel i Phyllis gan ddymuno adferiad iechyd llwyr iddi. Diolchwyd i Myfanwy, Jean, Heulwen ac Ann am ofalu am y baned.

Byddwn yn dathlu'r Nadolig yng Ngwesty Y Gwynedd, Llanberis ar nos Fawrth, Rhagfyr 10fed, i fwyta am 7.30 yr hwyr. Dymunir Nadolig Llawen i bawb.

Nos Fawrth, Ionawr 14eg, cawn noson yng nghwmni Duncan Brown gyda'i gasgliad o gardiau Post hen a newydd a straeon am gefn gwlad. Cychwyn arbennig wir i 2020.

Capel y Rhos - oedfaon mis Rhagfyr

- 1 – Y Gweinidog y Parch. Marcus Wyn Robinson
- 8 – Parch Harri Parri, Caernarfon
- 15 – Oedfa Nadolig
- 22 – Y Barch Gwenda Richards, Caernarfon
- 29 – Mrs. Nerys Griffiths, Caernarfon

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

Genedigaeth Llongyfarchiadau mawr i Karon a Nicholas Goodwin ar enedigaeth eu merch fach, Mabel Rose Goodwin, ar Hydref y 13eg 2019. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Nain, Taid ac Yncyl Jac, Fuches Las Ceunant.

DINORWIG

Marian Jones.
Ffôn: (01286) 870292

Marwolaeth Ar y funud yr wyf yn teimlo yn ddigon trist o sylweddoli faint o blant Dinorwig sydd wedi ein gadael. Maent i'w gweld yn mynd o un i un.

Y mis yma eto daeth y newydd trist am Mr Cecil Wyn Owen, 13 Bryn Ffynnon, Star, Gaerwen, neu fel yr adwaenid ef yma yn Ninorwig, Cecil Ty'n y Fawnog. Cafodd eni a'i fagu yn Ninorwig yn frawd i Helen sydd yn byw yn awr yn Basingstoke ac yn ymweld â'r ardal rhyw unwaith y flwyddyn ac yn braf iawn ei gweld yn galw.

Yr oedd Cecil yn dod yn amal am dro i'r ardal ac i'r Allt Ddu. Byddai yn dod i gynhebrwng i'r ardal os byddai yn gyfleus iddo, ychydig iawn a gollai. Yr oedd yn 85 mlwydd oed ac wedi cael ei addysg yn ysgol bach Dinorwig ac yna yn Ysgol Ramadeg Brynrefail. O'r ysgol aeth i weithio i BT lle y bu hyd iddo ymddeol.

Priododd â merch o ddwyrain Ynys Môn o'r enw Mair ac fe fu iddynt gartrefu yn Star, Gaerwen, ac fe anwyd iddynt dair o genod. Ryw fis cyn ei farwolaeth sydyn, fe fu iddo syrthio o dop y grisiau i'r gwaelod ond yn lwcus ni fu iddo dorri dim ond ymhennaw diwrnod wedi hynny newidiodd yn gyfan gwbl. (Byddai yr hen bobl yn dweud bod eisiau naw ddiwrnod, ac mai ar ôl hynny y byddai claf yn troi ar wellhad neu yn gwaethygu). Yn hanes Cecil mynd i lawr yr allt a wnaeth. Yr oedd yn methu codi na bwyta ond nid oedd wiw sôn am ysbyty. Er i'r ambiwlans ddod i'w gyrchu bu am awr yn gwrthod mynd. Erbyn hyn roedd yn bur wael ac yn y diwedd bu raid iddo roi i mewn a mynd i'r ysbyty. Un penderfynol a fu erioed ac y mae yn edrych nad oedd wedi newid dim. Yn ôl y teulu, does ganddynt ddim ond gair da i'w ddweud am yr ysbyty. Buont yn hynod o garedig hefo Ces a hwythau fel teulu.

Darganfuwyd gan y teulu bod ganddo friw, er nad oedd wedi sôn amdano o gwbl. Fe fu i hwn wenwyno ei waed. Yn anffodus bu yn ddigon i Ces a bu farw o sepsis ar ddydd Sadwrn, 2 Tachwedd. Colled fawr i'r teulu.

Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu profedigaeth fawr gan obeithio y bu iddynt gael nerth i wynebu y cyfan. Mae yn anodd credu bod dyn mor fawr â Ces yn dawel. 'Cwsg a gwyn dy fyd yng ngofal dy Greawdwr'.

Er y bydd yr hanes am ei farwolaeth wedi mynd i'r wasg cyn y cynhebrwng, y trefniadau yw y bydd y gwasanaeth o dal ofal y Parchedig Ddoctor Huw John Hughes yn yr Amlosgfa yn Mangor am 1.30 brynhawn Llun, 18fed o Dachwedd, pryd y bydd y teulu a ffrindiau yn talu y deyrnged olaf i Ces gan obeithio yr aiff y cyfan fel ag y buasai yn ei obeithio. Gobeithio y cewch nerth yn ystod y dyddiau tywyll yma a chael Duw yn gymorth ichi fel teulu.

Cofion Ein cofion annwyl at Mrs Megan Morris, Minffordd gynt. Deall ei bod yn weddol a chysidro ei hoed. Hefyd at bawb sydd wedi bod yn cwyno a'r sawl sydd ddim yn rhy dda o hyd. Gobeithio y bydd pawb yn iach erbyn y Nadolig. Mae hwnnw bron wrth y drws.




- ✓ Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓ Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓ Adran teithiau grŵp.
- ✓ Tocynnau rhodd.
- ✓ I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvonias.co.uk








Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

Dach chi'n gwybod eich bod chi'n heneiddio pan mae'r wythnosau yn dechrau carlamu tuag at achlysur arbennig – y Nadolig! Ia, mae pobl wedi dechrau dweud wrthon ni faint o ddyddiau sydd i fynd. Roedd meddwl am anrhegion yn ddigon anodd llynedd a dyma'r holl beth yn dechrau eto!

Dyma rywbeth i chi ystyried, beth am roi pâr o 'sgidiau cerdded, neu ofyn am bâr i chi'ch hun. Neu hyd yn oed gwneud pact i chi'ch dau cael pâr. Dim digon o ramant yn y syniad? Dw'n i ddim chwaith, meddyliwch am y ddau ohonoch yn treulio amser yn ein cefn gwlad ac yn mwynhau cael gweld gwrth byd natur yn datblygu trwy'r tymhorau. Mi ydan ni'n byw yn y wlad orau yn y byd, mae cymaint i fwynhau. Y rhamant fydd i fwynhau hynny efo'ch gilydd.

Beth? Dach chi'n gerddwyr brwd yn barod? Mae'n ddrwg gen i ond dw i ddim yn gwybod beth i'w awgrymu ... na, mae gen i syniad - allech chi brynu aelodaeth Cymdeithas Edward Llwyd i'ch gilydd a mwynhau ein cwmni tu allan yng nghefn gwlad bob dydd Sadwrn. Rhatach na 'sgidiau hefyd.

Mwynhewch eich Nadolig beth bynnag ac edrychwch ar ein gwefan cymdeithasedwardllwyd.cymru i weld os ydan ni'n cerdded yn eich ardal. Bydd croeso mawr i chi. Nadolig Llawen i chi gyd!

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

AVW WORKSHOP Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porsche

BOSCH Service

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

Which? Trusted trader 01286 673559

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a hi yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



Eglwys Sant Padarn
LLANBERIS

2 o'rgloch DYDD SUL
RHAGFYR 15 2019

Gyda **Seindorf Arian Deiniolen**
A Chôr Meibion Dyffryn Peris

Bydd Gasgliad tuag at Achos Teilwng



Hywel Williams
Aelod Seneddol Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Dau o flwyddyn 12 ar y ffordd i Batagonia!



Llongyfarchiadau mawr i ddau o flwyddyn 12 sydd wedi eu dewis i fynd i Batagonia ar Daith yr Urdd ym mis Hydref 2020. Mae angen mynd trwy broses o wneud cais ac wedyn cael cyfweiliadau gan gystadlu yn erbyn ugeiniau o bobl ifanc ar draws Cymru i gael lle ar y daith flynyddol hon. Dipyn o gamp felly yw bod Elain Williams a Gwion Gruffudd wedi eu dewis - da iawn chi!

Cipio'r Gadair a Thlws yr Ifanc yn Eisteddfod Bentref Llanrug a Chwm y Glo



Llongyfarchiadau gwresog i Nel Gwilym a Lois Angharad Roberts am gipio'r Gadair a Thlws yr Ifanc yn Eisteddfod Bentref Llanrug a Chwm y Glo Nos Wener, Tachwedd 15fed. Diolch hefyd i ddisgyblion y chweched dosbarth am gymryd rhan mor urddasol yn seremoni'r cadeirio ac i Mrs Lowri Roberts am eu hyfforddi.

Plant Mewn Angen



Eleni eto penderfynwyd cefnogi diwrnod Plant Mewn Angen yn yr ysgol. Roedd yn gyfle unwaith yn rhagor am ychydig o hwyl rhwng y staff a'r disgyblion gan bod cyfle i wisgo gwisg ffansi ar y diwrnod. Felly ar ddydd Gwener, Tachwedd 15fed creodd y staff dipyn o gynnwrf wrth i nifer ohonynt wisgo fel môr ladron. Roedd gennym bennaeth ar y diwrnod oedd yn edrych yn debycach i Barti Ddu nag i Mrs Ellen Williams! Anodd oedd adnabod Mr Iwan Barker-Jones gyda'i wallt hir cyrliog du a'i gôt felfed goch a'r plant yn ei chael hi'n anodd i ganolbwyntio ar y wers Hanes tra bod cymeriad hanesyddol tebyg i Harri Morgan yn eu dysgu! Yn ychwanegol at y cyfle i wisgo gwisg ffansi i godi arian fe aeth criw o enethod blwyddyn 11 ati i goginio 200 o gacennau bach er mwyn eu gwerthu i'r disgyblion ar amser egwyl. Gwerthwyd pob un gan wneud elw o £117.

Roedd y disgyblion wrth eu boddau a chasglwyd swm anrhydeddus o £663.64 tuag at yr achos arbennig yma. Diolch i'r holl staff a disgyblion a ddaeth yn eu gwisgoedd ffansi ac i bawb a gyfrannodd ar y diwrnod.

Llwyddiant Tomas



Llongyfarchiadau mawr i Tomas Lewis blwyddyn 9 sydd newydd ennill y teitl Cadlanc Awyr Newydd Gorau. Bydd yn cael cadw'r darian am flwyddyn. Osian Bryn Thomas sydd ym mlwyddyn 10 enillodd y wobr yma flwyddyn yn ôl.



Ymweld â'r Ysgwrn

Ar dydd Iau, Hydref 10fed teithiodd disgyblion blwyddyn 12 a 13 sy'n astudio Cymraeg Safon Uwch i ymweld â'r Ysgwrn, cartref Hedd Wyn yn Nhrawsfynydd. Mae'r ffermdy bellach wedi ei droi yn drysor o amgueddfa fechan sy'n cofnodi hanes bardd y Gadair Ddu, ei deulu a chyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Er ei bod yn ddiwrnod lle roedd y gwynt a'r glaw yn ein chwipio wrth gerdded o'r Ganolfan i Ymwelwyr tuag at y tŷ ei hun, roedd y croeso a gawsom gan staff yr amgueddfa yn gynnes dros ben. Mae blwyddyn 12 yn astudio'r ffilm 'Hedd Wyn' fel rhan o'u cwrs Cymraeg Uwch Gyfrannol ac mae blwyddyn 13 wedi cyflawni'r arholiad hwnnw llynedd. Roedd yn wych o beth iddyn nhw weld y ffermdy a'i leoliad drostynt eu hunain a dychmygu Hedd Wyn yn aros ar ei draed trwy'r nos yn y gegin yn ysgrifennu ei farddoniaeth. Profiad arbennig arall oedd gweld y Gadair Ddu ei hun a sefyll mor agos ati gan weld pa mor gywrain oedd gwaith

y saer o Wlad Belg a'i creodd. Roedd clywed y stori tu ôl i'r cerfiadau a'r delweddau ar y gadair yn ddifys dros ben. Yn yr un modd gwych o beth oedd dysgu am y cysylltiadau anhygoel rhwng y gadair hon, ei gwneuthurwr, y gystadleuaeth ei hun a'r bardd Hedd Wyn a'i henillodd wedi blynyddoedd o ddyfalbarhau. Y tristwch mawr wrth gwrs oedd na chafodd erioedd wybod am ei gamp, na derbyn ei wobwr.

Delwedd arall fydd yn aros yn y cof yn hir yw'r lluniau a welsom yn y sgubor o hanner cant o fechgyn o ardal Trawsfynydd a gollodd eu bywydau, fel Hedd Wyn yn y Rhyfel Mawr. Llioniau i'n sobri oedd rheiny wrth i ni ystyried pa mor lwcus ydym ni yn byw mewn gwlad heb gysgod rhyfel drosom.

Cawsom ddiwrnod hynod o werthfawr a byddwn yn argymhell unrhyw un, os yn gyrru trwy Drawsfynydd i droi oddi ar y ffordd fawr a galw heibio cartref Hedd Wyn.

Diwrnod Sgiliau Ysgol Brynrefail

Dydd Mercher, Hydref 22ain 2019

Bu'r ysgol yn fwrlwm prysur unwaith eto eleni yn ystod ein Diwrnod Sgiliau cyntaf. Mae'r diwrnod yn gyfle i gynnig profiadau gwahanol a chyfoethog i ddisgyblion fel cyfrwng i ddyddu yn hytrach na dilyn gwersi arferol. Rydym yn gobeithio fod pawb wedi mwynhau ac wedi elwa o'r profiadau hynny.

Cafodd disgyblion Blwyddyn 7 gyfle i fynd i wyllo drama o'r enw 'Eye of the Storm' yn Pontio, Bangor. Mae'r ddrama wedi ennill y wobwr 'Sioe orau i Blant a Phobl Ifanc - Gwobrau Theatrau Cymru 2018' ac yn cyflwyno stori merch ifanc sy'n awyddus i ddilyn ei breuddwydion o fod yn wyddonydd tra hefyd yn gyfrifol am ofalu am ei mam. Roedd y perfformiad yn fywiog a chreadigol gyda cherddoriaeth fyw ar y llwyfan wedi ei chyfansoddi gan Amy Wadge. Bydd y ddrama hon yn sbarduno gwaith y disgyblion am weddill y flwyddyn yn eu gwersi Celf, Drama a Cherdd.

'SyrCAS Sgiliau' oedd enw diwrnod disgyblion Blwyddyn 8 a chawsant gyfle i brofi 12 gwahanol weithdy o gwmpas yr ysgol dan ofal myfyrwyr Blwyddyn 12. Ffocws y diwrnod 'SyrCAS Sgiliau' oedd i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy y disgyblion sef y sgiliau sydd eu hangen i lwyddo yn yr ysgol a thu allan mewn byd gwaith e.e. datrys problemau, cydweithio, cyfathrebu. Roedd y gwaith yma o arwain disgyblion Blwyddyn 8 yn

rhan o waith Bac Her y Gymuned myfyrwyr Blwyddyn 12 sy'n gynllun i fentora ac annog disgyblion iau'r ysgol.

'Diogelwch ar y we' oedd thema gyfoes y diwrnod i ddisgyblion Blwyddyn 9 a chawsant gyfle i ddyddu mwy am hyn drwy nifer o weithgareddau buddiol a gwerthfawr.

Diwrnod o weithgareddau i gwblhau eu gwaith Bac ar gyfer yr Her Fenter oedd gan ddisgyblion Blwyddyn 10. Drwy'r her hon rhaid iddynt ddatblygu eu sgiliau meddwl yn greadigol, datrys problemau, rhifedd a chydweithio gydag eraill. Eu tasg oedd gweithio o fewn eu grwpiau i ddatblygu syniad menter ac yna ei egluro a'i gyflwyno mewn modd creadigol. Yn y prynhawn roedd rhaid i bob grŵp gyflwyno eu syniad busnes o flaen aelod o uwch dîm rheoli ysgol ar ffurf y rhaglen 'Den y Ddraig'.

Cafodd disgyblion Blwyddyn 11 ddiwrnod i ganolbwyntio ar ddulliau adolygu cyffredinol a gweithdy adolygu mathemateg gyda'u hathro Mathemateg. Roedd y sesiwn adolygu yn gyfle i'r disgyblion ddyddu mwy am sut i adolygu a sut mae'r ymennydd yn cofio gwybodaeth. Cawsant gyfle hefyd i drafod gyda myfyrwyr Blwyddyn 13 am sut maen nhw'n adolygu, cyfle i edrych ar bwysigrwydd bwyta'n iach a chyfle i ddeall pwysigrwydd ymarfer corff i gadw'r meddwl yn effro ac iach. Roedd y disgyblion yn bositif iawn am y diwrnod.





Llongyfarchiadau i Dr Huw Gwilym a Dr Esyllt Llwyd, Meddygfa Waunfawr. Cyrhaeddodd y ddau y rhestr fer o 10 Meddyg Teulu yng ngwobr GP y flwyddyn Cymru, Coleg Brenhinol Meddygon Teulu. Rydym mewn dwylo diogel!

Clwb 300 Enillwyr mis Medi oedd; £30: Rosalind Owen, Bry Môr (54); £20: Mr a Mrs Raymond Parry, ffridd Felen (8); £10: Heulwen Huws, Argoed (130).

Enillwyr Hydref oedd: £30: Alma Jones, Tan y Fron (64); £20: Irene Roberts, Pant Teg (225); £10: Iolo Davies, Pennant (103).

Merched y Wawr Nos Iau, Hydref 24, cyfarfu aelodau y gangen yn y Ganolfan. Croesawyd pawb gan ein Llywydd, Bethan. Ymddiheurodd dros rai oedd yn methu bod yn bresennol. Llongyfarchodd Heulwen Huws ar ddod yn nain i Begw Nel, ac i Janet ar ddod yn nain i Llew. Oherwydd nad oeddwn yn bresennol, Heulwen (Yr Hafod) a gofnododd weithgareddau y noson, a diolch iddi. Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Delyth yn arddangos a thrafod gwahanol Eli a Hufen a'r gwahanol nwyddau o'r Body Shop sydd yn dda iawn am gadw croen yr wyneb a'r corff yn llyfn aciach yn ystod tywydd oer a gwyntog y gaeaf. Bethan, ein llywydd, oedd y fodel lwcus. Roedd digon o syniadau am anrhegion Nadolig i'r teulu a ffrindiau ar gael. Roedd yn noson llawn hwyl a chwerthin. Bethan a ddiolchodd i Delyth Owen am roi o'i hamser i ddod atom. Y cyfarfod nesaf fydd Swper Nadolig yn Bron Menai, Caernarfon am 7.30 o'r gloch ar Dachwedd 28. Veronica a Shirley ofalodd am y baned a'r raffl. Diolch i'r ddwy.

Ymwelwyr yn y Pentref Roedd nos Iau, Hydref 31, yn noson 'Miri i'r Plant'. Roedd yn noson eitha sych ond oer ond daeth gwrachod, ysbrydion, ambell fôr leidr a rhai cymeriadau amheus iawn i guro wrth ddrws tai y pentref. Roedd pob un ohonynt yn cario bag neu fasged ac yn gofyn yn gwrtais iawn os oeddynt am gael 'treat' gennym ni neu ni yn cael 'tric' ganddynt

hwy. Rhoi 'treat' iddynt hwy oedd y peth gorau i'w wneud dai'n meddwl ac roeddynt yn gwerthfawrogi yn fawr iawn.

Roedd rhieni y cymeriadau ifanc gyda hwy ac yn mwynhau eu hunain.

Nos Fawrth, Tachwedd 5, roedd yn noson Guto Ffowc a'r plant eto yn mwynhau. Aeth rhai i Gaernarfon i weld a chlywed y Tân Gwylt yn goleuo'r tywyllwch ac yn clecian dros bob man. Roedd y tywyllwch yn cael ei oleuo yma yn y Waun hefyd a'r sŵn clecian dros bob man.

Ymddeol Dymunwn ymddeoliad hapus i Joy, Tŷ Hen, wedi iddi ymddeol o'i swydd yng Nghyngor Gwynedd. Roedd yn mwynhau mynd i gerdded 'rownd y bloc' bob bore cyn mynd i'w gwaith ond rŵan, nid yw ar gymaint o frys ac mae'n cael aros i sgwrsio gyda hwn a'r llall.

Pen-blwydd Arbennig Yn ystod mis Hydref, bu Elan, Dwyfor, yn dathlu cyrraedd ei deunaw oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iti i'r dyfodol, Elan.

Anfonwn gofion cynnes at Anglea, Cae Main, wedi iddi anafu ei throed tra'n cerdded drwy'r caeau. Hyderwn y byddwch yn gwella yn fuan.

Anfonwn ddymuniadau da am wellhad hefyd i Anna Maria, Menai View, wedi iddi gael anaf gyda'r ceffyl.

Croesawn Raymond Parry, Ffridd Felan, adref o'r ysbyty ym Mangor. Mae'n dda clywed ei fod yn gwella yn araf o ddydd i ddydd. Mae'n dda hefyd gweld bod Gerald, 2 Stad Ael y Bryn, yn gwella wedi iddo gael triniaeth i'w ysgwydd yn yr ysbyty.

Diolch Dymuna Eirian, Bro Dawel, a'r teulu ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli Leslie. Diolch am y cardiau, galwadau ffôn, yr ymweliad a'r rhoddion ariannol a dderbyniwyd ac sydd wedi eu trosglwyddo i Gronfa Meddygfa Liverpool House mewn cydnabyddiaeth o ddiolch i'r meddygon, y gweinyddesau a'r staff yno. Mae ein diolch hefyd i feddygon a gweinyddesau

Ysbyty Gwynedd ac Eryri am eu gofal caredig drwy'r amser y bu Leslie gyda hwy. Bu gofalfwyr a gweinyddesau y gymuned yn garedig iawn hefyd. Diolch iddynt i gyd. Bu'r Gwasanaeth Angladdol yn yr Amlogsgfa ym Mangor. Diolch i'r Parchedig Marcus Robinson am y gwasanaeth teimladwy ac i Mrs Deilwen Hughes a oedd wrth yr organ.

Roedd trefnu'r gwasanaeth yn nwylo Meinir o gwmni Cyfarwyddwyr Angladd Dylan Griffith, Penisarwaun, ac am y trefniadau trylwyr, diolch iddi.

Profedigaeth Dridiau cyn diwedd mis Hydref, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd yng nghwmni ei deulu, bu farw Thomas Hughie Williams. Cydymdeimlwn yn ddwys â Iona, ei briod annwyl, ac â'i feibion Dafydd ac Ian, ei ferched Delyth a Siân, Meic a Tony, Carys a Lesley, ei ferched a'i feibion yng nghyfraith yn eu profedigaeth drist. Bydd Elgan, Dion, Sioned, Bethan, Rhydian, Ffion, Gwenan a Lois, ei wyrion a'i wyresau a'u partneriaid mewn hiraeth o golli taid annwyl iddynt. Roedd y gynulleidfa a ymgasglodd i'r gwasanaeth angladdol yn yr Amlogsgfa ym Mangor yn dangos yn glir y parch tuag ato a'r atgofion annwyl oedd ganddynt amdano.

Bydd rhai ohonom yn y pentref yn cofio fely byddai, yn nhymor y Nadolig neu'r Flwyddyn Newydd, am sawl blwyddyn yn trefnu bws i gludo rhieni a'u plant i Fangor er mwyn cael y pleser o wyllo Pantomeim yn Theatr Gwynedd cyn mynd yn ôl i'r ysgol wedi gwyliau'r Nadolig. Atgofion melyn ynde.

Profedigaeth Y diwrnod cyntaf o fis Tachwedd daeth mwy o newyddion trist i'r pentref. Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd gyda'i deulu o'i amgylch bu farw Haydn wedi cystudd hir. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'i briod ofalus, Glenys, a gyda Dylan ac Eilir ei feibion, ac Alaw ei ferch a'i phriod Rheinallt. Roedd Cai, Elinor ac Anna yn meddwl y byd o taid ac yntau yn mwynhau eu cwmni hwythau. Roedd Val ac yntau yn efeilliaid agos iawn a chydymdeimlwn yn ddwys â hi a'i theulu yn Barrow in Furness.

Roedd tad Haydn a Val yn codi canu yng ngwasanaethau Capel Bethel a byddai Haydn yn hoff o ganu emynau yng Nghapel y Waun ar fore Sul. Roedd yn aelod ffyddlon o Gôr y Waun.

Nid Haydn Jones oedd o i ni ei gyfoedion, ond Haydn 'Clechydd' a dyna fydd o am byth. Mae yna ddarlun o dŷ fferm Cilfechydd ar y wal yn Rhandir Mwyn. Valerie baentiodd y llun a'i roi yn anrheg iddynt ac roedd Haydn yn falch iawn ohono.

Y Barchedig Nan Wyn oedd yn arwain y gwasanaeth yn yr Amlogsgfa ym Mangor ac yng Nghapel y Waun gyda Gwenda Griffith wrth yr organ. Pan ddaeth Nan i mewn i'r capel ei geiriau oedd "mae'r capel mor llawn yn dweud yn ei ffordd ei hun mor boblogaidd oedd Haydn."

Sul y Cofio yn Waunfawr Oherwydd fod Edgar, Cyngorydd y pentref gyda galwadau eraill yn y sir, cynhaliwyd Gwasanaeth Sul y Cofio ar safle y Gofgolofn fore Llun, Tachwedd 11. Disgyblion Bl 6 yr Ysgol Gynradd arweiniodd y gwasanaeth. Diolch iddynt ac i'w hathrawes, Mrs Griffith, fu'n eu hyfforddi. Diolch i'r trigolion ddaeth i'r cyfarfod a chefnogi'r disgyblion. Fe fyddai'n dda cael mwy ohonom yn ymgasglu i'r gwasanaeth hwn bob blwyddyn.

Diolch i Trefor a Roy am ofalu am y Gofgolofn a'r tir o'i hamgylch drwy y flwyddyn.

Yn yr Ysbyty Anfonwn gofion cynnes at Gary Griffith, Stad Tŷ Hen, sydd yn derbyn gofal yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Croesawn Treflyn, Treforfan, adref o'r ysbyty wedi iddo dderbyn gofal gan y meddygon yno.

Cydymdeimlo Bore Sul, Tachwedd 17, daeth y newyddion trist am farwolaeth Mrs Catherine Jones, Bryn Gwenallt. Cydymdeimlwn ag Eryl ac Alwyn a oedd gyda hi yn ei chartref.

Cyngor Cymuned Byddwn yn goleuo'r goeden Nadolig ar y 3ydd o Ragfyr am 6.30 yn y Ganolfan. Dewch i ymuno â ni a phlant Ysgol Waunfawr ac eraill i ganu carolau. Bydd panad a mins pei ar gael hefyd yn y caffi.

Teyrnged i Mr Leslie Jones

Ganwyd Les ar Chwefror 3ydd 1945, yn fab i Joseph a Maggie Jones, Cae Adda Goch, Waunfawr, a brawd mawr i Nan, neu fel yr oedd hi yn ei alw ‘Big B’. Cafodd ei addysgu yn Ysgol Gynradd Waunfawr ac wedyn Ysgol Segontium, Caernarfon. Wedi gadael yr ysgol aeth i gael prentisiaeth plastro gyda Thomas + Thomas yn Waun. Roedd yn mwynhau ei waith ac roedd yn cael ei ganmol na chaech chi ddim gwell plastrwr yn yr ardal.

Yn Awst 1968 bu iddo briodi efo Eirian, merch Wil a Heulwen, Cae Mur, yn Eglwys Llanbeblig a bu iddynt brynu eu cartref Bro Dawel, Waunfawr. Ond oherwydd ei arbenigedd o fel “adeiladwr” bu rhaid gytio’r tŷ a bu iddynt fyw yn Cae Adda am flwyddyn.

Roedd Les yn weithgar iawn ar hyd ei oes ac yn barod iawn ei gymwynas. Bu i’r diweddar Gwyrfaï Jones, Cilfechydd, allu ei berswadio i’w helpu i beintio landeri uchel Capel Bethel heb ddim ofn uchder. Bu iddo roi ei amser hamdden i helpu plastro y Ganolfan yn Waunfawr. Roedd yn weithiwr caled ac yn mwynhau gweithio oriau mawr.

Ei ddiddordebau oedd hela, a byddai ffermwyr yn falch o’i gymorth pan oedd defaid yn wyna yn y gwanwyn, a’r llwynogod yn bla. Fe driodd ddwywaith neu dair i gadw ‘cwb’ llwynog fel anifail anwes ond methu wnaeth o. Efallai bod y llwynog fwy craff na fo!

Roedd yn hoff iawn o anifeiliaid, bu iddo yn ei dro fagu fferret, bwjis, cockatils, hwyaid, ieir, cŵn hela, ac yn ddiweddarach, geifr. Roedd hefyd yn hoff iawn o’i beiriannau, tractors a machines tracia a dympars.

Yn anffodus, 16 mlynedd yn ôl cafodd drawiad ar y galon, ac yna un arall 8 mlynedd yn ddiweddarach a bu’n rhaid iddo rhoi’r gorau i weithio.

Parhaodd gyda’i ddiddordeb hyd 2 flynedd yn ôl pan fu i’w iechyd ddirywio, a dod yn hollol ddibynnol ar ei briod, Eirian. Penderfynodd hithau ymddeol o’i swydd i ofalu amdano, a bu iddynt fwynhau yr ymddeoliad yn crwydro yn y car a mynd allan am ginio a chymdeithasu bob dydd. Diolch yn fawr iddi am ei gofal.

Cymerwyd efi’r ysbyty a bu yno am 5 wythnos yn derbyn gofal gan y meddygon a’r nyrsys, ond dirywio yn sydyn wnaeth ei iechyd.

Dymuna’r teulu ddiolch o galon am y gofal a’r gefnogaeth gan y meddygon, nyrsys a’r staff yn syrjeri Waunfawr; Ysbyty Gwynedd Bangor; Ysbyty Eryri yng Nghaernarfon, nyrsys cymunedol ac i’w cymdogion i gyd yn Waunfawr.

Ond, er bod Les ddim yn un am fynd i’r capel ar y Sul, ei bregeth ef i ni oedd “crwydra lle mynna dy hun, marw lle mynna Duw”.

Ysgol Waunfawr

Nosweithiau Rhieni Tymor yr Hydref
Braf yw cael datgan bod bron pob un rhiant wedi mynychu y nosweithiau rhieni y tymor hwn.

Noson Gofrestru yr Urdd
Cynhaliwyd noson gofrestru yr Urdd drwy gael disgo Calan Gaeaf cyn yr hanner tymor. Diolch i Dafydd Llwyd am gynnal y disgo. Roedd pawb werth eu gweld yn eu dillad calan gaeaf mae 55 o ddisgyblion wedi ymaelodi eleni.

Llongyfarchiadau
Hoffem longyfarch Erin a Cadi o flwyddyn 6 Mae’r ddwy wedi bod yn brysur yn cystadlu yn y gystadleuaeth Cheerdance UK dros yr hanner tymor. Y ddwy wedi dod yn 4ydd yn y ddawns unigol, ac yn 2il gyda grŵp KP Stars! Gwych iawn genod! Llongyfarchiadau i chi! Ysgol Brynrefail

Bydd plant blwyddyn 6 yn ymweld âg Ysgol Brynrefail yr wythnos nesaf. Dymunwn yn dda i’r pedwar disgybl ar ddeg dwi’n siwr y bydd pob un ohonynt yn mwynhau y profiad yn fawr ac yn edrych ymlaen i’w hymweliad nesaf yn nhymor yr Haf.

Gwasanaeth Dydd y Cofio.
Diolch i flwyddyn 6 a Mrs Griffith am gynnal Gwasanaeth y Cadoediad ger y gofeb Tachwedd yr 11eg. Daeth ychydig o drigolion y pentref i ymuno yn y gwasanaeth.

Plant Mewn Angen
Cefnogwyd ymgyrch Plant Mewn Angen Tachwedd y 15fed cafwyd diwrnod llawn hwyl. Roedd yn werth gweld y disgyblion yn eu gwisgoedd. Diolch i bawb am eich cyfraniadau.

Gala Nofio yr Urdd
Dymunwn yn dda i’r wyth disgybl o flwyddyn 4/5/ a 6 a fydd yn cystadlu yn y Gala

Diolchiadau
• Hoffem ddiolch i Mrs Susan Williams a Gweithiwr Plant Ieuentid a Theulouedd Cynllun Efe am gynnal gwasanaethau gyda’r Adran Iau yn ystod y tymor.

• Diolch i Paul ac Ifan am ddod i roi hyfforddiant sgiliau seiclo i blant blwyddyn 6.

• Diolch i Dafydd Llwyd am gynorthywo dosbarth Cefn Du i wneud rhaglen radio ar CymruFM.

• Diolch hefyd i’r Welsh Whisperer am gynnal gweithdy gyda holl dosbarthiadau yr ysgol ddydd Llun Tachwedd y 4 ydd. Llwyddwyd i greu cân

arbennig i Ysgol Waunfawr.

Croeso
Rydym yn estyn croeso cynnes i Mr Jake Calley Thomas sy’n fyfyrwr ym Mhrifysgol Bangor a fydd yn arsylwi yn y dosbarthiadau yr wythnos nesaf. Bydd Mr Thomas yn treulio cyfnod o ymarfer dysgu ym mlwyddyn 6 ddechrau’r flwyddyn.

Ailgylchu dillad
Diolch i bawb am gefnogi yr ymgyrch ailgylchu dillad. Derbyniodd yr ysgol tua £150.00 gan yr Antur dros y flwyddyn ddiwethaf.

Cyfrif Trydar yr ysgol
• Cofiwch hefyd ddilyn digwyddiadau yr ysgol ar ein cyfrif “Trydar” (Twitter) @ysgolwaunfawr Bydd yr athrawon dosbarth yn anfon lluniau a gwybodaeth yn wythnosol, fel eich bod yn cael blas o’r gweithgareddau a ddigwyddodd yn y dosbarth dros yr wythnos.

Dyddiadau i’w cadw mewn cof

• Cynhelir Miri Carolau yn yr Antur nos Wener Tachwedd 29ain.
• Bydd y plant yn canu o amgylch coeden Nadolig y pentref Nos Fawrth Rhagfyr y 3ydd.

• Cynhelir ein Cinio Nadolig ddydd Iau Rhagfyr y Sed a chaiff y disgyblion wisgo siwmpwr Nadolig ar y diwrnod.

• Cynhelir Ffair Nadolig yr ysgol Nos Fercher Rhagfyr y 4ydd.

• Cynhelir ein Sioeau Nadolig pnawn a nos Fawrth Rhagfyr y 10fed a phnawn a nos Fercher Rhagfyr yr 11eg.

• Bydd plant y Babanod yn mynd i’r Antur i gael brecwast gyda Sion Corn fore ddydd Llun, Mawrth a Mercher Rhagfyr y 16eg, 17eg a’r 18fed.

• Bydd plant y Meithrin yn canu carolau ddydd Iau Rhagfyr y 19eg yn neuadd yr ysgol. Bydd Sion Corn yn galw heibio.

• Bydd yr ysgol yn cau ddydd Gwener Rhagfyr yr 20 fed. Yn ail agor i ddisgyblion Ddydd Mawrth Ionawr y 7 fed 2020.

Gwasanaethau mis Rhagfyr

yn y Capel am 10 o’r gloch y bore.

- 1: Mr John Roberts
- 8: Parch Anna Jane Evans
- 15: Parch Aneurin Owen, Llansannan
- 22: Gwasanaeth Nadoligaidd
- 29: Dim Oedfa



Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch.



Cafwyd eisteddfod lwyddiannus eto eleni ar ffurf ychydig yn wahanol i'r arfer. Cynhaliwyd yr ysgoloriaeth ar y nos Wener gyda gwobr o £300 ac fe gafwyd cyflwyniadau o safon uchel iawn yn ôl y beirniaid, Cefin a Rhian Roberts. Gwelwyd yr un brwdfrydedd ar y Sadwrn canlynol gyda chystadlu brwd trwy gydol y prynhawn. Hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd at lwyddiant y ddau gyfarfod ac i pawb a gyfrannodd gwpanau, gwobrau a rhoddion ariannol at yr eisteddfod.

Canlyniadau Cyfarfod Nos Wener

Ysgoloriaeth yr Eisteddfod 16-25 oed

1af – Lois Glain Postle

2ail – Ella Haf a Gwydion Rhys

3ydd – Ioan Rees a Twm Tegid

Enillydd Cadair yr Eisteddfod

Gaenor Mai Jones, Pentre'r

Eglwys, Rhondda Cynon Taf

Enillydd Medal Lenyddol dan

25 oed

Ceinwen Jones, Clwt y Bont

Tlws y Cerddor

Gwydion Rhys

Canlyniadau Llwyfan Dydd

Sadwrn

Canu Dosbarth Meithrin

1af - Guto

Llefaru Dosbarth Meithrin

1af Guto

Canu Dosbarth Derbyn

1af – Jac

Canu Blwyddyn 1 a 2

1af – Elsa Gwyn

Llefaru Blwyddyn 1 a 2

1af – Elsa Gwyn

Canu Blwyddyn 3 a 4

1af – Anian; 2ail – Cynan

Llefaru blwyddyn 3 a 4

1af – Cynan a Jessica

Canu Blwyddyn 5 a 6

1af – Elliwi

Llefaru Blwyddyn 5 a 6

1af – Glesni; 2ail – Ella; 3ydd

– Harry

Unawd Offerynnol blwyddyn

6 ac iau

1af – Anian; 2ail – Glesni a Ella

Ymgom Blwyddyn 6 ac iau

1af – Grŵp Ella; 2ail – Grŵp

Glesni; 3ydd – Grŵp Gwion

Grŵp Llefaru

Grŵp Ysgol Gwaun Gynfi

Parti Canu

1af – Parti Ysgol Gwaun Gynfi

Côr blwyddyn 6 ac iau

Côr Ysgol Gwaun Gynfi

Enillydd Cadair Eisteddfod i

ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6

Ysgol Gwaun Gynfi am waith

Llenyddol

Efa Jones, Deiniolen

Enillydd Medal Lenyddol

blwyddyn 7-11

Non Fôn Davies, Talwrn

Enillydd tlws er cof am Mr Iwan Williams, Manceinion am yr ymgais orau yn yr adran gerdd

Anian

Enillydd tlws Crud yr Awel,

Porth y Gogledd, am yr ymgais

orau yn yr adran lenyddol

blwyddyn 6 ac iau: Gethin

Hughes

Enillydd tlws er cof am Mrs

Nancy Edwina Jones am y

perfformiad gorau i blant

blwyddyn 2 ac iau:

Elsa

Enillydd Cwpan er cof am y

diweddar Mr WJ Eames am yr

ymgais orau yn yr adran Adran

Arlunio i blant blwyddyn 6

Ysgol Gwaun Gynfi: Fflur

Enillydd tlws Mary a John am

yr ymgais orau yn yr adran

llefaru blwyddyn 6 ac iau:

Glesni

Unawd Blwyddyn 7-11

1af – Elin Dafydd – Deiniolen;

2ail-Twm Tudor, Llanrhuddlad

Unawd Offerynnol Blwyddyn 7-11

1af Elin Dafydd; Deiniolen

Tlws Coffa Mr Ellis Wyn

Williams Blwyddyn 7-11

cyflwyniad cerddorol neu lafar:

Twm Tudor, Llanrhuddlad

Tlws Mr a Mrs Hefin

Williams am y cystadleuydd

lleisiol mwyaf addawol

blwyddyn 7-11: Twm Tudor,

Llanrhuddlad

Tlws Seindorf Arian Deiniolen,

am yr ymgais offerynnol mwyaf

addawol blwyddyn 7-11: Elin

Dafydd, Deiniolen

Stori Fer, Tlws er cof am y

diweddar John David Evans,

Maes y Dref: Osian Wyn

Davies, Caerdydd

Tlws Teulu Cae Maen am yr

ymgais orau yn yr Adran Celf a

Chrefft: Alan Wyn, Deiniolen

Cwpan Clwb Snwcer am y

cynnyrch gorau yn yr adran

gwaith coed: Erin Wyn,

Deiniolen

Cwpan Goffa Mrs Dilys Mai

Hughes – Cân Ysgafn: Sandra

Morris, Deiniolen

Parhad DEINIOLLEN

Cyngerdd Nadolig Cynhelir Cyngerdd mawr Nadolig yn Eglwys Crist Llandinorwig ar Ddydd Sul, Rhagfyr 22ain, am 5.30p. Mae artistiaid lleol o fri yn cymryd rhan a hynny er budd cronfa atgyweirio'r Eglwys. Yr artistiaid yw Seindorf Deiniolen, John Eifion, Marina, Lois ac Anest, Sian Wyn Gibson ac Emyr Gibson, Lyndsey Vaughan Pleming, Sandra Anne Morris, Ysgol Gwaun Gynfi, ac Ensemble Ysgol Brynrefail.

Dewch i'r Cyngerdd i fwynhau talentau arbennig iawn, ni fydd yn gyngerdd hir. Arweinydd y cyfan fydd Trystan Ellis Morris ac arweinir y Carolau cynulleidfaoel gan Huw Foulkes. Bydd raffl ar werth ar y noson. Pris tocynnau yw £10 ac i blant dros 5oed yn £4. Os am archebu tocynnau cysylltwch â Heledd ar 07787826875

Noswyl y Nadolig Fel arfer cynhelir Cymun y Nadolig yn Eglwys Crist Llandinorwig am 6 o'r

gloch nos Fawrth, Rhagfyr 24ain. Eleni eto dyma fydd yr unig Gymun uniaith Gymraeg yn ardal Anglicanaidd Bro Eryri. Dewch draw i fwynhau'r cyfan cyn troi am adref i fwynhau yr Ŵyl.-Bydd croeso twymgalon i bawb.

Cyfarchion y Nadolig

Hoffai Mair a John Maldwyn,, 13 Tan-y-Buarth, Bethel, ddymuno Nadolig dedwydd a Blwyddyn Newydd dda i bawb gan na fyddant yn anfon cardiau Nadolig eleni. Yn eu lle rydym yn cyfrannu £20 tuag at goffrau'r Eco, fel diolch am y llafur tu ôl i'r cynhyrchiad misol.

Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'm teulu, ffrindiau a'm cymdogion gan na fyddaf yn anfon cardiau Nadolig eleni. Diolch Margaret Roberts, Crud yr Awel, Porth Gogledd.

Dymuna Sylvia Jones, 4 Rhes Marian Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gyfeillion, teulu a chymdogion gan na fydd yn anfon cardiau cyfarch eleni.

Diolch Dymuna Sue Jones, 83 Pentre Helen, Deiniolen, ddiolch o galon am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar ei phen-blwydd yn 60eg yn ddiweddar.

Diolch Hoffai Mrs Nansi Morris, 93 Pentre Helen, ddiolch i'w theulu a ffrindiau am eu caredigrwydd yn dilyn ei phen-blwydd yn 90ed yn ddiweddar.

Diolch Llongyfarchiadau i Catrin Ellen Jones, Gwelfynydd, Clwt y Bont. a'r ennill gradd gyda anrhydedd dosbarth cyntaf. Mae hi rŵan yn fydwaig yn Ysbyty Gwynedd. Ein dymuniadau gorau i'r dyfodol, gyda llawer o gariad gan y teulu i gyd.

Sul y Cofio Cafwyd gwasanaeth teilwng iawn ar Sul y Cofio wrth y gofeb yn Neiniolen. Diolch i'r trefnwyr ac i bawb a gymerodd rhan, i'r Parchedig John Pritchard am arwain y gwasanaeth, Y Cynghorydd Elfed Williams a Seindorf Arian Deiniolen. Diolch yn arbennig i'r unawdydd Tomos Evans am chwarae mor arbennig. Diolch hefyd i'r holl sefydliadau a gyflwynodd dorch pabi ac i holl drigolion y pentref a ddaeth ynghyd.

Noson Tan Gwyllt Cynhaliwyd noson Tan Gwyllt ar iard yr ysgol dan ofal y Cylch Meithrin eto eleni. Cafwyd arddangosfa gwerth chweil gyda digon o glecian a sgrechian a chŵn poeth. Diolch i bawb a drefnodd noson wych.

Seindorf Arian Deiniolen Llongyfarchiadau i'r band am ddod yn 2ail ym Mhencampwriaeth Gogledd Cymru yn Rhuthun, dydd Sadwrn y 16eg o Dachwedd, Gwych iawn.

Pencampwr Byd Digwyddodd rhywbeth arbennig iawn yn ddiweddar draw yn Rwmania o bob man, pan ddaeth Darren Bingham yn bencampwr byd fel rhan o dim dartiau Cymru. Roedd y gystadleuaeth i dim o 4 yn golygu chwarae nifer o gemau gan gyrraedd y ffeinal a churo'n gyfforddus. Aeth nifer o'r pentref a'r ardal draw i gefnogi Darren, ynghyd â'i gyd aelodau gan gynnwys un arall o dim Gwynedd, sef Arwyn Morris. Dim llawer all ddweud eu bod yn bencampwr byd ond mae Darren yn haeddu'r holl lwyddiant ar ôl gweithio'n galed am amser hir i gyrraedd y llwyfan mwyaf posib. Mae'r pentref, a dwi'n siŵr, yr holl ardal yn falch iawn o'i lwyddiant ac yn dymuno'r gorau iddo am flynyddoedd i ddod.

CAEATHRO

Lowri Ceiriog, 4 Erw Wen.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

Capel Ar y 1af o Ragfyr bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Marcus Wyn Robinson am 2:00pm. Bydd cyfarfod Swyddogion i ddilyn am 3:05pm. Bydd yr Oedfa Nadolig yn cael ei chynnal ar y 15fed o Ragfyr i ddechrau am 5:30pm, gyda phaned a mins peis i ddilyn. Bydd Oedfa Cymun yng Nghysegr, Bethel, fore Nadolig am 10:00am ac mae croeso i unrhyw un o drigolion Caeathro ymuno yma.

Canu Carolau Nos Lun, y 16eg o Ragfyr, byddwn yn ymgynnull wrth y goeden Nadolig i ganu carolau yng nghwmni aelodau band pres Llanrug – amser i'w gadarnhau felly cadwch lygad am yr arwydd ar y sgwâr.

Gwellhad Buan Brafyw gweld fod Nia Jones (Y Dderwen) adref ac yn gwella wedi cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gwellhad buan hefyd i Alwyn wedi'r driniaeth ddiweddar ar ei ben-glin.

Amserlen Bws Er gwybodaeth, mae amserlen bysiau newydd wedi ei osod yn safle bws y pentref.

TYNEFA MISOL : 1af (£40) – Rhif 53: David Jones (1 Bryn Gof); 2il (£25) – Rhif 85: Owie Williams (19 Glan Gwna); 3ydd (£15) – Rhif 111: John Morris (7 Bryn Gof); 4ydd (£5) – Rhif 39: Gary Roberts (Pen Lôn).

Tân yn yr Eglwys Ydyd chi'n cofio lle'r oeddech chi adeg clywed am dannaau mawr 'Siop y Nelson', y 'Brunswick Buildings' (lleoliad y 'C&D' a 'Siop y Modur'), a'r 'Majestic' Yng Nghaeathro, bydd rhaid i ni ychwanegu'r tân dychrynlyd a ddinistriodd yr hen Eglwys genhadol, neu'r 'Mission Room', ar ddydd Iau, y 7fed o Dachwedd.

Tybed faint o'n darllenwyr sy'n ymwybodol y bu Eglwys genhadol yng Nghaeathro? Mae ei hanes yn mynd yn ôl at gyfnod 'Eglwys Lloegr'. Oherwydd ei statws fel 'mission', roedd y cyfrifoldeb amdano gydag Esgobaeth Bangor, ac felly y bu ar ôl datgysylltu'r Eglwys wladol yng Nghymru.

Trwy archwilio hen fapiau, gellir dweud fod yr adeilad wedi ei godi rhwng 1889 a 1899. Mae 'Trade Directoy' yn argymhell dyddiad ar ôl 1895. Pren 20tr x 40tr oedd yr adeilad a gwnaethpwyd mewn darnau gan gwmni 'Boulton a Paul' yn Norwich - mae enw'r cwmni yn parhau hyd heddiw fel gwneuthurwyr drysau a ffenestri pren sydd ar werth mewn storfeydd adeiladu. Adeg y trosglwyddo i Gymru, roedd rhaid eu hanfon mewn darnau ar drên i Gaernarfon, cyn cludo gyda cheffyl a throl i Gaeathro – tipyn o hwyl!

Codwyd yr adeilad ar dir Stad Glangwna. Roedd y safle ar gae diwethaf y stad ar ochr orllewinol y ffordd o Gaernarfon, cyn ffin terfyn plwyf Llanbeblig. Adeg hynny, nid oedd byngalos Pennant a Thryfan yn bodoli. Y tŷ agosaf oedd Mur Matthew, ychydig lathenni i'r gogledd o'r safle. Felly y bu am ddegawdau gydag oedfaon o dan ofal Rheithor Caernarfon a'r clerigwyr cynorthwyol. Roedd rhai o'r Oedfaon yn Saesneg.

Roedd defnyddwyr eraill yr adeilad yn cynnwys mynychwyr Gyrfeidd Chwist ac ymarferion grwpiau pop fel 'Ficar'. Yn ystod yr 1970au hwyr, cododd y Cyngor Sir oleuad stryd ar bolyn trydan Manweb dros y ffordd â mynediad yr adeilad er mwyn hwyluso cerdded i'r Gyrfeidd Chwist yn y Gaeaf!

Erbyn 1985, adeg y bu'r Parchedig Barry Thomas yn Rheithor Caernarfon, datganwyd gan Ymddiriedolaeth Esgobaeth Bangor nad oedd defnydd pellach ganddynt o'r adeilad. Cafodd ei roi ar werth, ac unwaith y cafodd ei werthu, y defnydd oedd er mwyn trwsio setiau teledu ac offer trydanol eraill.

Gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y pentref a'r cyffiniau!

Atgofion o Chwarel Dinorwig (parhad)

Wedi cyrraedd ein deunaw oed edrychem ymlaen am gael mynd i’r twll i ddechrau dysgu gweithio ar y graig. I mi, y pryd hynny yr oedd gweld dynion yn rhaffu ac yn bwrw creigiau i lawr yn beth arwrol a dyhewn am gael myned yno i wneud yr un peth. Wedi troi ein deunaw oed hefyd cyfrifid ni yn ddigon cyfrifol i gario powdwr a’i drin. Yr oedd trefn arbennig gyda’r powdwr yn y chwarel. Yn gyntaf yr oedd rhaid i’r chwarelwr ei brynu yn Nhŷ Powdwr y chwarel ac roedd gan pob bargaen gedryn codi powdwr a chwdyn pwrpasol i’w gario ac yn bocs pren cryf o goed a chlo arno i’w gadw. Yr oedd y drefn a’r ddefod yma yn digonol ein bod yn dod i fyny â gofynnion y ddeddf a rheolau prynu a gwerthu nwyddau ffrwydrol. Pan oeddem eisiau powdwr felly, rhaid oedd cael papur caniatad gan y stiward ac ysgrifennai ef ordor arno a’i arwyddo. Aem wedyn i Dŷ Powdwr yn Ninorwig. Cyn mynd i mewn i’r tŷ rhaid oedd gwagio eich pocedi o bob mastien a diffodd eich sigaret wrth y drws. Rhaid oedd gwisgo esgidiau mawr dros ein hesgidiau hoelion mawr ac yna rhoddi y papur caniatad trwy’r ffenest i geidwad y Tŷ Powdwr. Byddai efyn cyflenwi’r ordor ac yn ei chodi ar y cerdyn a gadwem ni. Wedi rhybuddion sobor a difrifol ganddo ynghylch cario matsys, smocio a phob dim anghyfrifol arall a dybiai effod glas lanciau yn euog ohonynt, gollyngai ni. Mwynhaem y daith i lawr heibio mân dyddynod Dinorwig a thrwy lwybrau bach cyfrin y coed yr Allt Wen a’r tawelwch Sabbathol oni daethem i drwst a thwrw’r melinau a’r peiriannau yn ôl wrth y fargen.

Ym mhonc New York y dechreuais yn jermon twll gyda fy nhad gyda’r fargen agosaf atom oedd bargaen Harri Parri. Wrth gwrs yno hefyd y daeth Harri’r mab yn jermon twll. Amser difyr oedd hwnnw er na chefais fynd ar y clogwyn am fisoedd gan i fy nhad dynnu rwb enfawr ac felly yr oedd digon o gerrig ar lawr. Gwibiai’r oriau heibio rhywsut rhwng caniad a phaned a saethu a gwaith a dadleuem a thynnu coes. Yn wir byddai canaid ymochel ffiar yng nghaban New York yn un hwyl fawr pan fyddai Tomos John wedi dod o’r Bonc Wyllt odditanom i saethu neu i osod rhaff. Yr oedd ei ffraethineb yn ddiarhebol. Un diwrnod cipiodd y gwynt ei het gan ei chwyrlio uwchben y dyfnderau.

“Duwch, lwcus i mi ddwad o honna rwan was” oedd ei sylwadau fel saeth.

Byddai damweiniau yn digwydd weithiau i gymylu ei bywydau. Arwahan i ddamweiniau angeuol, yr oedd colli llygaid neu fys neu dorri braich neu goes yn digwydd yn bur aml. Dygid hwy i ysbyty y chwarel ac yno cawsent driniaeth llawfeddygol os oedd angen hynny. Y meddyg oedd yr enwog Dr Mills Roberts a fu yn gôl geidwad yr enwog Preston North End a ennillod gwpan yr FA. Gydag ef yr oedd Hughes ei fferyllydd a’i gynorthwywr. Gallasai ef asio gewynau fel meddyg hefyd a thystiau llawer o’r hen chwarelwyr i’w fedr hyd y dydd heddiw.

Cofiaf yn hogyn bach fynd i’r ysbyty i ymweld â Ifan Pollman – partner fy nhad. Taniodd powdwr twll y Bonc Wyllt. Chwythwyd fy nhad o’r troed i ben y fargen heb lawer o niwed, ond aeth Ifan i lawr gyda’r rwb. Aeth piler main a’i lygaid i ffwrdd a thorrodd ei fraich a’i glun

ynghyd a nifer o anafiadau eraill. Gwellhaodd Ifan a pharodd i weithio nes ei fod yn 80 oed.

Bob tro y digwyddai damwain angeuol byddem yn rhoi gorau i’n gwaith ac yn mynd adref am weddill y diwrnod. Byddai pob peiriant yn darfod a phob gordd a morthwyl yn distwei a disgynnai tawelwch angeuol dros yr holl waith.

Cofiaf yn dda gweld hen bapur newydd a rhestr o enwau y rhai oedd wedi eu lladd yn Chwarel Dinorwig a’r Penrhyn hyd at 1900 ac yr oedd rhwng 600 – 700 rhwng y ddwy. Wrth saethu a thrin ffrwydron y digwyddai rhan helaeth ohonynt ac wrth olrhain y dulliau cyntefig a ddefnyddid nid ydyw yn fawr o syndod. Pan ddechreuwyd ddefnyddio powdwr a phylor yn Ninorwig – yn ôl yr hanes – rhaid oedd cael cyfarwyddyd gŵr profiadol i’w drafod a daeth gŵr o Chwarel y Cilgwyn i ddysgu gwyddor newydd i chwarelwyr Dinorwig. Dipyn o hen wag oedd hwnnw fodd bynnag ac nid oedd yn rhy fodlon i ddadlennu ei gyfrinach. Dywedodd fod yn rhaid cadw deilen arbennig yn ei boced er mwyn i’r powdwr fod yn effeithiol a thwyllodd yr ‘hen deulu’am gryn amser. Pan ganfuwyd y twyll yr oedd yn hen bryd iddo ei gwadnu hi yn ôl am Chwarel y Cilgwyn.

Cyn defnyddio’r powdr gyda chalch poeth, treiglid y plygion i lawr o’r graig a dyma medd yr hen chwarelwyr oedd y ffordd orau i dynnu craig heb iddi ysigo. Codi hollt gyda chyn a morthwyl yn gyntaf ac wedi eu lledu rhoddi calch ynddi ac yna dwr a’i stampio gyda baw mân. Erbyn y bore buasai’r graig wedi ei symud i gyd. Pan ddechreuwydd ddefnyddio powdwr fodd bynnag yr oedd anwybodaeth a’r modd gyntefig o’i drafod yn i wneud yn beryg ac felly cafwyd llawer o ddamweiniau o’i achos. Dywedir mai gyda gwelltyn wedi ei lenwi a phowdwr y taniai yr hen chwarelwyr y powdwr.

Yn fy amser i fodd bynnag yr oedd elfennau ffrwydrol wedi eu perffeithio cystal ag oedd modd ac anfynych y taniai ffrwydron yn ddi rybudd. Er hynny profiad digon cynhyrfus oedd tanio’r ffiar cyntaf a digon crynedig oedd fy llaw innau yn taro tân ar ben y cortyn ar y dechrau. Arferiad fodd bynnag a orfu a buan daeth hynny yn ran gyffredin o’r gwaith.

Edrychwn ymlaen at gael bargaen yn awr. Uchafbwynt pob jermon, a gobeithiai am fargen dda am fod posib ennill cyflog sylweddol ohoni. Rhaid oedd symud o New York i’r Bonc Fawr a chawsom fargen dda yno. Rhaid oedd i mi symud i’r wal fodd bynnag am fod dau bartner profiadol arall wedi gosod gyda ni yn awr ac un sef Owen Morris yn ddyn twll. Naddu i’w dad oeddwn i ac roedd yn gymeriad clen ac yn hollwr mawr felly roedd rhaid naddu fel ffamia i gadw’r pentwr i lawr. Oherwydd fod y cerrig yn freision cawsem wneud cerrig sbesial h.y. rhai o fesur mwy na’r cyffredin. Y fantais fawr gyda’r rhain oedd fod pris da arnynt ac nad oedd angen eu cludo i’r cwt peilio. Yn hytrach deuai marciwr gyda llwythwr a wageni i’w llwytho yn syth o’r wal. Haeddais lawer i werth punt y dydd o gerrig bryd hynny a chawn dâl iawn gan yartneriaid ar ben fy nghyflog.

Dibynem ni y jermyn ar drugaredd ein partneriaid i roddi cyfri mawr i ni h.y. y wobr dros ben isrif cyflog, ac mae’n rhaid dweud fod rhai chwarelwyr wedi bod yn grintachlyd iawn at Jermyn tra roedd eraill yn hael eu gwobr.

Wrth i’r Jermyn symud o un fargen i’r llall byddent yn gweld llawer o ddulliau a chynlluniau o weithio. Yr oedd bargeinwyr yn fwy cynnil yn gweithio eu cerrig na’r lleill. Eraill gyda dull twtiach o weithio eu bargaen. Os byddai jermon yn un go ddeallus gallasi bigio’r pwyntiau gorau ymhob bargaen. Y cyngor gorau a gefais i ydoedd fod cymaint o ymdrech gan hogiau’r twll i ennill clwt bach ag ydoedd i gael y piler gorau, ac felly y dylasai’r patrneriaid y wal barchu’r cwbl. Yn sicr deuai’r cyngor yna gartref i mi pan welswn y dynion rhaffau yn y dyfniau mawrion.

Yr oedd rhai adrannau o’r chwarel lle roedd y ponciau wedi rhedeg yn ddyfn. Gallasai hwnnw fod tua 400 troedfedd o ddyfn, ac er mwyn diogelu hwnnw byddai rhaid gollwng dyn ar raff fawr i llneu’r clogwyn. Byddai wyth dyn yn dal y rhaff ar ben y dyfn ac un arall efo fflag yn rhoddi gorchymyn y rhaffwr iddynt trwy arwyddion ei fflag h.y. trwy godi neu ei ddal yn llonydd. Yr oedd angen dewrder a medr anarferol yn y gorchwyl hwn. Nid oedd y dyfnderoedd yn amharu dim arnynt ac roedd eu cyfraniad a’u barn yn rhan hanfodol i redeg y chwarel. Hwy oedd yn archwilio ac yn rhoddi barn ar ddiogelwch yr adrannau cyfain. Dyma’r dyfnion mawr yn Ninorwig.

Hafod Wen – O ben Y Ceiliog Mawr i lawr. Huw Penri Williams oedd y cyntaf i mi ei gofio yn rhaffu yno. Yna John Morgan, Owen Morris a Rhys Owen.

Sinc Braich Bach - roedd tad T.R. hughes yn gweithio, Dafydd Roberts, Ifor Green a Griffith Williams. Cofiaf yn dda am hanes Ifor Green pan daniodd powdwr arno yn Sinc Bach a hen ŵr ei dad efo criw dal rhaff. Codwyd y rhaff yn araf a phawb ofn sbio i weld sut olwg fyddai ar Ifor druan nes daeth ei ben i’r golwg dros yr ymyl. Yr oedd yn ddu fel y fagddu a’i lygaid yn sgleinio’n wyn a’i ddillad yn grybinion. Ar wahan i hynny doedd Ifor ddim gwaeth ac roedd yn y rhaff wedyn ymhen dim. Credaf nad oedd gan Ifor nerf yn ei gorff.

Sinc California a’r Negro – Hon oedd libart hofiau Nant Peris ac roedd yn libart arbennig. Yr oedd y rhan fwyaf o’r dynion twll yma yn rhaffu – Tom, Guto a Dafydd Closs – tri brawd. Morys William yr Hafod, Owen Ifan Talgae, Emrys Griffith Ty’n Llan a Huw Williams Penllyn. Gwelais Huw Williams yn neidio dros fwlch yn clogwyn Hafod Owen unwaith uwchben yr holl ddyfn rhag iddo orfod cerdded yr holl ffordd nôl.

Y Giarat a thop y tir - Yma hefyd roedd nifer o raffwyr medrus- Robert Jones Cae Corniog, John Roberts (John Dibyn), Owen Williams, Richard Robets (Betws), John Harries, Meiron Evans, Huw Davies Jones, Hugh John Morris, William Parry (Tad Gwenlyn Parry), John Cae Corniog a Glyn Harries.

Mae’n debyg fod llawer eraill nad wyf wedi eu nodi. Diffyg côf yw hynny.

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar y 15 Hydref 2019

Ysgol Gynradd Llanrug

Derbyniwyd cyflwyniad gan Mrs Rhian Whiteside-Thomas ar ran Ysgol Gynradd Llanrug yn chwilio am gefnogaeth y Cyngor Cymuned pan mae'r ysgol yn gwneud cais am grantiau ayyb. Esboniodd ei bod yn ddisgwyliedig i blant fynd allan i chwarae y dyddiau yma, ond nid yw hyn yn bosib yn Llanrug pan mae'r tywydd yn ddrwg. Mae'r ysgol yn ceisio gwneud ceisiadau am grantiau ac un o'r amodau, yn aml, yw fod y gymuned yn cefnogi'r cais. Diolchwyd am y cyflwyniad a chytunwyd i gefnogi unrhyw gais mae'r ysgol yn ei wneud am grantiau.

Cyngor Cymuned Llanrug am anelu i fod yn Gyngor gyda grym cymhwysedd.

Adroddwyd fod y Cadeirydd a'r Clerc wedi mynychu cyfarfod o Un Llais Cymru yn ddiweddar ac un o'r oblygiadau sydd yn mynd i ddod ydi fod angen i gynghorau cymuned a thref ddewis os am fod yn 'Gyngor gyda Grym Cymhwysedd'. Yn 2018 fe wnaeth panel adolygu annibynnol 47 o awgrymiadau ar gyfer newidiadau i'r ffordd mae cynghorau cymuned a thref yn gweithio yng Nghymru. Bellach mae'r Gweinidog wedi cydnabod y bydd yr anghenion canlynol yn symud ymlaen ar gyfer eu cyflwyno mewn deddfwriaeth yn fuan.

1..Adroddiad Blynnyddol gorfodol ar gyfer pob cyngor
Mae hyn yn ffordd i ymgysylltu a'r gymuned ac i hysbysu trigolion o beth mae'r cyngor yn ei wneud ar eu rhan. Bydd aelodau yn cofio i'r cyngor yma basio y byddem yn cynhyrchu pamffled i'w dosbarthu i drigolion Llanrug a Cwm y Glo cyn diwedd Mawrth 2020.

2..Grymoedd Cymhwysedd
a) Mae'n rhaid fod dau draean o'r aelodau wedi eu hethol. Mae Llanrug yn cwrdd a hyn oherwydd mae 12 aelod wedi eu hethol (does dim rhaid sefyll etholiad) a dau wedi eu cyfethol;
b) Mae'n hanfodol fod gan y clerch gymhwyster addas, e.e. CiLCA . Mae Llanrug yn cwrdd a'r maen prawf yma;

3..Hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob cynghorydd
Bydd yn orfodol i pob cynghorydd fynychu hyfforddiant. Mae hyfforddiant yn debygol o fod (ond nid yn gyfyngedig i), y Cod Ymddygiad, Y Cyngor fel corff, gweithio gyda cynghorau eraill sydd yn cynnwys Cyngor Gwynedd neu gynghorau cymuned cyfagos. Penderfynwyd i symud ymlaen a sicrhau fod Cyngor Cymuned Llanrug yn cwrdd a'r meini prawf priodol ar gyfer bod yn gyngor cymuned gyda cymhwysedd

Adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Cyngor Gwynedd)
Gwasanaeth bwisiau:

Bu ymgynghoriad yn ddiweddar ar y defnydd o fysiau a beth fyddai colli bws yn olygu i'r trigolion. Y syniad ydi trio trefnu'r gwasanaeth yn well, fel bod y bysiau yn rhedeg i siwtio lle mae hynny yn bosib. O bosib gwneud defnydd o fysiau llai a thacsi, ond ar yr un gost i'r defnyddwyr. Cynllunio:

Mae Cyngor Gwynedd wedi comisiynu arbenigwr i weld oes modd rheoli'r gwerthiant tai fel tai haf neu Air B&B unai drwy'r system

Cynllunio neu Drwyddedu. Maent yn mynd i edrych ar y math o drefniant sydd yn ei le mewn gwledydd eraill.

Adeilad Ysgol Cwm y Glo

Bydd y Cyngor Sir yn ysgrifennu at aelodau diwethaf o Bwyllgor y Neuadd i amlinellu eu bwriad i greu les newydd hefo Menter Fachwen. Os nad oes gwrthwynebiad byddant yn cysylltu hefo'r Cyngor Cymuned i sicrhau eu bod yn fodlon ildio'r lês bresennol, ac wedyn symud ymlaen i drafod a chreu lês newydd hefo Menter Fachwen. Bydd y lês yn cynnwys cymal yn dweud bydd rhaid caniatáu defnydd cymunedol o'r adeilad hefyd.

'Bund' yn myyl y cae chware yn Cwm

Adroddwyd fod y gwaith o godi'r bwnd wedi digwydd o'r diwedd a ddylai osgoi llifogydd i gefnau tai Stryd y Llyn.

Cynllun Dol Afon

Mae'r Cyngor a Chymdeithas Tai Adra wedi cytuno ar gynllun y byddant yn gyd ariannu, ond i wireddu'r cynllun mae rhaid symud un o bolion Scottish Power, ac mae nhw eisiau crocbris i'w symud.

Llwybr aml-ddefnydd o Llanrug i Pontrug

Mae'n ymddangos y bydd yn cael ei wneud fel rhan o'r cynllun ffordd osgoi newydd. Mae'r Cyngor Sir yn awyddus i gael llwybr aml-ddefnydd i redeg o Llanberis i Gaernarfon.

Adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones (Cyngor Gwynedd)

Hafan Elan:

Cafwyd agoriad swyddogol y ganolfan gymdeithasol ar ei newydd wedd ar 10 Hydref. Mae bron i 40 mlynedd wedi mynd heibio ers i'r ystâd agor ym 1980.

Llwybr Cyhoeddus Ogwen i Ffordd Glanffynnon

Mae Cyngor Gwynedd wedi atgyweirio'r wal sy'n dal y llwybr i fyny ger Ogwen. Roedd y wal gerrig a sylfaen y llwybr wedi disgyn i'r afon mewn un lleoliad. Felly, unwaith eto, mae'r llwybr yn ddiogel i gerddwyr.

Cais am grant

Penderfynwyd i roi grant o £750 tuag at Eco'r Wyddfa

Y wal rhwng yr hen bost ac Ysgol Brynrefail

Adroddwyd fod nifer o gwynion wedi'i derbyn ynglyn a chyflwr rhai o'r waliau sydd gyda thyfiant sylweddol arnynt s'y'n amharu ar weledigaeth trafniadaeth. Nodwyd fod ceir yn cael eu crafu gyda gordyfiant. Nodwyd ymhellach fod cyflwr y wal, o gyfeiriad y sgwâr tuag at Ysgol Brynrefail yn ddrwg a'i fod yn bylchio. Mae hyn eisoes wedi ei ddwyn at sylw Cyngor Gwynedd. Penderfynwyd i gysylltu a Chyngor Gwynedd ar fyrder i leisio pryder am y sefyllfa, yn enwedig am y wal.

Cais am gefnogaeth gan y Cyngor Cymuned ar gyfer cynllun adeiladu

Adroddwyd fod cais wedi dod i law ar ran adeiladwr am gefnogaeth y Cyngor Cymuned am gais cynllunio ar gyfer codi tai yn Llanrug. Penderfynwyd yn sgil diffyg gwybodaeth am y cynllun, i gysylltu a'r adeiladwr i drefnu cyfarfod gyda ef i geisio rhagor o wybodaeth.

Y Clwb ieuenticid

Adroddwyd fod nifer dda o blant wedi cofrestru gyda'r clwb ieuenticid a bod trydydd person bellach wedi ei apwyntio i weithio yn y clwb. Mae staff y clwb yn paratoi ffigyrau o ble mae'r plant yn dod a bydd y Clerc yn cysylltu a chynghorau cymuned cyfagos i ofyn os buasent yn ystyried cyfrannu tuag at gostau'r clwb yn sgil fod aelodau yn mynychu o'r ardaloedd hyn.

Y meysydd chwarae

Adroddwyd fod ffens ar gae chwarae Nant y Glyn wedi diflannu a bod plant yn mynd lawr y dibyn i chwarae a'i fod yn berygl. Penderfynwyd i drefnu i gyfarfod ar y safle i weld beth ellir ei wneud.

CEIR CYMRU



Diolch am Gefnogaeth ein Cwsmeriaid yn Eryri dros 25 Mlynedd

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451



Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau Cyngor Llanddeiniolen

Cofnodion Cyfarfod y 1af Hydref
Ymweliad gan Tim Opsiynnau Tai
Pleser oedd croesawu Mr. Arwel Wyn Owen, Pennaeth Cynorthwyol Tai a Llesiant.
Roedd gwahoddiad wedi ei roi i Arwel ddod i drafod ac i roi braslun ar y drefn o osod Tai Cymdeithasol yn yr ardal.
Hyfforddiant
Nos Fercher diwethaf, derbyniodd aelodau'r Cyngor Cymuned hyfforddiant dan arweiniad Mr Owain Wyn. Diolch yn Fawr iawn iddo am ei arweiniad da. Cafwyd esboniad ac engrefftiau ar be y dyliwn wneud wrth ymateb i geisiadau cynllunio.
Cofnodion Cyfarfod 3ydd Fedi 2019
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir
Materion o'r cofnodion
Cae'r Foel, Dinorwig - Yn dilyn gyrru at Cyngor Gwynedd am ymateb i'n cwyn ynglyn a'r adeilad yma, derbyniwyd llythyr gan adran Cynllunio. Nodwyd fod aelod o tim gorfodaeth wedi bod mewn cysylltiad a'r perchenog, ond bod y broses yn gallu bod yn hir, ond am drio dilyn i fyny er mwyn dod a'r mater i ben. Teimlwyd fod yr ymateb yn eitha gwan, ond penderfynwyd aros am rhyw ddau fis i roi amser i'r adran ceisio datrys y broblem, neu dod i ryw gytundeb
Tan y Buarth - Dal i ddisgwyl ymateb gan y Cyngor Sir. Mae'r clerc wedi gyrru i atgoffa y Cyngor Sir am y sefyllfa ar y pafin, bydd yn dilyn i fyny eto mis yma i geisio cael ymateb pendant gan Cyngor Gwynedd.
Gohebiaeth a materion eraill
Cysgodfan Bws Penisarwaun - Mae'r llwybr o gwmpas y cysgodfan bellach wedi ei osod fydd yn sicrhau llwybr mwy diogel i'r cysgodfan o hyn ymlaen.
Cynllunio
Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:
Maes y Ffynnon, Bethel - Newid amod rhif 1 o ganiatad cynllunio er mwyn diwygio dyluniad y ty.
Fferm Tros y Waen - Codi Sied
Pendyffryn, Dinorwig - Codi modurdy newydd ac anecs
Penrallt, Brynrefail - Estyniad dau loft. d
Adroddiad Ffurflen Flynyddol
Derbyniwyd y Ffurflen flynyddol yn ôl gan yr archwilwyr allanol. Newyddion da ar sail adolygiad archwilio, mae'r wybodaeth yn y Ffurflen Flynyddol yn cydymffurfio ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i sylw'r archwilwyr sy'n peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni. Tynnwyd sylw at argymhellion yr archwilwyr mewnol. Cytunwyd ein bod wedi gweithredu yn barod neu yn y broses o weithredu ar yr argymhellion hynny,

Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol yn unfrydol, a diolchwyd i'r clerc am ei gwaith trylwyr eto eleni yn dilyn y broses yma.

Ceisiadau Ariannol 2019

Derbyniwyd 16 cais am gymorth ariannol eleni. Mae amodau'r ceisiadau cymorth ariannol yn gofyn am Fantolen Ariannol wedi ei archwilio. Y rheswm am hyn ydi bod yn rhaid i'r Cyngor gydymffurfio a gofynion archwilio, ac nid oes posib i'r Cyngor roi cymorth ariannol i ddim un cymdeithas heb dderbyn hyn. Daeth 3 cais i law heb fantolen eleni. Cytunodd y Cyngor i neilltuo cyfraniad i'r cymdeithasau hynny, cyn belled fod y clerc yn derbyn mantolen ariannol o fewn wythnos i'r cyfarfod. Bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld a'r Sir yn 2021. Mae'r Cyngor felly yn ôl yr afer yn cyfrannu £1000 ar ran yr ardal tuag at yr Wyl. Penderfynwyd rhannu hyn dros 2 flynedd. Felly penderfynwyd clustnodi £500 eleni a £500 y flwyddyn nesaf o'r cyllid rhoddion i hyn.

Penderfynwyd rhannu arian i'r mudiadau eraill fel a ganlyn:

Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen	300.00
Eisteddfod Bentref Penisarwaun	300.00
Eisteddfod Bentraf Bethel	300.00
Pwyllgor Neuadd Penisarwaun	300.00
Neuadd Bentref Rhiwlas	300.00
Clwb Snwcer Deiniolen	200.00
Clwb Bowlio Dan do Bethel	200.00
Clwb Tennis Bwrdd Rhiwlas	200.00
Clwb Rhiwen Rhiwlas	200.00
Clwb Pensynwyr Penisarwaun	200.00
LLais Ogwan	50.00
Clwb Bro Bethel	200.00
Clwb Pel Droed Ieuenctid Bethel	200.00
Cylch Meithrin Bethel	150.00
Cynllun Efe	150.00
Mish Mash Bethel	150.00
Eisteddfod Genedlaethol	500.00

O gwmpas y Bwrdd

Rhiwlas - Golau yn y Kiosk ddim yn gweithio. Clerc i gysylltu a'r trydanwr.

Penisarwaun - Angen bin wrth ymyl y cysgodfan Bws

Bethel - Tyfiant drosodd o dir y fferm Llwyn Bedw yn tyfu dros llwybr yr hen rheilffordd - cysylltu a'r trefeddiannwr.

Deiniolen - Dwr yn llifo lawr y lon allan o'r tarmac ar lon Garnedd. Cysylltu a Prifffyrdd.

Ty Mawr Cottages - Dilyn fyny y cwyn i rheolaeth cynllunio.

Hen Glybiau Ieuenctid - Gyrru eto ynglyn a trosglwyddo y balansau.



Asesiad a thriniaeth arbenigol a fforddiadwy ar agor nawr.

Specialised and affordable assessment and treatment available.

Cysylltwch am fwy o fanylion
Contact for further information:

Facebook: @ffisioeryriphysio

Ebost / E-mail: info@ffisio-eryri-physio.co.uk

Ffôn 07387390465

Canolfan Ddringo Beacon Climbing Centre

Stâd Diwydiannol Cibyn Industrial Estate

Caernarfon, LL55 2BD

www.ffisio-eryri-physio.co.uk



Royal Victoria Hotel LLANBERIS

www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

TUDALEN YR IFANC

Cynhyrchu o'r Copa



Ar ddydd Gwener y 15fed o Dachwedd bu plant ar hyd y fro yn gwisgo pajamas, dillad eu hunain neu wisg ffansi i'r ysgol i godi arian i blant mewn angen. Ond un ymgymrodd a her ychydig yn wahanol oedd y cyflwynydd Radio Cymru, Aled Hughes, a gerddodd i fyny'r Wyddfa bum niwrnod yn olynol. Un a ymunodd ag Al yn y gwynt, glaw, eira a rhew, oedd Gethin Griffiths o Fethel. Dyma ei hanes o gynhyrchu ar y copa;

"Ers dechrau'r mis, 'dw i'n gweithio fel Cynhyrchydd Cynnwys gyda Radio Cymru. Cyn hynny, roeddwn i'n un o ymchwilyr rhaglen Aled Hughes, ac felly dwi wedi bod yn trefnu Her yr Wyddfa ers rhai misoedd bellach.

Bob blwyddyn, mae Aled yn ceisio cyflawni her i godi arian ar gyfer Plant Mewn Angen. Ar gefn ei feic oedd o yn 2016 a 2017, ac yna flwyddyn ddiwethaf, mi geisiodd o hel gymaint o 'bawennau llawen' oedd yn bosib ar hyd a lled y wlad. Eleni, roedd y criw eisiau her gorfforol wahanol, a dyma benderfynu ar Her yr Wyddfa! Mae ymarfer corff a chadw'n ffit wedi bod yn ddiddordeb newydd i mi dros y blynyddoedd diwethaf, ac felly mi'r oeddwn i'n hynod awyddus i gael bod yn rhan o'r holl beth - yn enwedig gan ei fod ar gyfer achos mor deilwng.

Yr her fwyaf i mi oedd gwneud yn siŵr ein bod ni'n creu rhaglenni o werth tra hefyd yn cyflawni her gorfforol. Roedd yn rhaid gwneud yn siŵr ein bod ni'n recordio sgrysiâu difyr yn enwedig, a chofnodi'r hyn oedd yn mynd ymlaen. Mi 'roedd yna westeion amrywiol yn ymuno â ni bob dydd, ac felly roedd hynny'n helpu wrth gadw'r holl beth yn ffres, ac i roi hwb ychwanegol i ni wrth i'r wythnos fynd yn ei blaen.

Er bod cyrraedd caffi Pete's Eats ar y diwrnod olaf yn uchafbwynt amlwg, yr hyn fydd yn aros yn fy nghof am byth fydd cyrraedd y copa yn y tywydd eithafol ar y dydd Mawrth. Diolch i Stephen 'Joey' Jones, yr arweinydd mynydd, mi lwyddodd o i'n cael ni i'r copa yn saff bob dydd, yng nghanol gwynt, rhew ac eira trwchus. Mi'r oedd yn rhaid i ni ddysgu technegau mynydda yn sydyn, ac mae rhywun yn teimlo'n hynod lwcus o gael dysgu gan un o'r goreuon.

Un o'r pethau olaf y dywedais i wrth Joey oedd 'wela' i di'n fuan iawn'. Roedd o'n od iawn meddwl nad oeddwn i am gerdded yr Wyddfa eto ar y dydd Sadwrn, ar ôl wythnos o'r fath! I ddygymod â hynny, mi benderfynais i fy mod i am wneud y mwyaf o'r tirwedd anhygoel sydd o'n cwmpas ni, a dysgu mwy am fynyddoedd Eryri. Wela' i chi ar y mynydd rhyw ben!"

OPENISARWAUN ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

Diolch

Dymuna Alice a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn ystod eu profedigaeth o golli Gŵr, Tad a Thaid annwyl; Dafydd Morris, Cae'r Waun. Diolch i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth ac i Dr Geraint Roberts a'r staff Meddygfa Cae Heti, Llanberis, am eu gofal arbennig. Diolch hefyd i Meinir o gwmni Dylan Griffiths, Tros y Waun, am ei chymorth ac am trefniadau trylwyr. Trosglwyddwyd rhoddion a dderbyniwyd at gronfa "Cancr y Prostad". Diolch o galon i bawb.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Tynnwyd Clwb Cant Rhagfyr a'r enillwyr oedd Katy Williams, a Marina Jones.

Rydym mor falch bod Phyllis, Cadeirydd y Pwyllgor, wedi gwella wedi arhosiad yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithir cynnal pnawn i ddathlu'r Nadolig ar y cyd â phlant yr Ysgol Gymuned cyn i'r ysgol gau am y gwyliau - manylion yn y rhifyn nesaf. Dymunir diolch i aelodau'r Pwyllgor ynghyd â ffrindiau am stiwardio yn y glaw ym Mhen y Pas fore Marathon Eryri. Deallir nad oedd lle i barcio i Gwenllian Carr a'r hogiau - rhaid gofyn am le parcio (cadw) i'n stiwardiaid y flwyddyn nesaf.

Cinio Nadolig y Pensiynwyr Byddwn yn mynd i Westy Buckley, Biwmares ar Sadwrn, Rhagfyr 13. Bydd y bws yn cychwyn o flaen yr Ysgol Gymuned am 12.45.

Pêl Bonws Yr enillydd oedd Alice Morris, Cae'r Waun, gyda rhif 32. Llongyfarchiadau i chi, Alice, a chofion annwyl atoch.

Gwellhad Anfonir ein cofion anwylaf at bawb sy'n sâl yn y pentref gyda dymuniadau am adferiad iechyd buan i Phyllis Elis, Rhosfair, ac i Elwyn, 6 Llys y Gwynt, y ddau wedi cael triniaeth yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion annwyl hefyd at Betty Pritchard, sydd yng Nghartref Bryn Meddyg, Llanaelhaearn.

Diffibrilyddion Mae pedwar diffibrilydd yn y pentref erbyn hyn. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch am yr ymateb anhygoel ac am y cyfraniadau hael o dros £6,000 tuag at yr ymgyrch amhrisiadwy hon, Bwriedir cynnal gwersi i ryw 15 ar y tro ar sut i ddefnyddio'r peiriannau yn fuan iawn. Hysbysebwr y dyddiadau drwy'r Eco neu nodyn.

Ysgol Sul Undebol Bosra Fore Sul, Tachwedd 10fed, cynhaliwyd bore o gofio am y dewrion a syrthiodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail. Cafwyd hanes Hedd Wyn a chafwyd gweddi wrth y Gofadail sydd ar fur yr ysgol i gofio am hogia'r pentref hwn. Am 10.45 fe ymunodd y plant â'u rhieni gyda aelodau Eglwys Santes Helen wrth y Gofeb a chafodd y plant gyfle i osod croes fach o flaen y Gofeb a chafodd Nel osod torch wrth droed y Gofeb. Dymunir diolch i aelodau'r Eglwys am gael ymuno mewn achlysur mor ddwys a theimladwy.

Diolch i Sharon Cunningham am helpu fore Sul, Tachwedd 17; roeddem mor falch o help Ela, cyn-aelod ffyddlon o'r Ysgol Sul yn ymuno i gynorthwyo hefyd. Ar Ragfyr 8fed byddwn yn ymweld â Siôn Corn yn ei Groto yn Safle Rheilffordd Llanberis. Pawb i fod yno erbyn 11.15. Oedolion: gellir cael tocyn yn y Siop am y Pris o £10. Os oes plant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul yn dymuno ymuno, y pris yw £10 (yn cynnwys anrheg) i blant o 4 i 15 oed. £4.50 i blant dan 5 oed.

Anfonwn ein cofion anwylaf at Anti Liz. Rydym yn colli eich cwmni rhadlon. Gobeithio y cewch anrheg Nadolig amhrisiadwy o glun newydd. Da clywed am ganlyniadau gwych Yncl Eric.

Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn ar y Sul wedi i'r Ysgol ailddechrau. Felly, Nadolig Llawn Hwyl i chi blant.

Cyfarchion Nadolig Dymuna Arnold a Pat Jones, Waun, Nadolig Llawn i bawb. Ni fyddant yn anfon cardiau ond yn hytrach anfonir rhodd i'r Ambiwylans Awyr.

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiâu ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS



Ar ben arall i'r lein

Adroddiad y Cadeirydd 2019

Ysgrifennaf ym mis Hydref, a'r hen dymor traddodiadol ar ben. Ond mae cyfle o hyd i daflu pluen ar yr Afon Seiont am eog. A Llyn Dywarchen ar gael i bysgotwyr ymestyn tymor 2019 hyd ei eithaf. Ond mae'n debyg bod newidiadau ar y gorwel fydd yn cael effaith ar bysgotwyr sydd am fwynhau'r gamp dros y blynyddoedd sydd o'n blaenau.

Wedi tymor sych 2018, roedd tywydd eleni yn fwy at flas y pysgod a'r pysgotwyr. Gyda'r afonydd yn llawn o'r dechrau, daeth brithyll i law ar bnawniau cynhesach ym mis Mawrth ac Ebrill. Bu pysgota llwyddiannus ar gychod Padarn yn yr wythnosau cyntaf, ac ar nosweithiau'r haf.

Wrth i'r gwanwyn ymestyn cafodd aelodau ac ymwelwyr hwyl ar ein dyfroedd eraill yn cynnwys Cwellyn a Nantlle. Ac, unwaith eto, bu pysgota o safon uchel drwy'r tymor ar Lyn y Dywarchen. Roedd y tywydd yn ffafriol, a llwyddiant gyda physgod niferus a chryf, oedd yn plesio ar y bachiad ac wedyn yn y badell. Mae'n defnydd o'r llyn yn ymestyn drwy'r haf bron at ddiwedd y flwyddyn. Bu rhywfaint o bysgota anghyfreithlon unwaith eto, ond dim cymaint ac yn y gorffennol. Mae diolch i'r criw aelodau sydd yn gweithio'n galed yn trefnu a chyflawni'r stocio a chynnal y cychod, y cwt a'r camfeydd. Ym mis Gorffennaf cynhaliwyd cystadleuaeth bysgota ar gyfer ieuencid rhai o ysgolion uwchradd yr ardal a chafwyd diwrnod i'w gofio, a diolch i'r aelodau a fu wrthi yn helpu.

Roedd pythefnos o wres mawr ar ddechrau'r haf ond wedyn daeth dŵr, a chlywyd bod y sewin wedi dechrau rhedeg. Yn ôl y sôn roedd pysgod yn doreithiog ym mhyllau isaf yr Afon Llyfni, a bu pysgota llwyddiannus yn ystod yr haf ac at ddiwedd y tymor. Ac unwaith eto eleni, daeth y sewin yn eu holau i'r Seiont. Yn ystod y cyfnod poethaf ym mis Gorffennaf, roedd heigiau o sewin yn fflachio yn nyfnderoedd rhai o'r pyllau nodedig rhwng Glan Gwna a Llyn Crwn. Daeth glaw a dŵr i'w symud ymlaen a physgotwyr oriau'r dydd a'r nos yn bachu a dal ar hyd yr afon o Lyn Garnage hyd at Rhyd Mawr ym Mhen Llyn. Ar fin nos roedd prysurdeb mawr ger y ddeorfa yng Nghrawia, a noson heb gynnig yn beth prin. Mae'r pysgota sewin cyffrous ar y Seiont bellach yn cadw sawl aelod o lannau'r Llyfni ac yn cyfrannu'n sylweddol at bleser a mwynhad yr aelodau.

A beth am yr eog? Yn sicr roedd 2018 wedi tanlinellu prinder y rhediadau hwyr. Mae sylw cenedlaethol ar yr argyfwng yn niferoedd yr eog sydd yn dychwelyd i'w hafonydd genedigol, a'r daliadau y llynedd yn peri ofn drwy ynysoedd Prydain. Ac eto, gyda llifogydd cyson yn ystod Awst a Medi, bu ambell bysgotwr allan a daeth nifer sylweddol o eogiaid i'r rhwyd, yn wir mwy na'r disgwyl. Dyma'r hanes ar afonydd cyfagos hefyd. Ond pysgod wedi rhedeg yn ystod yr haf oeddynt, a phrin oedd llau môr i'w gweld. Efallai bod mwy o bysgod yn dod i'r afon ar ddechrau'r haf nag yr oedden ni wedi ei sylweddoli, a'r dŵr yn rhoi cyfle i'w dal. Cafodd sawl aelod eog o'r Seiont, ac un neu ddau o'r Gwyrfaï hefyd, lle gwelwyd mwy o bysgod yn rhedeg nas gwelwyd ers rhai blynyddoedd.

Roedd rhai wedi chwilio am dorgoch yn Llyn Padarn ond chlywais i ddim am lwyddiant arbennig. Mae'r rhan fwyaf o hawliau glannau Padarn yn nwylo'r Gymdeithas, a rhan sylweddol o hawliau'r wyneb hefyd. Rydym wedi ceisio cytundeb efo Cyngor Gwynedd (drwy Parc Padarn) ar delerau er mwyn i ni gael parhau i gynnig pysgota'r llyn i aelodau ac ymwelwyr, ond yn anffodus mae'r drafodaeth wedi mynd yn hirwyntog heb benderfyniad. Mae rhai dan yr argraff bod posib pysgota heb hawl na thaliad yn hytrach na chefnogi'r Gymdeithas, a hyd yma nid yw agwedd y Cyngor yn ddim mwy cefnogol chwaith.

Mae cymaint o drafod wedi bod ynglŷn â'r is-ddeddfau sydd wedi eu hargymell can Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2020. Nid yw'r corff yma wedi cael perthynas hawdd efo genweirwyr ein gwlad ers ei sefydlu. Rydym ni wedi arfer cydweithio efo swyddogion pysgodfeydd yr ardal dros flynyddoedd, boed yn trafod a threfnu brosiectau gwella cynefinoedd, neu dynnu sylw at broblemau ar yr afon, ac yn adnabod y ciperiaid, er mor anaml y byddant ar lan yr afon. Ac yn sylweddoli, wrth gwrs, bod cwtogi ariannol yn rhwystredig i'r swyddogion, sydd llawn mor frwdfrydig am warchod iechyd y dyfroedd ac y mae ein haelodau.

Ond yn uwch i fyny strwythur CNC mae'n amlwg bod rhai o swyddogion a bwrdd rheoli CNC yn dallt dim am bysgota na physgodfeydd na'r pethau pwysig sydd yn poeni'r union bysgotwyr y mae CNC i fod yn eu cefnogi. Bwriad CNC oedd ymgynghori gyda physgotwyr cyn cyflwyno'r newidiadau, oedd yn cynnwys dal a rhyddhau a chyfyngu ar ddulliau pysgota, er enghraifft defnydd pry genwair i ddal eog. Lleihad yn niferoedd y pysgod mudol sydd y tu ôl i'r rheolau newydd. Mae'n anodd dadlau yn erbyn y datganiad syml bod eog wedi ei ddal a'i ryddhau yn fwy tebygol o gyfrannu at y genhedlaeth nesaf nac y gall eog sydd wedi ei ladd. Ond gyda dros 80% o'r eog a ddaliwyd yng Nghymru eisoes yn cael eu rhyddhau, efallai na fydd llond dwrn arall yn gwneud gwahaniaeth mawr. Ond mwy na hyn yw'r ddadl bod ffactorau amlwg, yn cynnwys llygredd amaethyddol ac o weithfeydd trin carthion, a photsio, yn difa llawer mwy o bysgod, a'r rhai sydd yn gyfrifol am y trosedd yma yn malio dim am yr amgylchedd, na safon dŵr, na physgod y dyfodol. Ni, y pysgotwyr sydd mwy na neb yn awyddus i'r eog ffynnu. Ni, y pysgotwyr sydd yn adrodd ar bysgota anghyfreithlon a llygredd, gan mai ni sydd yn cerdded y glannau ar hyd y flwyddyn. Ond yn hytrach na thrafod a chyd-benderfynu, cafwyd ymchwiliad cymhleth ar ddechrau 2019. Roedd gweithlu CNC yno yn swyddogol, a theithio a llety wedi ei dalu amdano gyda arian cyhoeddus. A'r pysgotwyr a aeth ar ein rhan ni yn mynd yn eu hamser ac ar gost eu hunain pob dydd. Dywedodd y rhai a fu yno bod y gwirfoddolwyr yma, ar ran ein clybiau a'n pysgodfeydd-y rhan fwyaf yn fudiadau cymunedol, hanesyddol fel ein clwb ni, wedi gorfod ateb am ddwy awr neu fwy tra bod dau fargyfreithiwr ar dâl CNC yn ceisio'u baglu a'u dirmygu. Trafod a chydweithio at y dyfodol? Mae'r berthynas rhwng genweirwyr a CNC wedi suron sylweddol bellach.

Bydd gwahardd defnydd traddodiadol y pry genwair (am eog) yn golled yng Nogledd Cymru, yn arbennig efallai i bysgotwyr ifanc sydd ar ddechrau'r daith. Ac er bod cymaint yn dewis rhoi'r eog yn ôl yn yr afon, mae gorfodaeth yn mynd yn erbyn y graen. Mae'n debyg bydd rhai yn rhoi'r gorau i'r gamp, ac aelodaeth clybiau pysgota yn lleihau. Heb incwm i dalu rhenti, mae rhai clybiau yng Ngwynedd mewn peryg o fynd i drafferthion. Bydd llai o bysgotwyr yn crwydro'r glannau. Mae cipar CNC ein hardal yn ymddeol ar ddiwedd 2019, a dim bwriad penodi un yn ei le. Mae ei gydweithiwr hŷn bellach ar ddyletswydd swyddfa, a dau swyddog neu "gipar" yn gwyllo'r dyfroedd o bellteroedd Môn i'r Afon Dyfi. Pwy fydd yn plismona'r potsiwr? A phwy fydd yn plismona'r rheolau newydd sydd am achub yr eog? Er gwaetha'r ansicrwydd rydym yn falch iawn o'r gefnogaeth gan ein haelodau, ac erfyniaf arnoch i barhau i gefnogi'r Gymdeithas.

Bu newid o fewn y clwb hefyd, a diolchaf i'r trysorydd newydd am dderbyn y swydd ac am ei waith yn ei chyflawni mor drefnus yn ystod ei flwyddyn gyntaf.

Diolchaf ar eich rhan i bawb sydd wedi cyfrannu at weithgareddau'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, y cyfarwyddwyr ac aelodau'r pwyllgor, yn ogystal â'r rhai sydd yn weithgar tu ôl i'r llenni yn clirio a chynnal y glannau, y ddeorfa a'r cychod.

Hoffwn ddiolch yn arbennig ar ddiwedd y flwyddyn i'r ysgrifennydd am ei waith yn 2019.

Ar ran y Pwyllgor a'r swyddogion hoffwn gynnig y dymuniadau gorau i chi a'ch teuluoedd dros y Nadolig a'r flwyddyn Newydd a phob hwyl gyda'r enwair yn 2020.

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

Cynllun Efe

‘Be ydi Cynllun Efe?’ meddai rhywun wrthyf yn ddiweddar.

Roedd yn gwestiwn rhyfedd i'r rhai ohonom a fu'n rhan o'r gwaith hwn ers bron i 15 mlynedd. Yn gynnar yn 2005, soniodd y Parchg Dafydd Hughes wrthyf am ei awydd i gael gweithiwr ieuencid i eglwysi'r ardal hon. Gwahoddodd yr eglwysi i drafod y mater yng Nghapel y Rhos nos Fercher, Ebrill 20 y flwyddyn honno. Roedd yno 13 ohonom y noson honno (ac yn rhyfedd iawn 13 oedd yn y Cyfarfod Blynyddol yng Nghapel y Rhos ar Hydref 15 eleni). Penderfynwyd mentro, ac anfonwyd holiadur at yr eglwysi yn enw 'Pwyllgor Cynllun Gweithiwr Ieuencid Cristnogol Dalgylch Eco'r Wyddfa' (llond ceg o enw!). Dros y ddwy flynedd ddilynol, buom yn pwyllgora, gweddio a chodi arian. Erbyn Mai 2017, roeddem wedi cael dau draean o'r arian ar gyfer ariannu'r swydd am dair blynedd. Ym mis Mai 2007 hefyd y newidiwyd yr enw i 'Cynllun Efe' neu 'Efe'; acronym o Efengyl i Fro'r Eco, sy'n crynhoi gweledigaeth yr elusen o gyflwyno Efengyl Iesu Grist o fewn eglwysi'r fro a'r tu allan iddynt (yn cynnwys yn yr ysgolion). Cyflwyno Crist, a cheisio bod o gymorth i ddod â phobl ifanc i'w adnabod fu'r nod, yn hytrach na llenwi seddau mewn unrhyw gapel nac eglwys, er ein bod yn gobeithio y byddai pobl yn cael cartref ysbrydol o fewn eglwysi'r fro.

Ym mis Mawrth 2008, hysbysebwyd swydd gweithiwr ieuencid. Bu raid ail hysbysebu cyn llwyddo i benodi gŵr ifanc o Hwlfordd o'r enw Andrew Settatee. Gan nad oedd yn gwbl rugl ei Gymraeg, yr oedd yn gryn fenter i'w benodi, ond yr oedd yn amlwg fod ganddo awydd dwfn i gyflwyno'r Efengyl yn Gymraeg. Ac o'i ddiwrnod cyntaf gyda ni ym mis Hydref 2008, cyflawnodd ei waith heb erioed orfod troi i'r Saesneg. Aeth tair blynedd arfaethedig y swydd yn wyth mlynedd a hanner, diolch i haelioni ein cefnogwyr: enwadau, eglwysi lleol, ambell i ymddiriedolaeth neu gronfa, cynghorau cymuned ac unigolion. Am y ddwy flynedd olaf cyn i Andrew adael y swydd ddiwedd Chwefror 2017, buom yn cydweithio ag elusen Trobwynt, a golygai hynny fod Andrew'n rhannu ei amser rhwng ein hardal ni a Llŷn ac Eifionydd.

Wedi iddo symud i swydd newydd ym Mhen Llŷn, aed ati i feddwl am olynydd iddo. Trwy bartneriaeth newydd â Chapel Caersalem Caernarfon a Scripture Union crëwyd swydd lawn amser newydd

a olygai ddau ddiwrnod a hanner yr wythnos gydag Efe, diwrnod a hanner gyda Chaersalem a diwrnod gyda Scripture Union. Penodwyd Catrin Hampton o fis Medi 2017 ymlaen i swydd tair blynedd. Roeddem yn ddiolchgar am ei hymroddiad a'i brwdfrydedd hithau. Ac er mor siomedig oeddem pan adawodd hi'r swydd ymhen blwyddyn, deallem yn iawn ei phenderfyniad hi a Corey ei gŵr i dderbyn swyddi ar y cyd mewn cenhadaeth yn Sir Gaerfyrddin.

Heb oedi, hysbysebwyd am weithiwr newydd eto, a'r tro hwn penodwyd rhywun a oedd wrth ein traed. Bu Susan Williams, Ceunant, yn rhan o waith Cynllun Efe o'r cychwyn, yn aelod o'r Pwyllgor, yn Ymddiriedolwr, ac yn Ysgrifennydd. Roedd wedi parhau'r gwaith ysgolion wedi i Andrew adael y swydd ac wedi cydweithio llawer â Catrin. Ers Medi 2018, mae Susan wedi cyflawni blwyddyn ryfeddol o waith yn yr eglwysi a'r ysgolion. Mae'n cynnal gwasanaethau rheolaidd ym mhob ysgol gynradd yn y dalgylch yn ogystal ag yn ysgolion tref Caernarfon. Ymhlith pethau eraill, mae'r gwaith yn yr eglwysi'n cynnwys arwain oedfaon teulu, grŵp CIC (Clwb Ieuencid Cristnogol), a sesiynau 'Crefft, Cân a Stori' i blant a'u rhieni mewn pedwar neu bump o bentrefi. Mae'r cyfan yn adlewyrchu'r datblygiad a fu yn y gwaith dros y blynyddoedd er mwyn cyflwyno'r Efengyl i blant, ieuencid a theuluoedd y fro hon. Adroddwyd am yr holl weithgarwch hwn yn y Cyfarfod Blynyddol.

Ddechrau haf 2019, collwyd un o'r tri phartner wedi iddi ddod yn amlwg na fedrai Scripture Union, oherwydd ei sefyllfa ariannol, barhau i gefnogi'r gwaith. O ganlyniad, mae'r baich ariannol yn amlwg yn drymach ar Gynllun Efe, ond mentrwn ymlaen gan gredu y bydd Duw yn ein harwain ac yn darparu'r adnoddau ar gyfer y gwaith, yn ôl ei gynllun ar ein cyfer, beth bynnag fydd hwnnw dros y blynyddoedd nesaf.

Mae croeso i chi gysylltu â mi am ragor o fanylion am waith Efe (01286 872390). Os medrwch gyfrannu at y gwaith, anfonwch eich cyfraniad at Drysorydd Efe, Mr Clive James, 18 Cae Gwyn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1LL.

John Pritchard, Llanberis

CAPEL Y RHOS LLANRUG

Cyngerdd Adfent

Gyda doniau lleol


Nos Sul, Rhagfyr 1af 2019 Am 6:30 y.h. | Tocyn £5 a Plant £1

Yr elw at Banc Bwyd Caernarfon




Hywel WILLIAMS
ETHOLIAD CYFFREDINOL
SAN STEFFAN 12, Rhagfyr 2019
Llais cryf a lleol dros bobl Arfon a Chymru.
Mae Hywel yn fwy na pharod i herio pleidiau eiltaidd San Steffan, rhai llais i bobl cyffredin, amddiffyn eu buddiannau a brwydro dros eu hawliau. Ei brif flaenoriaeth yw Arfon a Chymru.

Hysgyddwyd gan Gareth Griffith, 17 Bryn y Môr, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4LY ar ran Hywel Williams, Plaid Cymru i Stryd y Castell i Caernarfon i LL55 1SE.



Noson yng nghwmni
Hogia'r Ddwylan
dan arweiniad Iwan Wyn Williams
gyda
Elin Mai Williams
ac
Efan Rees Jones
Cyfeilydd—Steven John Evans
Eglwys Sant Padarn
Llanberis
Rhagfyr 8fed
7:30 yh
Tocynnau ar y drws £8
Neu drwy ffonio:
01286 871423

Ceidwad Y Mynydd



Aled Taylor – Warden yr Wyddfa ac aelod o Dîm Achub Mynydd Llanberis


Tîm Achub Mynydd Llanberis yw'r un prysuraf yng ngwledydd Prydain. Ymunodd Aled Taylor â'r tîm yn 1969 fel gwirfoddolwr gan ymddeol rai blynyddoedd yn ôl. Yn y gyfrol hon, mae'n adrodd ei straeon – peryglon y mynydd, hanesion achub llwyddiannus a'r gwae o orfod dod â chyrff meirw i lawr o'r copaon. Mae'n hen law, ac yn adrodd ei straeon heb ddrama na brafado. Ond mae gennym gymaint i'w ddysgu o wrando arno.

Prosiect Cysylltu Comin a Chymunedau Uwch Gwyrfai:


Ar y 6ed o Ragfyr am 12:45 bydd Sgwrs am draddodiadau coll y Nadolig gyda Twm Elias yn cael ei chynnal yng Nghae'r Gors, Rhosgadfan. Mae croeso i bawb fynychu, ac os bydd y tywydd yn caniatáu bydd taith dywys i ddilyn gan ymestyn y sgwrs i sôn am draddodiadau lleol y Nadolig yn ardal Uwch Gwyrfai

Ar y 18eg o Ragfyr am 6yh bydd Noson Swper 'Dolig gyda siaradwr gwadd yng Nghanolfan y Fron i drigolion dros 65 mlwydd oed. Y siaradwr i'w gadarnhau.

Bydd angen rhoi gwybod i swyddog y prosiect, Dion Roberts, os ydych am fynychu. Ffoniwch 07917651973 i archebu lle ac am fwy o wybodaeth. Bydd y prif gwrs am ddim; pryd 2 gwrs yn £4 a phryd 3 cwrs yn £8.



Taith Liwgar A Chythryblus Dafydd Roberts



Mae'r cerddor a dyn busnes Dafydd Roberts wedi bod i bedwar ban byd, gan ymweld â gwledydd o bob math a chael profiadau rhyfeddol a sawl tro trwstan, fel y tystia ei hunangofiant Ar Daith a gyhoeddir gan wasg Y Lolfa yr wythnos hon. Mae'r gyfrol hefyd yn sôn am ei yrfa gyda chwmni recordiau Sain, sy'n dathlu 50 mlynedd ers ei sefydlu eleni, ac yn ei lyfr mae Dafydd Roberts yn mynegi'n onest iawn ei bryder am ddyfodol y diwydiant cyhoeddi cerddoriaeth yng Nghymru.

Meddai: "Mae'r gwasanaethau ffrydio drwy gwmnïau enfawr megis Spotify ac Apple Music yn tanbrisiu gwaith y cerddorion a'r cyfansoddwyr yn enbyd, yn enwedig cerddoriaeth mewn iaith leiafrifol. Ers i'r Llywodraeth benderfynu peidio ariannu'r Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig (WMF), mae gwagle enfawr wedi datblygu, a does dim un corff bellach yn cynrychioli'r

diwydiant. Yr wyf yn gryf o'r farn mai un o brif ddiffygion y diwydiant cerdd yng Nghymru yw'r ffaith nad oes strategaeth gynhwysfawr gan y Llywodraeth yn edrych ar ddatblygiad y diwydiant yn ei gyfanrwydd."

Ynghyd â'i waith gyda Sain, mae'r hunangofiant yn sôn am ei deithiau niferus gyda'r band Ar Log. Rhennir pob pennod i wlad benodol; Cymru, Llydaw a Ffrainc, Yr Almaen, Y Swistir, Seland Newydd, Chile, Periw, Ecuador a Cholombia i enwi dim ond rhai. Meddai Dafydd: "Mae'n hen ystrydeb i ddisgrifio bywyd fel taith, a thynnu cymhariaeth rhwng y ddeubeth, ac wrth gwrs, peidio cyrraedd pen y daith yn rhy fuan! Dwi felly wedi cymryd 'y daith' ychydig yn llythrennol, ac wedi ceisio adrodd yr hanesion yn ôl y wlad lle digwyddodd yr hanes, ac yn sgil hynny, osgoi unrhyw gofnodion cronolegol."

Rhanna Dafydd hanesion am ei blentyndod a'i fagwraeth yn Llwyngwrl, Sir Feirionnydd, yn fab i'r Rheithor plwyf a hanesion o fywyd Coleg yn cynnwys cael ei arestio dair gwaith a chael ei ddiarddel o'r Coleg. Orlheinir dechrau ei yrfa gerddorol – o ddylanwad Nansi Richards arno i ddrymio gyda Brân gan ennill Cân i Gymru a'r Pan Geltaidd. Adroddir hanesion anhygoel am deithiau tramor ymhob rhan o'r byd gydag Ar Log – yn cynnwys chwarae gyda'r Dubliners a derbyn gwahoddiad i gartref Y Dywysoges Helga Lee yn Awstria i berfformio. Rhoddir sylw hefyd i'r byd darlledu, y byd recordio, a'r frwydr i sicrhau telerau teg i gyfansoddwyr a chyhoeddwyr cerddoriaeth o Gymru.

Dafydd Roberts yw Prif Weithredwr cwmni recordiau Sain ac mae'n aelod o'r band gwerin Ar Log ers ei sefydlu yn 1976. Bu'n gweithio i'r BBC fel ymchwilydd yn yr Adran Blant, fel cyfarwyddwr ar raglenni adloniant a chynhyrchydd yr Adran Gerdd. Gweithiodd gyda Hel Straeon, Ffilmiau'r Nant a Thir Glas. Ffurfiodd gwmni teledu annibynnol Gwdihw ac fe sefydlodd Gynghrair Cyfansoddwyr a Chyhoeddwyr Cerddoriaeth Cymru ac Eos. Bu'n Gadeirydd Canolfan Gerdd William Mathias, yn Gadeirydd Y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig ac yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth Nansi Richards.

Un funud fach ...

EDRYCH YMLAEN

Am unwaith, roeddwn i'n hyderus. Ond nid digon hyderus. Wedi addo i'r Golygydd y byddwn yn ei hanfon ato erbyn bore fory, bu bron i mi fentro ei sgwennu y pnawn yma. Ond feiddiwn i ddim gwneud hynny. Doeddwn i ddim digon hyderus i ddweud cyn y gêm ein bod ar ein ffordd i'r Ewros unwaith eto. Ond heno, ychydig dros ddwy awr wedi'r gic olaf, mae'n ffaith: bydd Cymru'n cystadlu ym Mhencampwriaeth Ewrop am yr eildro.

Yng nghanol cyffro'r gêm gall pobl ddweud y pethau rhyfeddaf. Ac mae'n rhaid i mi gyfaddef i mi weiddi rhywbeth ofnadwy heno: rhywbeth na weiddais erioed mohono o'r blaen. Ac mi wn y dylwn deimlo cywilydd mawr. Mi rof y bai ar Kieffer Moore. Oherwydd ei weld o'n rhedeg at gôl Hwngari a wnaeth i mi yngan dau air na feiddiais eu dweud (efo'i gilydd beth bynnag) cyn hynny: 'C'mon Llanrug!' Go brin i'r hen Kieffer fy nghlywed, a diolch am hynny doedd yna neb o Lanberis o fewn clyw.

Bore fory, mi fydd pobl yn dechrau breuddwydio am gael ail fyw cyffro Haf 2016; ail brofi hwyl Ffrainc; ail deimlo'r balchder o weld Cymru ar y llwyfan mawr; ail fwynhau'r llwyddiant hyd yn oed. Fe gafwyd rhagflas o'r fath ddyheadau yn y stadiwm heno wrth ddathlu'r fuddugoliaeth a'i harwyddocad. Yr oedd Ffrainc 2016 yn arbennig iawn, a does ryfedd fod pobl yn dawnsio a chanu wrth feddwl y bydd y Ddraig Goch i'w gweld ar ein tai a'n ceir a'n strydoedd yn cefnogi Gareth a Joe, Aaron a Dan a'r criw.

Cyn Haf 2016, hir fu'r disgwyl am gael gweld tim pêl droed Cymru ar y llwyfan mawr. Cwpan y Byd 1958 oedd yr unig dro cyn hynny i ni gyrraedd rowndiau terfynol yr un o'r ddau brif dwrnamaint yr ydym yn rhan ohonynt, ar wahân i 1976 pan gafwyd llwyddiant yn yr Ewros dan drefn wahanol. Ond doedd bron i 60 mlynedd ers 1958 yn ddim o'i gymharu â'r blynyddoedd sydd ers i ni weld diwygiad Cristnogol yng Nghymru. Erbyn hyn, mae canrif a mwy ers Diwygiad 1904-05, dros hanner canrif arall wedyn ers Diwygiad 1859, dau gan mlynedd ers Diwygiad Beddgelert yn 1817, a bron i dri chan mlynedd ers dechreuadau Diwygiad Methodistaidd y ddeunawfed ganrif. Yr oedd i'r diwygiadau hynny eu cyffro ysbrydol, eu haddoliad llawen, eu hymchwyllydd cenhadol a'u henillion amlwg o ran niferoedd y credinwyr. Ond a yw'r maith flynyddoedd wedi diffodd dyhead Cristnogion Cymru am weld deffroadau o'r fath eto? Yr oedd i'r diwygiadau hyn eu nodweddion a'u storïau eu hunain. Nid yr un yn union oeddent, ond ym mhob un ohonynt yr oedd Efengyl Iesu Grist yn dod yn rym achubol ym mywydau pobl. Po fwyaf a wyddom, a pho fwyaf a gofiwn am ddyddiau da'r Efengyl yn ein gwlad, mwyaf tebygol y byddwn o ddyheu ac o weddio am ddyddiau tebyg pan fydd yr Efengyl mewn bri eto a'r Arglwydd Iesu Grist yn cael ei gofleidio gan bobl y bydd Duw wedi eu deffro a'u bywhau trwy rym ei Ysbryd Glân.



JOHN PRITCHARD

AR Y BRIG

Canmolwn yn awr Bencampwr Byd o'r ardal. Yr ymosodol Marvin Pritchard, aelod cystadleuol o garfan pêl-droed Llanrug. Ond nid yn y mwd y tro yma ond yn ffwrnais y sgwar bocsisio, a'r dull agored o focsio sef y Martial Arts. Dyma frwydro go iawn. Yr oedd gan Marvin record dda yn mynd i mewn i'r ornest dyngedfenol am y Gwregys Byd i rai hyd at bwysau corff o 80Kg. Roedd yn ddiguro mewn 10 gornest bocsisio cic a dwy yn y cylch bocsisio. Serch hynny roedd wedi bod yn dioddef o anaf i'w fawd. Yr oedd yr ornest am Wregys Byd Cymdeithas y World United Martial Arts. I gynyddu'r tensiwn roedd Marvin yn wynebu ymladdwr 'lleol' cystadleuol iawn sef Gaz Lavin o Fae Colwyn. I Marvin daeth y clod a bydd tipyn o her yn ei wynebu bellach yn amddiffyn y gwregys.

Pigion Byd Natur

Diogelu?



Hefo siopio mewn golwg, meddyliwch mewn difri calon pa mor ddefnyddiol-hwylus ydyw bagiau plastig. Peiriannydd, a brodor o wlad Sweden, sef Sten Gustaf Thulin, sy'n cael y clod ran dyfeisio y bag siopio modern, a gyflwynwyd heb air o gerydd nac unrhyw gondemniad i'n byd Erwopeaidd rhywdro yn chwedegau cynnar yr ugeinfed ganrif.

Ond beth, meddech chwi, y tro hwn, sydd â wnelo hyn i gyd â'n testun? Cystal dyfod at hwnnw, sef tyrtlau cefnau lledrog (y mwyaf o ddigon ymhlith tylwyth y tyrtlau; pwysent rhwng 250 a 900 cilogram) a chreaduriaid ydynt sy'n byw, heblaw am ddyfroedd iasol Arctig a'r Antartig, ym moroedd y byd. Y maent hefyd yn y flwyddyn 2019 wedi eu rhestru ymhlith 'Rhywogaethau a berygcwyd'. Amcangyfrifir bod rhywle rhwng 34,000 hyd at 36,000 o fenywod tyrtlau cefnau lledrog yn dal ati i ddodwy rhwng 60-a 100 o wyau mewn tyllau a gloddiwyd ganddynt ar draethau, cyn iddynt ddychwelyd i'r moroedd, ble y maent yn byw ar fwyta slefrod (pysgod jeli).

Go dda ynte! Ond daliwch eich gafael! Cymharwch yr ystadegau uchod efo rhai a gofnodwyd yn y flwyddyn 1982 pryd yr oedd 115,000 o'r benywod tyrtlau cefnau lledrog yn nythu. Golyga leihad a phriniau - ddiflaniad.

I ni yma yng Nghymru, o bosib nad ydyw tyrtlod cefnau lledrog yn golygu rhyw lawer, ac eto drwy gydol hanes ein gwlad bu i'w cyrff meirwon gael eu golchi ar lannau ein traethau. O daro arnynt a'u harchwilio, tybid eu bod naill ai'n dioddef o'r cyflwr heipothermia cyn marw, neu wedi mygu ar wleda ar yr hyn a ymddangosai iddynt yn slefrod môr. mewn gwirionedd nid dyna oeddynt, ond yn hytrach bagiau plastig a luchiwyd i'r eigion.

Digon gwir, y mae tyrtlau cefnau lledrog yn yr oes sydd ohoni yn cael eu hamddiffyn a'u gwarchod, a diolch i'r drefn am hynny, ac am yr ymdrechion dynol i'w gwaredu rhag yr holl beryglon a ddeillia o lygru eu cynefinoedd. Er nad oes ddiwedd arno, dalied ati ddweda i, efo'r gwaith amhrisiadwy hwnnw o greu ymwybyddiaeth ac ymestyn gorwelion, ond yn bennaf oll - parchu bywyd.

Dafydd Gruffudd Ifan

RHEDEG MYNYDD

Cynrychioli Cymru.

Llongyfarchiadau i Maggie Oliver o Ddinorwig am gael ei dewis i gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth Trawsgwlad Meistri Prydain ac Iwerddon yn Aintree, Lerpwl.

Ras Hwyl.

Cynhelir y ras hwyl flynyddol o Westy Fictoria, Llanberis ar fore Sul, 15fed o Ragfyr am 11.00. Taith hamddenol neu redeg caled o amgylch Llyn Padarn. Rasys byrrach i blant. Does dim rhaid bod yn aelod o Glwb Rhedwyr Eryri i gystadlu. Bydd gwobr hefyd am y rhedwr gyda'r wisg ffansi orau. Paned a mins pei i bawb ar ddiwedd y ras. Croeso cynnes i bawb, ond cofiwch gyrraedd yn ddigon buan i gofrestru.

DAL Y PWYSAU



I fyd y codi pwysau – y powerlifting’- y mis hwn. Cyfle i dynnu sylw at Ian Williams, 26 oed o Lanberis a’i ddatblygiad rhyfeddol yn y gamp. Ganol Tachwedd bu Ian draw yn Lohti, Finland yn cynhyrchioli Prydain ym Mhencampwriaeth y Byd yn y gamp. Dosbarth Ian yw’r codwyr a phwysau corff o dan 90Kg. Yr oedd tua dwsin yn cystadlu yn y dosbarth hwn yn y bencampwriaeth. Yr oedd Ian wedi cyrraedd y lefel hon drwy gyrraedd y safon mewn tair rownd ragbrofol.

Yn y gystadleuaeth mae tair elfen yn golygu codi’r pwysau mewn tair techneg wahanol – y squat, bench press a’r deadlift. Yn y

gystadleuaeth yn y dair techneg cododd Ian 260Kg, 170Kg a 265 Kg yn rhoddi cyfanswm o 695Kg. Tipyn o berfformiad. Mae cyrraedd y lefel hon wedi rhoddi cryn hyder i Ian ond hefyd her i’w ymroddiad. Gall 2020 fod yn flwyddyn bwysig iddo gan dargedu Pencampwriaeth Prydain yn Birmingham ym mis Mai, a Phencampwriaeth y Byd yn Chicago ym mis Tachwedd. Dymunwn yn dda iddo. Yr hyn sy’n galonogol yw gallu dyfynu un o frawddegau Ian yn ystod fy sgwrs gydag o. “Buaswn yn hoffi datblygu y gamp a’i chyflwyno i bobl ifanc yr ardal.” Wel dyna wahoddiad yn sicr.

CAMDDEHONGLIAD

Derbyniais ambell i gŵyn mewn cysylltiad â’r erthygl ar bêl-droed merched y mis diwethaf. Mae’n ymddangos yn ôl y gŵyn, nad oedd y cymal “o gofio cyn lleied o gemau sy’n cael eu chwarae ar Gae Coed Bolyn” yn adlewyrchiad teg. Os wyf wedi camddehongli y sefyllfa yna rwyf yn ymddiheuro. Dros y blynyddoedd rwyf wedi rhoddi cryn ofod o gefnogaeth pan fydd timau lleol yn ennill twrnameintiau pell ag agos, neu i hysbysebu nawdd cwmnïau lleol gydag offer chwaraeon. Yn anffodus, amharod yw’r timau ieuenctid lleol – nid yn unig Bethel – i ddanfôn unrhyw adroddiadau am gemau cynghair/cwpan. Am sawl tymor byddai’r Wasg leol yn cyhoeddi y cyngheiriaau ac yn rhoi braslun o rai o’r gemau. Ni cheir hyn mwyach. Dyma oedd fy symbyliad i ysgrifennu y golofn ddau fis yn ôl yn gofyn beth yw gwir sefyllfa strwythr pêl-droed ieuenctid bellach ym Mro’r Eco. Beth yw’r cryfderau, beth yw’r gwendidau? Dyma gyfle felly i’r clybiau ymateb a danfôn pwt o newyddion i mi, gan gofio fod unigolion sawl pentref wedi cyfrannu yn ariannol dros sawl blwyddyn i gynnal y timau.

BWRW GOLIAU

Bu Tachwedd yn un o fisoedd gwlypafers oesoedd gyda cynifer o gemau wedi eu gohirio. Yn achos rhai clybiau roedd rhaid ildio mantais gartref yn y gemau cwpan. Ond, yn y gemau â chwaraewyd bu dilyw o goliau. Roeddwn yn poeni ar un adeg buasai sgôr y gêm olaf i mi ddyfarnu gael ei churo. Ydych chi’n cofio’r noson. Llanrug 17 CP Bangor 0 a hogia Eithin Duon yn curo Machno o bwynt i gipio Cynghair Gwynedd.

Yng nghwpan Cymru yr ail/ trydedd rownd yw’r fangre ble mae clybiau rheng Llanrug/ Llanberis yn disgyn allan fel arfer, ond yn elwa o’r arian derbyniol ar gyrraedd cyn belled..I’r Wyddgrug aeth Llanrug ac yn hollol hapus ar y sgôr ar yr hanner: 0-0! A fu’r fath ail hanner, gyda’r sgôr terfynol yn Wyddgrug 8 Llanrug 1. Wedi’r fath ‘drochfa’ y Sadwrn canlynol roedd Llanrug yn teithio i Lanuwchllyn yn yr FAW Trophy. Hwn yw cwpan Llanrug. Hwn yw’r cwpan mawr. Mae’n amlwg fod geiriau’r tîm rheoli wedi merwino clustiau’r chwaraewyr, a chaed canlyniad codi calon: Llanuwchllyn 1 Llanrug 5. Y wobwr bydd taith i lawr i Lanidloes. Mae cyfleusterau da yno, gan fod Llanidloes yn y dyddiau cynnar yn aelodau o Gynghair Cymru. Clwb â elwodd o fuddsoddiadau Bwrdd Datblygu’r Canolbarth a roddodd grantiau hael i glybiau chwaraeon y Canolbarth yn yr 80a’u. Bwrdd nad yw’n bodoli bellach ond â adawodd waddol gwerthfawr. Os cofiaf yn iawn aeth Llanberis yno i chwarae gêm yn nghwpan Barritt o dan y llif oleuadau. Ffarweliodd Llanberis â’r ddau brif gwpan. Ildio 5 draw ym Modedern a daeth y llanw i mewn go iawn ar y Traeth, Porthmadog yng Nghwpan Cymru. Dim lwc yn y gynghair chwaith ac ildio pum gôl arall yn erbyn y ceffylau blaen draw yn Ninbych.

Canol y gynghair a chyfle am rediad yn y cwpanau. Ie, yr un yw hanes Waunfawr eto eleni. A diddorol sylwi, fod y Beganifs wedi sgorio 23 ac ildio 24 mewn 10 gem gynghair – ond dim ond un gem gyfartal.

Ie, chwedl Dylan Jones “gwyliwch y goliau”, ond plis geith hogia ni eu sgorio nhw!

YN EWROP AM Y TRYDYDD TRO

Ie, trydydd nid ail waith. Cofiwch hyn yn y cwis. 2016 Ffrainc, 2020 (ar grwydr) ac hefyd 1976 wrthi i Gymru gyrraedd y chwarteri ar ôl ennill eu grwp. Y rheolwr oedd Mike Smith a’r capten Terry Yorath. Colli fu hanes Cymru mewn gêm waedlyd, danlyd ac amheumon ynglyn â’r dyfarnwr Glockner o Ddwyrain yr Almaen, ar yr hen Barc Ninian.

Dan Giggs mae’r tîm presennol, sy’n gymysgedd o brofiad ac egni ifanc am herio Ewrop eto. Mae’r Wal Goch yn barod eu cefnogaeth a’r passports yn barod. Am wlad bach mae’r bêl-droed yn tanio’r genedl a’r tîm rygbi yn bedwerydd yn y byd. Os na fydd hyn yn tanio mwy o gefnogaeth i’r ddwy gêm yma wn i ddim beth wnaiff. Dyna ble mae’n bwysig i gefnogi ein timau lleol, rhoi awran yr wythnos i helpu gyda’r ieuenctid... Bydd llwyddiant yn parhau os bydd gwreiddiau y gêm yn gryf. Cefnogi nid dilorni. Nid yw pob chwaraewr yng ngharfan Cymru yn chwarae i glybiau yr Uwch Gynghair – yn enwedig y chwaraewr mwyaf allweddol Joe Allen. Hyd at fis yn ôl, pwy oedd Kieffer Moore neu Joe Morrell?

Rwyn cyfaddef fod gennyf – ie boi Man. U – amheumon am dactegau Giggs fel rheolwr. Ond bu yn ddewr. Heb Ramsey, Brooks, Chester, - a Bale yn chwarae ar un goes, newidiodd ddull o chwarae. Datblygodd gyflymdra’r pasio a rhoi’r cynnig arall o bêl hir draw i gyfeiriad Moore. Am unwaith roedd gennym flaenwr oedd yn dal y bêl i fyny, yn denu sylw amddiffynwyr i greu lle i chwaraewyr mwy amryddawn. Ie, mae fel chwdan pan mae’r bêl ar lawr ac wedi methu sawl cyfle yn barod ond mae yn dychryn y gwrthwynebwyr. Tipyn gwahanol i Vokes yn fy marn i.

Yr elfen bwysicaf bellach yw bod cystadleuaeth am le nid yn unig yn y tîm ond hefyd yn y garfan. Ar wahan i’r gôl-geidwad mae gan Giggs chwaraewr wrth gefn i lenwi pob safle bellach a rheini yn gyfforddus â’r dull o chwarae. Dyma brawf rwan ar barodrwydd y chwaraewyr i ennill eu lle. Ni fydd bod yn Gymro yn Lerpwl, Man U, Everton yn ddigon bellach os nad ydynt yn cael gêm. Mae chwarae yn rheolaidd i Abertawe, Charlton... yn rhoddi gwell cyfle. Oni wellodd Wilson o chwarae’n rheolaidd yn Derby a Bournemouth yn hytrach na gwylio’r tramorwyr fel aelod o garfan -21 Lerpwl?

Ie, mae cyfnod cyffrous o’n blaenau. Gobeithio y daw ambell i gêm barataol draw i’r Cae Ras. Hefyd bydd Ken Skates yn sylwi fod hawl gan gefnogwyr teyrngar sy’n gorfod mynd i Gaerdydd i weld y prif gemau rygbi, pêl-droed a chriced yn haeddu cwmni trenau sy’n barod i drefnu amserlen trenau ar eu cyfer. Cawn weld, gefnogwyr anhygoel Cymru a’r galon yn curo, yr anthem yn datgan ein teyrngarwch i Wales, Wales! Gyda llaw, pwy fyddwn yn gefnogi ar Ragfyr 12?

Chwaraeon

Anrhydeddu Arwel.



Yng Nghyfarfod Blynyddol Rhedwyr Eryri ddiwedd Tachwedd, cafodd y rhedwr lleol, Arwel Lewis o Fethel, ei ethol yn Aelod Anrhydeddus o'r clwb. Mae Arwel wedi bod yn aelod ffyddlon o Redwyr Eryri ers blynyddoedd lawer, gan weithredu fel aelod o'r pwyllgor rheoli, Cadeirydd ac Ysgrifennydd yr Adran Rhedeg Ffordd. Mae wedi cynrychioli'r Clwb mewn rasys ffordd, traws-gwlad a mynydd. Yn rhinwedd ei swydd fel ysgrifennydd yr adran rhedeg ffordd mae wedi gofalu fod gan Eryri dîm yn eu cynrychioli yn flynyddol yng Nghynghrair y Gororau, ac y mae'n dal y record am y rhedwr o unrhyw glwb sydd wedi cystadlu fwyaf yn y rasys rheini. Bu'n trefnu Ras 10k Caernarfon ers blynyddoedd a hefyd yn gofalu am dîm Eryri yn Ras Cyfnewid y Cestyll o Gaernarfon i Gaerdydd. Mae'n dal i gystadlu'n rheolaidd. Llongyfarchiadau mawr iddo.

Sgio



Dros yr ail benwythnos yn Nhachwedd, bu dau dîm sgïo yn cynrychioli Ysgol Brynrefail mewn cystadleuaeth ym Mhencampwriaeth Sgïo Ysgolion Prydain 2019 yn Stoke. Er na ddaethant i'r brig cawsant brofiad gwerth chweil a dyma'r tro cyntaf i ambell un ohonynt gystadlu yno. Profiad amhrisiadwy. Llongyfarchiadau bawb.

Dechrau tymor da i'r Clwb Hoci



Mae Tîm Clwb Hoci Merched Caernarfon wedi cael dechrau da i'r tymor gan ennill 5 o'u 6 gêm yn ail adran Cynghrair Hoci Merched Gogledd Cymru sy'n eu gadael yn ail yn y tabl gydag un gêm mewn llaw. Gyda chit newydd sbon, piws a melyn, wedi ei noddi gan Westy Padarn, Llanberis, mae'r tîm yn paratoi am eu her nesaf, sef gêm gwpan yn erbyn tîm cyntaf Dysynni. Gyda'r gwrthwynebwyr

ar frig adran 1 y gynghrair mae'n siwr o fod yn gêm anodd yn Llanrug ar benwythnos olaf Tachwedd. Hoffai'r clwb ddiolch yn fawr i berchnogion Gwesty Padarn am y nawdd arbennig. Mae timau o dan 9, 11 a 13 hefyd wedi bod yn brysur gyda chryn lwyddiant mewn twrnments ym Mae Colwyn, Wrecsam a Thywyn Meirionydd.